

# RHAGLEN DATBLYGU GWLEDIG LEADER 2014-2020: STRATEGAETH DATBLYGU LLEOL (SDLI) CYNGOR ABERTAWA

MAI 2020

## CYFLAWNI RHAGLEN DATBLYGU GWLEDIG LEADER YN ABERTAWA



Lleoliad: Cronfa Ddŵr Lliw, Ward Mawr

## **ENW A MANYLION CYSYLLTU'R GRŴP GWEITHREDU LLEOL (GGLI)**

<b>Enw'r GGLI</b>	Partneriaeth Datblygu Lleol Abertawe
-------------------	--------------------------------------

### **Prif Gyswllt y Corff Gweinyddol (gelwir hefyd yn Swyddog y GGLI)**

<b>Enw</b>	Victoria Thomson
<b>Rhif ffôn</b>	077962 75087
<b>E-bost</b>	<a href="mailto:victoria.thomson@swansea.gov.uk">victoria.thomson@swansea.gov.uk</a>
<b>Cyfeiriad</b>	Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas Cyngor Abertawe Heol Ystumllwynarth AbertaweSA1 3SN

### **Ail Gyswllt y Corff Gweinyddol**

<b>Enw</b>	Clare James
<b>Rhif ffôn</b>	07980 939678
<b>E-bost</b>	<a href="mailto:Clare.james2@swansea.gov.uk">Clare.james2@swansea.gov.uk</a>
<b>Cyfeiriad</b>	Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas Cyngor Abertawe Heol Ystumllwynarth AbertaweSA1 3SN

## **AMSERLENNI GWEITHREDU'R STRATEGAETH DATBLYGU LLEOL**

<b>Dyddiad Dechrau</b>	1 Gorffennaf 2015
<b>Dyddiad Gorffen</b>	30 Mehefin 2023

### **Rhagair:**

Daliwch sylw: dyma bedwerydd fersiwn y SDLI. Fe wnaeth dau fersiwn cynharach, dyddiedig Medi 2014 a Mawrth 2016, drafod sefydlu'r rhaglen a'r systemau gweinyddol amrywiol yn fanwl. Roedd trydydd fersiwn, a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2017, yn cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth hon, ond roedd yn adlewyrchiad cywirach o sefyllfa'r rhaglen a'r hyn yr oedd y rhaglen wedi'i gyflawni ar y pryd.

Mae'r pedwerydd fersiwn hwn yn rhoi diweddariad ini ac mae'n adlewyrchu penderfyniad Partneriaeth Datblygu Lleol Abertawe i sicrhau fod y strategaeth hon yn cyd-fynd â fframwaith ac ymagwedd Un Blaned. Cafodd ei lunio gan Helen Grey, Swyddog Rhaglenni Cyllid Allanol. f4, Mai 2020.

Mae copïau o fersiynau blaenorol y SDLI ar gael trwy e-bostio [RDPLEADER@swansea.gov.uk](mailto:RDPLEADER@swansea.gov.uk)

## Tabl Cynnwys

<b>Rhagair gan Gadeirydd PDG Abertawe</b>	<b>Tudalen 4</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>Tudalen 5</b>
<b>Y cefndir: Cyflwyniad i ymagwedd ‘Un Blaned’</b>	
<b>Adran 1 – Cysondeb Strategol</b>	<b>Tudalen 8</b>
1.1 Diffiniad o’r ardal a’r boblogaeth y mae’r strategaeth yn eu cwmpasu	
1.2 Disgrifiad o’r Integreiddio	
<b>Adran 2 – Cyddlidol a Chydymffurfiaeth</b>	<b>Tudalen 36</b>
2.1 Rheoli a Gweinyddu	
<b>Adran 3 - Cyflawni</b>	<b>Tudalen 42</b>
3.1 Disgrifiad o’r strategaeth a’r hierarchaeth o amcanion	
3.2 Cydweithredu a Rhwydweithio	
3.3 Disgrifiad o Arloesedd	
3.4 Cynllun Gweithredu	
3.5 Gweithgarwch Hyrwyddo	
<b>Adran 4 – Rheoli’r Gwaith</b>	<b>Tudalen 50</b>
4.1 Rheoli a Gweinyddu	
<b>Adran 5 – Gwerth am Arian</b>	<b>Tudalen 53</b>
5.1 Proffiliau Cyflawni Cyllidol	
<b>Adran 6 – Dangosyddion a Chanlyniadau</b>	<b>Tudalen 53</b>
6.1 Monitro a Chanlyniadau	
6.2 Cynllun Gwerthuso	
<b>Adran 7 – Addasrwydd Buddsoddi</b>	<b>Tudalen 57</b>
7.1 Disgrifiad o’r broses o gynnwys y gymuned wrth ddatblygu’r strategaeth	
7.2 Dadansoddiad SWOT i ddangos anghenion datblygu a photensial yr ardal arfaethedig	
<b>Adran 8 – Themâu Trawsbynciol</b>	<b>Tudalen 62</b>
8.1 Themâu Trawsbynciol	
8.2 Cynorthwyo’r Ucheldiroedd	
<b>Adran 8 – Cynaliadwyedd Tymor Hir</b>	<b>Tudalen 64</b>
9.1 Cynlluniau Prif-ffrydio	
<b>Adran 10 – Datganiad a Llofnod</b>	<b>Tudalen 66</b>
<b>Adran 11 - Atodiadau</b>	<b>Tudalen 67</b>

## **Rhagair gan Gadeirydd PDG Abertawe**

Fe wnaeth y GGLI ddatblygu ein Strategaeth Datblygu Lleol (SDLI) gyntaf yn 2014. Mae'r strategaeth a'r diweddariadau dilynol wedi ein gwasanaethu'n dda, gan roi arweiniad i ni ynghylch ein gwaith o gynorthwyo ystod amrywiol o brosiectau deinamig ac arloesol. Fodd bynnag, ers iddi gael ei drafftio gyntaf, mae'r cyd-destun lleol a byd-eang wedi symud ymlaen ac rydym wedi dysgu llawer fel grŵp am ein dull o ymdrin â'n tasg.

Mae ein SDLI ar ei newydd wedd yn wahanol iawn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae deddfwriaeth arloesol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi dod yn rhan allweddol o'r ffordd y mae'r sector cyhoeddus a llawer o bartneriaethau yn gweithio. Mae wedi pennu Nodau Llesiant a Ffyrdd o Weithio sy'n llywio'r ffordd rydym ni'n gwneud busnes a'r canlyniadau rydym ni'n ymdrechu i'w cyflawni. Mae'r bygythiad y mae'r newid yn yr hinsawdd yn ei gyflwyno i bawb ohonom ni wedi'i gydnabod o'r diwedd ac mae Argyfwng yr Hinsawdd wedi'i ddatgan. Yn yr un modd, mae ein heffaith ar yr ecosystem fyd-eang wedi arwain at Argyfwng Natur yn cael ei gydnabod gan lawer. Wrth i mi ysgrifennu, wrth weithio gartref yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud oherwydd pandemig coronafeirws, mae gwerth cymunedau cryf, bwydydd a gynhyrchir yn lleol, gwasanaethau gwledig a busnesau annibynnol cryf yn cael sylw amlycach nag erioed o'r blaen.

Fel cyfrwng newid allweddol, mae gan rhaglen LEADER gyfle unigryw i ysgogi prosiectau a mentrau yn Abertawe wledig. Gan ystyried bod ein gwaith yn cael ei arwain a'i lywio gan y SDLI, roedd y GGLI yn teimlo bod angen i ni adlewyrchu'r newid mewn cyd-destun lleol a byd-eang yn ein strategaeth ddiwygiedig trwy sicrhau fod cynaliadwyedd a chydnerthedd cymunedau yn rhan anhepgor o hynny, fel egwyddorion arweiniol allweddol. I wneud hyn, fe wnaethom ni fabwysiadu ymagwedd Un Blaned at yr adolygiad.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau â'n gwaith gyda chymuned wledig Abertawe wrth inni gyflawni'r strategaeth hon ar ei newydd wedd. Byddwn yn gwahodd ac yn ceisio cyfleoedd i gefnogi datblygiad mwy o brosiectau newydd ac arloesol sy'n ein helpu i gyflawni'r weledigaeth sydd gennym ar gyfer yr ardal – i sicrhau cymunedau gwell, sy'n fwy llewyrchus, cynaliadwy a chydnerth.

Hamish Osborn  
Ebrill 2020

## CYFLWYNIAD


### Cefndir yr ymagwedd Un Blaned at y SDLI hon

Yn ogystal â dathlu rhyfeddodau bywyd ar y Ddaear - amrywiaeth natur, tirweddau, diwylliant a phobl - rydym bellach yn hollol ymwybodol o'n heffeithiau ar gyfansoddiad system cynnal bywyd y Ddaear, yr union beth y mae ein heconomïau a'n llesiant yn dibynnu arni. Yn ychwanegol, rydym erbyn hyn yn wynebu sioc pandemig coronafeirws a'r newidiadau digynsail a ddaeth yn ei sgil. Yr hyn sydd wrth wraidd yr ymateb i'r ddau argyfwng, o safbwynt tymor byr a thymor hir, yw cydnherthedd cymunedau a'u gallu i addasu; mae hyn yn allweddol i'r strategaeth Un Blaned newydd hon sydd â ffocws newydd. Yn wir, yn fyd-eang, mae llawer o adroddiadau wedi cysylltu achosion megis coronafeirws â'n heffeithiau ar ein byd naturiol, ac mae arweinwyr y byd yn dadlau'r achos dros adferiad 'gwyRDD' yn dilyn coronafeirws. Bydd cyllid y RhDG/LEADER yn hanfodol yn ystod y misoedd sy'n dod i helpu ardaloedd gwledig i adfer wedi effaith coronafeirws. Mae'n ofynnol hefyd i annog a hwyluso newid mewn ymateb i argyfyngau'r hinsawdd a natur.

### **Beth yw ymagwedd 'Un Blaned'?**

Mae'r 'Ôl Troed Ecolegol' yn ddull defnyddiol i fesur ein heffaith ar y blaned. Yn syml, mae'n darlunio'r galw dynol ar natur a'r hyn mae natur yn ei gyflenwi. Yn fwy manwl, mae'n mesur ein galw am adnoddau naturiol a'r cynhyrchion gwastraff sy'n deillio o'u defnyddio o gymharu â'r gallu sydd gan natur i ateb y galw hwnnw, amsugno gwastraff ac, *yn hanfodol*, adfywio.

Ffordd arall o fynegi hyn yw gallu'r Ddaear i ddarparu popeth sydd ei angen arnom trwy gydol ein bywydau - awyr iach, dŵr glân a phriddoedd iach, ynni, ffyrdd, adeiladau, bwyd a dillad, ac ati.



**Figur 1:** Darlun o Ôl Troed Ecolegol

Mesurir y biocapasiti hwn mewn 'hectarau byd-eang' (gha) - mae hecтар yn cyfateb i gae rygbi, fwy neu lai. Gan ddefnyddio gwybodaeth am ffyrdd o fyw a chymeriant, gallwn gyfrifo faint o gha sy'n cael eu defnyddio fesul unigolyn ar gyfartaledd. Yna, gallwn ni amcangyfrif biocapasiti (h.y. adnoddau naturiol) sawl planed a fyddai'n

ofynnol pe bai gan bawb ar y Ddaear yr un ffordd o fyw. Yn yr un modd, gellir cyfrifo ôl troed ecolegol sefydliad, cymuned, dinas neu wlad.

Mae maint yr ôl troed, sef nifer y gha, yn darlunio'r effaith cyfan. Caiff ei rannu yn segmentau sy'n cynrychioli gwahanol feysydd a gwahanol ffynonellau'r effaith, fel y gwelir yn y llun uchod. I ddarlunio hyn, dychmygwch gerdded ar dywod a'r gwahaniaeth ym maint yr olion traed y byddech chi'n eu creu wrth gerdded yn ysgafn ac yn droednoeth, o gymharu â maint yr olion traed pe byddech chi'n gwisgo esgidiau uchel mawr a thrwm.

### **Dyma'r cwestiwn allweddol – sawl hectar byd-eang o fiocapasiti sydd ar gael a faint rydym ni'n eu defnyddio?**

Yn 2016, roedd ôl troed ecolegol cyfartalog y byd yn 2.8 gha y pen; mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 22.6 biliwn gha yn fyd-eang. Mae biocapasiti cyfartalog y byd yn 1.63 gha y pen yn unig, neu 12.2 biliwn gha yn fyd-eang, felly mae gennym ni ddiffyg o tua 1.1 gha y pen. Yn Abertawe, mae ôl troed cyfartalog pob unigolyn yn 3.25 gha. Mae hyn yn golygu, pe bai pawb yn y byd yn byw fel rydym ni'n ei wneud yn Abertawe, byddai arnom ni angen adnoddau naturiol 2.5 o blanedau i gynnal ein ffyrdd o fyw. Yn amlwg, lleihau ein heffaith yw ein hunig ddewis. Bellach mae llawer o bobl yn deall canlyniadau peidio â gwneud hynny ac mae llawer iawn wedi'i ysgrifennu am hynny, a chydabyddir hynny gan y cannoedd o ddatganiadau ynghylch argyfyngau'r hinsawdd a natur sydd wedi cael eu cyhoeddi yn fyd-eang, gan gynnwys ledled Cymru a gan Gyngor Abertawe.



***Figur 2:** Pe bai gweddill y byd yn byw fel rydym ni'n ei wneud yn Abertawe a Chymru, byddai arnom ni angen adnoddau naturiol 2.5 o blanedau i gynnal y ffyrdd hyn o fyw*

Wrth gwrs, dim ond **un blaned** werthfawr sydd gennym ni, a dyna beth yw perthnasedd yr ymagwedd Un Blaned a dyna pam mae PDG Abertawe wedi defnyddio hynny i hysbysu'r strategaeth hon.

### **Sut allwn ni leihau ein hól troed ecolegol?**

Yn amlwg, nid yw ôl troed sylweddol Abertawe yn gynaliadwy. Nid yw'n anghynaliadwy oherwydd tegwch byd-eang yn unig, mae'n anghynaliadwy hefyd oherwydd efallai y bydd rhannau o'r byd rydym ni'n dibynnu arnynt am nwyddau a gwasanaethau yn methu eu darparu yn fuan, pan fyddwn ni, fel mae llawer yn credu, yn symud tuag at gynnydd o fwy 1.5°C ar ben lefelau'r tymheredd cyn y chwyldro diwydiannol, ac fe wnaiff hynny danseilio ein gallu i ddiwallu ein anghenion.

Os gallwn ni (1) leihau cymeriant, neu (2) gyflawni'r un lefel o wasanaeth â llai o adnoddau ac effeithiau, fe wnawn ni leihau ein ôl troed. Os gellir darparu

gwasanaeth â llai o effaith – e.e. tŷ di-garbon, neu gerdded yn lle defnyddio car, neu dyfu cnydau organig, neu nwyddau y gellir eu hailgylchu'n llwyr – gall ansawdd ein bywydau barhau fel y mae neu wella hyd yn oed ac effeithio llai ar y blaned – *bydd pawb ar eu hennill*. Gallwn ni hefyd (3) annog mwy o natur yn ein hardal, a gwella ffrwythlondeb y pridd, ac fe wnaiff hyn hefyd helpu i gynyddu biocapasiti. Felly, hyrwyddo'r tri 'buddiant' y nodir uchod yw nod fframwaith 'Un Blaned'. Mae'r feddylfryd hon wedi hysbysu ein nodau a'n hamcanion newydd, a bydd gwaith y Bartneriaeth a'n rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar hynny.

Os gallwn ni hefyd fesur effaith ein gweithgareddau, fe wnaiff hynny helpu i deimlo'n hyderus ein bod ni'n canolbwyntio ein hymdrechion ar y meysydd hynny y gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf iddynt.

### **Trem ar y dyfodol**

Gall economi leol gydnerth, sy'n ystyried ac yn gweithredu i liniaru ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd (a choronafeirws hefyd erbyn hyn), ddarparu bywoliaeth dda i bobl, gan ddefnyddio eu cyfran deg o adnoddau, wrth ymateb i ysgytwadau tymor byr a newidiadau tymor hir. Mae'n golygu caffael mwy o nwyddau a gwasanaethau yn lleol, a chreu cadwyni cyflenwi lleol newydd. Mae sicrhau fod y cadwyni cyflenwi hyn mor gylchol ag y bo modd yn golygu y cânt eu llunio i sicrhau y caiff gwastraff ei leihau, ei aildefnyddio neu ei ailgylchu, gan sicrhau fod rhagor o adnoddau ar gael yn lleol. Dylai'r adnoddau hynny ddefnyddio cyn lleied ag y bo modd o ynni, a dylid darparu'r ynni o ffynonellau cynaliadwy. Gall buddion eraill ddeillio o hynny, er enghraifft, rhagor o swyddi a swyddi mwy ystyrlon, llai o gludiant, dyfrgyrsiau, pridd ac aer sy'n iachach, mwy o fioamrywiaeth a llesiant gwell.

### **GWELEDIGAETH PDG ABERTAW**

Yn unol â'r dull 'Un Blaned' a amlinellir uchod, ein gweledigaeth, gan edrych ymlaen tua 10-15 mlynedd, yw sicrhau fod wardiau gwledig Abertawe yn gweithredu i liniaru argyfyngau'r hinsawdd a natur ac argyfyngau eraill (megis pandemig coronafeirws), yn addasu yn unol â'r argyfyngau hynny ac yn amddiffyn eu hunain rhagddynt.

### **Ein Gweledigaeth**

**Rydym ni'n dymuno sicrhau dyfodol 'Un Blaned' ar gyfer Abertawe wledig sy'n:**

- cynyddu cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau trwy gynhyrchu rhagor o'r hyn maent yn ei ddefnyddio;
- gwneud hynny mewn modd sy'n llai niweidiol i iechyd pobl ac i'r amgylchedd;
- cynnal adnoddau naturiol a bioamrywiaeth helaethach;
- annog rhoi terfyn ar wastraff diangen;
- sicrhau mwy o swyddi lleol a mwy ystyrlon;
- cynnig amddiffyniad gwell rhag y posibilrwydd o darfu yng ngweddill y byd mewn perthynas â'r amgylchedd, masnach a'r economi;
- lleihau olion troed ecolegol a charbon yr ardal.

Mae ein Nodau a'n Hamcanion Strategol, sy'n cael eu disgrifio yn adran 3.1, yn diffinio sut byddwn ni'n cydweithio â'n rhanddeiliaid i gyflawni'r weledigaeth hon.

## ADRAN 1 – CYSONDEB STRATEGOL

Disgrifiad	Egluro sut mae'r Strategaeth yn gyson â strategaethau, polisiâu a rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd ac i ba raddau y mae'n cyd-fynd ag Meysydd Ffocws Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru (2014-2020) a phum thema LEADER fel y bo'n briodol i gyd-destun y Strategaeth.
Yn gysylltiedig ag	Adrannau 3.1 a 3.5 o Ganllawiau SDLI Mehefin 2014

### 1.1 Diffiniad o'r ardal a'r boblogaeth y mae'r strategaeth yn eu cwmpasu

#### Daearyddiaeth

#### Wardiau Abertawe Wledig

Mae ardal awdurdod lleol Abertawe yn gyfuniad unigryw o leoliadau trefol a gwledig ar arfordir de Cymru. Mae ardaloedd gwledig yn amgylchynu canol dinas Abertawe, â phenrhyn Gŵyr i'r gorllewin a wardiau Mawr, Pontarddulais a Llangyfelach i'r gogledd. Gŵyr yw Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU; o'i hamgylch, ceir nifer o ardaloedd llai eraill, gan gynnwys ardaloedd amaethyddol a hen ardaloedd glofaol. Mae'r wardiau gogleddol yn llawn tiroedd comin ucheldirol, sy'n debyg i rannau o ganolbarth Cymru o ran natur a phatrwm anheddiad. Mae siaradwyr Cymraeg yn amlwg yn yr olaf o'r rhain.

Mae Abertawe wledig yn cynnwys 8 ward wledig ac mae cyfanswm ei harwynebedd tir yn 248.98 cilomedr sgwâr (Cyfrifiad 2011). Mae llai o bobl yn tueddu i fyw yn y wardiau gwledig, yn ôl y Cyfrifiad, ac mae pobl yn byw yn fwy ar wasgar o'u cymharu â wardiau trefol.


Dyma'r wyth ward cwbl gymwys:-

- Llanddeilo Ferwallt;
- Fairwood;
- Gŵyr;
- Llangyfelach;
- Mawr;
- Penclawdd;
- Pennard;
- Pontarddulais.



**ELIGIBLE CENSUS WARDS**


- 1 - BISHOPSTON
- 2 - FAIRWOOD
- 3 - GOWER
- 4 - LLANGYFELACH
- 5 - MAWR
- 6 - PENCLAWDD
- 7 - PENNARD
- 8 - PONTARDULAI



*Produced by Information, Research & GIS  
for Paul Jones (External Funding Programme Officer)*

© Crown Copyright and database rights 2018 Ordnance Survey 100023509


1. Llandeilo Ferwallt a Murton yw'r ddau brif anheddiad yn ward **Llandeilo Ferwallt**. Profodd y ddau ohonynt ehangu sylweddol yn ystod yr 20fed Ganrif, yn enwedig yn ystod y cyfnod rhwng y ddau Ryfel Byd ac o'r 1960au ymlaen, gan dyfu o fod yn ddau bentref bach i fod yn ardal drefol ddi-dor bron iawn. Llandeilo Ferwallt yw un o bentrefi mwyaf penrhyn Gŵyr. Er gwaethaf y trefoli hwn, mae'r ward wedi cadw ei naws wledig, werdd ac mae'n faestref y mae galw mawr amdani. Mae'r mwyafrif o anheddau yn rhai sengl neu bâr ac yn eiddo i berchnogion preifat. Ar arfordir y ward, mae Bae Cas-wellt yn benodol yn denu pobl oherwydd ei hygyrchedd a'i gyfleusterau i ymwelwyr. Mae'n rhaid cerdded i gyrraedd traethau eraill, megis Pwll Du a Childraeth Brandi.



2. Ceir dau brif grynodiad o dai yn ward **Fairwood** – y Crwys a Chilâ Uchaf. Sefydlwyd y ddau anheddiad yn y 19eg Ganrif a dechrau'r 20fed Ganrif wrth i anheddau gael eu hadeiladu i ddarparu ar gyfer gweithwyr ffermydd a phyllau glo lleol. Ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, ehangwyd yr aneddiadau ymhellach a datblygwyd anheddau pâr a sengl wrth i'r ardaloedd ddod yn faestrefi poblogaidd y ddinas. Mae dros 80% o'r eiddo preswyl yn eiddo i berchnogion preifat, ac mae bron iawn hanner y tai yn eiddo'n llwyr i'w perchnogion.




3. Mae **Gŵyr** yn cwmpasu rhan orllewinol fwy diarffordd Penrhyn Gŵyr. Hyd at ail hanner yr 20fed Ganrif, roedd yn cynnwys cymunedau ffermio bychan gwasgaredig i raddau helaeth, pob




un â'i chymeriad unigryw ei hun. Mae maestrefoli wedi arwain at ehangu rhai o'r pentrefi hyn, er bod rheoliadau cynllunio caeth AHNE Gŵyr wedi atal datblygiad tai. Mae llawer o'r aneddiadau wedi cadw eu craidd hanesyddol ac wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth. Oherwydd yr amgylchedd hyfryd a'r nifer gyfyngedig o gartrefi sydd ar gael, mae prisiau tai yn yr ardal yn tueddu i fod yn uchel iawn. Anheddau sengl modern a chartrefi â chymeriad wedi'u haddasu yw mwyafrif y tai ym mhen uchaf y farchnad dai.

4. Ward wledig yn bennaf yw **Llangyfelach** sydd wedi'i rhannu gan draffordd yr M4. Mae'r patrwm anheddu presennol yn adlewyrchu gweithgarwch diwydiannol yr ardal o'i gwreiddiau cynnar ym maes cloddio glo hyd at ddatblygiad gwaith tunplat Felindre yn y 1950au, a fu'n safle Eisteddfod Genedlaethol 2006, ac sydd bellach yn ganolbwynt cynlluniau ailddatblygu a buddsoddi uchelgeisiol. Mae ardal Llangyfelach, i'r de o'r M4, wedi'i huno i bob pwrpas â gogledd orllewin Mynydd-bach a gellir cysylltu hynny hefyd ag ehangiad diwydiannau trwm yr ardal. Mae'r ardal ar hyd ochr ddwyreiniol Heol Abertawe wedi profi datblygiad preswyl sylweddol dros y degawdau diwethaf. Pentref Coedwig Tircoed, i'r gogledd o Gyffordd 47, yw prif anheddiad arall yr ardal, a chafodd ei ddatblygu yng nghanol yr 1980au.




5. Mae rhannau helaeth o ward **Mawr**, y ward sydd â'r boblogaeth leiaf dwys yn y sir, yn ucheldir gwyrdd agored, ac eithrio pentrefi Craig Cefn Parc (yn y rhan dde-ddwyreiniol), Garnswllt (yn agos at ffin ogleddol y Sir â Sir Gaerfyrddin) a Felindre (yn y de gorllewin), a hefyd pentrefannau Rhydypany, Salem a Chwmcerdinen. Mae'r gweddill yn ffermydd gwasgaredig yn bennaf.




Tyfodd dau bentref

Craig Cefn Parc a Garnswllt o amgylch y diwydiant cloddio glo a diwydiannau cysylltiedig, yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif o leiaf. Heddiw, mae Craig Cefn Parc yn gymysgedd o dai'r awdurdod lleol, 'tai gweithwyr' sy'n dai pâr traddodiadol ac eiddo modern, sengl mawr. Ceir cymysgedd debyg o dai yng Ngarnswllt.

6. Mae **Penclawdd** yn enwog yn anad dim am ei diwydiant cocos lleol, a sefydlwyd yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid. Bydd y cocos yn cael eu casglu o'r fflatiau tywodlyd helaeth yn Aber Burry, eu prosesu mewn gweithfeydd bach ym mhentref cyfagos Crofty, a'u gwerthu ym Marchnad Abertawe a thu hwnt. Hyd at ddiwedd y 19eg ganrif, roedd Penclawdd hefyd yn borthladd môr ffyniannus, yn allforio nwyddau o byllau glo a gweithfeydd copr, tunplat a phres lleol. Y tu hwnt i'w thri phrif bentref, sef Penclawdd, Crofty a Llanmorlais, mae cymeriad y ward yn wledig yn ei hanfod ac mae ganddi lawer yn gyffredin â gweddill penrhyn Gŵyr i'w gorllewin a'i de.



7. Mae ward etholiadol **Pennard** yn cynnwys pentrefi Kittle, Pennard a Southgate a nifer o bentrefannau gwledig llai (e.e. Sandy Lane, Cannisland) ac eiddo unigol, gan gynnwys ffermydd a bythynnod gwyliau. Gadawyd pentref ac eglwys wreiddiol Pennard erbyn yr 16eg ganrif oherwydd tywod yn ennill ar y tywod, a chafodd y pentref ei adleoli'n fewndirol yn ddiweddarach. I'r gogledd o'r ward, mae Comin Fairwood, darn mawr o dir comin sy'n cynnwys Maes Awyr Abertawe, a ddefnyddir bellach gan awyrennau ysgafn preifat a gan wasanaethau hyfforddiant, hamdden a brys.



8. Am ganrifoedd, roedd **Pontarddulais** (neu'r 'Bont', fel y'i gelwir yn lleol) yn bentrefan bychan a adeiladwyd o amgylch un o fannau croesi Afon Llŵchwr. Cyrhaeddodd y rheilffordd gyntaf ym 1839 i gludo glo carreg o Gwm Aman i Lanelli. Wedi hynny, daeth lein arall o Abertawe ym 1866, ac un o fwynglawdd Graig Merthyr ym 1867. Fe wnaeth diwydiant trwm drawsnewid Pontarddulais yn dref ddiwydiannol lewyrchus, â chwe gwaith tunplat yn agor rhwng 1872 a 1910. Yn sgil hynny, bu twf sylweddol yn y boblogaeth a nifer y tai yn gynnwys yn yr 20fed ganrif, ond wrth gwrs, mae'r 'dad-ddiwydiannu' cyffredinol yr ardal yn y blynyddoedd ar ôl y rhyfel yn hysbys iawn hefyd. Mae cysylltiad agos rhwng



marchnad dai Pontarddulais a marchnad dai gyfagos Hendy (yn Sir Gaerfyrddin), ac mae'r ddwy yn elwa o agosrwydd at draffordd yr M4.

### **Wardiau Gwasanaethu**

Caiff tair ward yn Abertawe eu categorio'n 'Ganolfannau Gwasanaethu' oherwydd maent yn darparu gwasanaethau allweddol ar gyfer yr ardaloedd hollol wledig. ***Os lleolir Prosiect mewn Ward sy'n Ganolfan Gwasanaethu, gall y ward honno elwa o 30% o fuddion y prosiect, ond mae'n rhaid i'r Wardiau Gwledig cyfagos elwa o weddill y buddion.*** (o: *Canllawiau LEADER 2014-2020 Llywodraeth Cymru*)

Dyma'r dair ward sy'n Ganolfannau Gwasanaethu:-

- Clydach;
- Gorseinon;
- Tregŵyr.

Mae **Clydach** yn dref fach gerllaw ward hollol wledig Mawr, ac mae'n rhannu ffin â Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn nodi pwysigrwydd Clydach fel un o'r canolfannau siopa ardal traddodiadol. O'r herwydd, mae ganddi gysylltiadau naturiol â'r gefnwlod wledig, yn enwedig aneddiadau llai megis Craig Cefn Parc, sy'n cysylltu â Chlydach drwy wasanaeth bysus rheolaidd. Mae gan Glydach farchnadoedd lleol poblogaidd megis marchnad Clydach, yn ogystal â siopau lleol ar raddfa fach a gwasanaethau sylfaenol, gan gynnwys Llyfrgell Clydach a chyfleusterau eraill.

Yn ôl y Cynllun Datblygu Unedol, ardal siopa ranbarthol yw **Gorseinon**, rhwng ward Pontarddulais i'r gogledd a Thregŵyr i'r de. Mae'n hygyrch drwy'r A4240 yn uniongyrchol, ac o ran y rhwydwaith ffyrdd mae'n gyswllt mwy naturiol i'r cymunedau llai, megis Felindre, ar gyfer gwasanaethau y mae'n anos dod o hyd iddynt wrth deithio tuag at Glydach yn y dwyrain. Yn benodol, mae gwasanaeth bysys 'Lliw Link' yn gweithredu ym manau pellaf Abertawe wledig, o Garnswllt, drwy Gwmcerdinen a Felindre, gan fynd drwy Benllergaer a Gorseinon. Mae gwasanaeth Lliw Link yn arwyddocaol o ran dangos sut mae'r cymunedau'n cysylltu â'i gilydd drwy'r rhwydwaith ffyrdd.

Tregŵyr yw un o'r pyrth allweddol i ochr 'Gŵyr' ardal awdurdod lleol Abertawe. Mae'r ward yn cynnig cysylltiadau drwy gludiant cyhoeddus, gan gynnwys gorsaf reilffordd fach a chysylltiadau bysys megis gwasanaeth y Gower Explorer, yn ogystal â phwynt mynediad allweddol i dwristiaid sy'n cyrraedd yr ardal wledig i'r gorllewin ac yn ei gadael. Mae'r ward hefyd yn cynnwys parthau manwerthu masnachol bach y gall y boblogaeth leol yn ogystal â thwristiaid ymweld â hwy wrth iddynt gyrraedd yr ardaloedd gwledig, a'u gadael. Mae'r ward hefyd yn cynnwys tair ysgol y mae eu dalgyrch yn cwmpasu'r gefnwlod wledig.

### **Wardiau cynnal**

Ystyrir fod sawl ward yn 'wardiau cynnal'; ni all y rhain elwa'n uniongyrchol o arian y CDG, ond gellid cynnal gweithgareddau ynddynt a fyddai o fudd i'r ardaloedd

hollol wledig yn unig. **Os lleolir Prosiect mewn Ward Gynnal oherwydd rhesymau ymarferol neu weithredol (e.e. adeiladau, arbed costau ac ati), ni all y ward ei hun elwa o unrhyw fuddion sy'n deillio o'r prosiect.** (o: Canllawiau LEADER 2014-2020 Llywodraeth Cymru)

Dyma'r chwe Ward Gynnal:

- Dyfnant;
- Gogledd Cilâ;
- De Cilâ;
- Newton;
- Ystumllwynarth;
- Penllergaer.

Tyfodd Dyfnant fel pentref bach o gwmpas y cloddio am lo a ddigwyddodd yr ardal yn ystod y 1800au; mae'n ffinio ward wledig Fairwood. Mae lefel uchel o amddifadedd yn y ward, yn enwedig o ran mynediad i wasanaethau, tai a'r amgylchedd ffisegol. Mae dwysedd y boblogaeth, sef 1,773 o bobl fesul cilomedr sgwâr, yn gymharol uchel. Mae ysgolion ymysg y gwasanaethau a ddarperir a mae gwasanaethau ar raddfa fach yn cynnwys siopau a swyddfa bost leol.

Rhyngddynt, mae gan **Ogledd a De Cilâ** ddwysedd o 1,604 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Mae gan Gilâ ganolfan siopa ardal bwrpasol, gan gynnwys dwy archfarchnad ac amrywiaeth o siopau cyfleustra. Mae meddygfeydd a deintyddfeydd a llyfrgell leol gerllaw. Mae'r briffordd o'r dwyrain i'r gorllewin, sef yr A4118, yn cysylltu Cilâ â Gŵyr, ac mae'r rhan fwyaf o wasanaethau bysus Gŵyr hefyd yn mynd drwy Gilâ. Felly, mae'r ward yn cynnig nifer o wasanaethau defnyddiol i breswylwyr gogledd a gorllewin Gŵyr ac ymwelwyr fel un o brif byrth Penrhyn Gŵyr.


Er ei bod yn gymharol boblog â 1,413 o bobl fesul cilomedr sgwâr, ceir dau gyrchfan gwyliau poblogaidd yn **Newton**, sef Langland a Chas-wellt, sy'n arwain at dirweddau dramatig y Tri Chlogwyn a phenrhyn ehangach Gŵyr. Mae'r ardal yn fwy preswyl ei natur ac yn agos at y wardiau hollol wledig.

Mae **Ystumllwynarth** wedi datblygu fel anheddiad o amgylch Castell Ystumllwynarth dros y 200 mlynedd diwethaf. Mae'r pentref yn ganolfan siopa faestrefol i'r ardal gyfagos, ac yn gyrchfan gwyliau boblogaidd. 'Y Mwmbwls' yw enw cyffredin yr ardal, o ganlyniad i'r tair carreg frig yng ngorllewin y bae, ac mae'n un o'r prif fynedfeydd i'r ardaloedd gwledig i'r gorllewin o Abertawe. O'r herwydd, mae ardal y pentref yn cynnig cryn gyfleoedd o ran denu twristiaeth a chynnig gwasanaethau ar raddfa fach i'r gefnwlad wledig.

Mae ward **Penllergaer** yn ffinio ag ardaloedd gwledig gogleddol Abertawe, ac mae ganddi ddwysedd poblogaeth isel, sef 554 o bobl fesul cilomedr sgwâr, mewn dwy brif stad o dai yn bennaf. Mae llawer o diroedd comin yn ogystal â gerddi hanesyddol Coed Cwm ym Mhenllergaer, a lleolir rhan o'r gerddi hynny yn ward Llanyfelach hefyd.

Mae disgrifiadau manylach o'r holl wardiau ar gael ar wefan Cyngor Abertawe trwy droi at <https://www.abertawe.gov.uk/proffiliauwardiau>

### Amcangyfrifon poblogaeth



**Ffigur 3:** *Poblogaeth wardiau Abertawe Wledig*

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2018, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).*

Amcangyfrifir bod cyfanswm y boblogaeth yn y wardiau gwledig yn **29,496** sy'n cynrychioli 11.9% o gyfanswm poblogaeth Abertawe. Nodweddir y wardiau gwledig gan boblogaethau sy'n sylweddol llai a dwysedd poblogaeth is o lawer na'r wardiau trefol, yn amrywio o 31 o bobl fesul cilomedr sgwâr yn Gŵyr a Mawr i 534 fesul cilomedr sgwâr yn Llandeilo Ferwallt. Mewn cymhariaeth, mae dwysedd y boblogaeth yn y wardiau trefol yn 7,089 o bobl fesul cilomedr sgwâr yn ward Uplands a 5,562 fesul cilomedr sgwâr yn ward Castell.

O ran demograffeg y wardiau gwledig, mae maint y boblogaeth yn 3,669 o bobl fesul ward ar gyfartaledd. Mae'r boblogaeth leiaf, sef 1,873, yn ward Mawr, ac mae gan Bontarddulais y boblogaeth fwyaf, sef 6,628. Mae'r rhaniad rhyw ar draws yr holl wardiau yn 50% o fenywod a 50% o ddynion fwy neu lai. 2.3 yw maint cyfartalog aelwydydd. Mae'r ganran o bobl BME yn isel iawn. Mae 50% o'r boblogaeth yn 45 mlwydd oed neu'n hŷn.

**TABL 1:** *Ffigurau poblogaeth wardiau Gwledig, Canolfannau Gwasanaethu, a Wardiau Cynnal*

Wardiau Gwledig	Amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn, 2018
Llandeilo Ferwallt	3,148
Fairwood	2,803
Gŵyr	3,633
Llangyfelach	5,050
Mawr	1,873



Penclawdd	3,590
Pennard	2,771
Pontarddulais	6,628
<b>Wardiau Gwledig</b>	<b>Amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn, 2018</b>

<b>Wardiau sy'n Ganolfannau Gwasanaethu</b>	
Clydach	7,540
Gorseinon	4,569
Tre-gŵyr	5,114
<b>Cyfanswm y Canolfannau Gwasanaethu</b>	<b>17,223</b>

<b>Wardiau Cynnal</b>	
Dyfnant	4,262
Gogledd Cilâ	2,964
Gogledd Cilâ	2,204
Newton	3,328
Ysumllwynarth	4,086
Penllergaer	3,396
<b>Cyfanswm y Wardiau Cynnal</b>	<b>20,240</b>

<b>Cyfanswm Cyngor Abertawe</b>	<b>246,466</b>
---------------------------------	----------------

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2018, Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).*

### Cymwysterau

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn awgrymu, o ran y rhai 'heb unrhyw gymwysterau', bod y cyfanswm ym mhob un o'r wardiau gwledig yn is na ffigur Abertawe, sef 23.9%. Pennard (12.7%) sydd â'r cyfanswm isaf a Pontarddulais (23.3%) sydd â'r cyfanswm uchaf o blith y wardiau gwledig. Mae'r ganran uchaf o bobl sydd â chymhwyster Lefel 4 neu well (yn y wardiau gwledig) yn Llandeilo Ferwallt (46.3%), Pennard (45.5%) a Gŵyr (42.0%).

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, ONS. Tabl KS501EW – Cymwysterau a myfyrwyr*

### Sgiliau yn y Gymraeg

Mae lefelau sgiliau yn y Gymraeg yn amrywio'n fawr yn y wardiau gwledig. Mawr (29.3%) a Phontarddulais (22.5%) sydd â'r ganran uchaf o drigolion sy'n gallu 'siarad, darllen ac ysgrifennu' Cymraeg. Mewn cymhariaeth, dim ond 5.9% oedd yn gallu 'siarad, darllen ac ysgrifennu' Cymraeg yn Llandeilo Ferwallt ac mae'r

ffigur yn 6.7% yn Pennard. Yn ward Gŵyr, nid oes gan 82.4% unrhyw sgiliau yn y Gymraeg, o gymharu â 47.9% yn ward Mawr.

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, ONS. Tabl KS207WA – Sgiliau yn y Gymraeg*

### **Data cyflogaeth Abertawe Wledig**

#### **Dadansoddiad o alwedigaethau:**

Mae'r darlun eang a amlinellir isod yn adlewyrchu dadansoddiad o alwedigaethau'r bobl sy'n byw yn Abertawe wledig:


- Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion: uchaf yn ward Gŵyr (19.4%), isaf ym Mhontarddulais (7.9%);
- Galwedigaethau proffesiynol: uchaf yn Llandeilo Ferwallt (30.8%), isaf ym Mhontarddulais (16.5%);
- Gweithwyr proffesiynol a thechnegol cysylltiedig: uchaf yn Llangyfelach (14.9%), isaf ym Mhontarddulais (10.4%);
- Gweinyddol ac ysgrifenyddol: uchaf yn Llangyfelach (16.8%), isaf yn ward Gŵyr (9.7%);
- Crefftwyr: uchaf yn ward Mawr (18.5%), isaf yn Llangyfelach (9.2%);
- Gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill: uchaf ym Mhontarddulais (10.3%), isaf yn ward Pennard (6.2%);
- Gwerthu a gwasanaethu cwsmeriaid: uchaf ym Mhontarddulais (9.6%), isaf yn ward Gŵyr (3.4%);
- Gweithredwyr prosesau, cyfarpar a pheiriannau: uchaf yn ward Mawr (7.4%), isaf yn Llandeilo Ferwallt (1.9%);
- Swyddi sylfaenol: uchaf ym Mhontarddulais (11.8%), isaf yn Llandeilo Ferwallt (4.4%).

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, ONS. Tabl DC6604EW – Galwedigaeth yn ôl diwydiant*

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn amcangyfrif bod canrannau uchaf anweithgarwch economaidd y wardiau gwledig yn wardiau Pennard (38.3%), Llandeilo Ferwallt (35%) a Fairwood (34.4%) ac mae'r lefel isaf yn Abertawe (23.7%) yn Llangyfelach. O blith y boblogaeth sy'n anweithgar yn economaidd, mae cyfran uchel wedi ymddeol (61%), o gymharu â chyfartaledd Abertawe, sef 15.6%.

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, ONS. Tabl KS601UK – Gweithgarwch economaidd*

Mae'r siart isod yn darparu dadansoddiad o'r data cyflogaeth yn ôl sector diwydiannol ar gyfer pobl a gyflogir yn wardiau gwledig Abertawe. Gan ystyried cyflogaeth yn y diwydiant twristiaeth yn benodol, mae cyfran sylweddol (27%) o gyflogaeth (2100 o swyddi) yn Abertawe wledig wedi'u lleoli ym maes Twristiaeth. Daliwch sylw, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys gwaith ar ffermydd.



**FFIGUR 4: CYFLOGAETH 2016 YN ABERTAWE WLEDIG YN ÔL Y SECTOR**  
**DIWYDIANNOL EANG (%)**

*Ffynhonnell: Cofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth ONS, 2016. Mae'r ffigyrau wedi'u talgrynnu i 100. \* nid yw'r arolwg yn cynnwys data ynghylch cyflogaeth lleol ym maes amaethyddiaeth ar ffermydd. Nid yw'r data yn cynnwys pobl hunan-gyflogedig, hyfforddeion sy'n cael cymorth gan y Llywodraeth na lluoedd EM ychwaith.*

### **Teithio i'r Gwaith**

**TABL 2: Dulliau Teithio i'r Gwaith**

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn amcangyfrif mai'r canlynol yw'r dulliau teithio mynychaf i'r gwaith yn achos y wardiau gwledig:

Ward	Gweithio gartref neu o gartref yn bennaf (%)	Gyrru car neu fan (%)	Teithiwr mewn car neu fan (%)	Cerdded (%)
Llandeilo Ferwallt	4.9	48.3	2.6	3.5
Fairwood	4.0	47.5	3.6	2.1
Gŵyr	9.6	42.8	2.3	6.6
Llangyfelach	2.9	60.3	3.1	3.4
Mawr	7.5	48.1	4.1	1.7

Penclawdd	3.3	50.8	3.0	3.1
Pennard	5.7	45.0	3.0	2.8
Pontarddulais	1.9	49.4	4.4	4.8
<b>Abertawe Wledig</b>	<b>4.4</b>	<b>49.9</b>	<b>3.3</b>	<b>3.8</b>
<b>Abertawe (Pob Ward)</b>	<b>2.2</b>	<b>39.6</b>	<b>4.4</b>	<b>6.1</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 (ONS), Tabl: QS701EW – Dulliau o deithio i'r gwaith. Daliwch sylw: % o breswylwyr arferol 16 – 74 mlwydd oe:

### **Iechyd**

Yng Nghyfrifiad 2011, gofynnwyd i bobl asesu a oedd eu gweithgareddau beunyddiol wedi'u cyfyngu'n helaeth neu ychydig gan broblem iechyd (gan gynnwys problemau'n ymwneud â henaint), neu a oedd eu gweithgareddau beunyddiol yn gyfyngedig o gwbl. Dyma oedd y canlyniadau ar gyfer y wardiau gwledig:

**TABL 3: Iechyd yn y Wardiau Gwledig**

Ward	Gweithgareddau dyddiol wedi'u cyfyngu'n sylweddol (%)	Gweithgareddau dyddiol wedi'u cyfyngu ychydig (%)	Gweithgareddau dyddiol heb eu cyfyngu (%)
Llandeilo Ferwallt	10.2	12.5	77.2
Fairwood	10.4	10.9	78.7
Gŵyr	10.3	10.2	79.5
Llangyfelach	7.3	7.9	84.8
Mawr	11.8	11.5	76.6
Penclawdd	13.5	10.8	75.7
Pennard	8.6	13.8	77.6
Pontarddulais	13.1	11.3	75.6
<b>Abertawe Wledig</b>	<b>10.7</b>	<b>10.9</b>	<b>78.4</b>
<b>Abertawe (Pob Ward)</b>	<b>12.6</b>	<b>10.8</b>	<b>76.7</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 (ONS) Tabl KS301EW – Iechyd a darpariaeth gofal di-dâl

### **Y potensial ar gyfer gwaith trawsffiniol**

I'r gogledd-orllewin, mae Abertawe'n rhannu ffin â Sir Gaerfyrddin, ac â Chastell-nedd Port Talbot i'r dwyrain. Mae agosrwydd trefi a phentrefi llai yn ardaloedd y ffin yn golygu bod cryn dipyn o gyfle i gydweithio â GGLI cyfagos ar themâu sydd o ddiddordeb cyffredin i'n cymunedau

Ynghyd â Sir Benfro, mae'r pedair ardal awdurdod leol hyn yn ffurfio Dinas-ranbarth Bae Abertawe, â dinas Abertawe yn ganolbwynt rhanbarthol. Mae [Strategaeth Dinas-ranbarth Bae Abertawe](#) yn fframwaith strategol uchelgeisiol i gynorthwyo De Orllewin Cymru a'i ddatblygiad economaidd yn y dyfodol. Pan ddaw cyfle i gyfrannu at y strategaeth ranbarthol hon trwy'r rhaglen LEADER, dylid ystyried hynny, yn enwedig byrhau cadwyni cyflenwi, datblygu busnes gwledig

(cyn-fasnachol) ac ychwanegu gwerth at weithgarwch economaidd presennol yn y rhanbarth.

Er mwyn cyflawni rhaglen lwyddiannus, mae'n rhaid i'r GGLI fod ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithgareddau a phrofiadau dysgu GGLI eraill. Yn unol â hyn, bydd swyddogion y GGLI yn Ne Orllewin a Chanolbarth Cymru yn cyfarfod yn chwarterol i drafod cynnydd a gwaith posibl ar y cyd, ac i rannu profiadau dysgu. Bydd swyddogion yn rhannu eu strategaethau penodol, ac ystyrir themâu cyffredin lle gellid datblygu gweithgarwch cydweithredol (gweler adran 3.2). PDG Abertawe ar hyn o bryd yw'r PDG arweiniol ar brosiect Cydweithredol o'r enw 'Datblygu Gweledigaethau a Rennir ar gyfer Tir Comin', sy'n cynnwys 5 GGLI arall ledled Cymru.

Gall ysgogwyr polisi/strategol eraill hefyd ddarparu cyfleoedd ychwanegol ac annog gwith trawsffiniol yn unol â nodau ac amcanion y strategaeth hon. Yn benodol, mae Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru' ar gyfer rhanbarth y de-orllewin, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn cyd-fynd yn dda â'r ymagwedd Un Blaned sy'n cael ei gweithredu gan PDG Abertawe. Mae rhanbarth de orllewin Cymru CNC yn cwmpasu Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

## 1.2 Disgrifiad o'r Integreiddio

Mae'r strategaeth yn rhan o fframwaith polisi a strategaeth ehangach yn Ne-orllewin Cymru. Cyfeirir at y strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol mwyaf perthnasol y gallai'r Strategaeth Datblygu Lleol effeithio arnynt yn y tabl isod, sydd hefyd yn dynodi'r berthynas rhwng pob un o wyth amcan y SDLI a diben y strategaeth. Yn dilyn hyn, ceir crynodeb byr o gwmpas y strategaeth neu'r polisi sy'n ysgogi a'r cysylltiadau posibl â'r fersiwn hwn o'r SDLI.

**TABL 4:** Perthynas rhwng amcanion y SDLI a strategaethau/ysgogwyr polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol eraill.

Perthynas rhwng amcan yn y SDLI a diben y strategaeth:								
✓ = cyflenwol ✓✓ = arwyddocaol ✓✓✓ = cryf iawn								
LLEOL								
Strategaeth / Polisi sy'n Ysgogi	RhDG Abertawe – Amcanion y SDLI							
	1	2	3	4	5	6	7	8
Cynllun Lles Lleol Abertawe (2018) – yn enwedig 'Gweithio gyda Natur'	✓✓✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓	✓✓	✓✓✓

Cynllun Corfforaethol Cyngor Abertawe	✓✓✓	✓✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓
Cynllun Rheoli Cyrchfan Bae Abertawe 2017 - 2020	✓	✓	✓✓	✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓
Gweithio tuag at ffyniant i bawb yn Abertawe: Strategaeth trechu tloedi ar gyfer Abertawe 2017-2020	✓✓	✓	✓	✓✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Gŵyr - 2017	✓✓	✓✓✓	✓✓	✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓
Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd Abertawe (ar y gweill)	✓✓✓	✓✓✓	✓	✓	✓✓	✓	✓	✓
Hybu Amgylchedd Naturiol Abertawe: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol	✓	✓✓✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
<b>RHANBARTHOL</b>								
<b>Strategaeth / Polisi sy'n Dylanwadu</b>	<b>RhDG Abertawe – Amcanion y SDLI</b>							
	<b>1</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>4</b>	<b>5</b>	<b>6</b>	<b>7</b>	<b>8</b>
Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) – Rhanbarth y De Ddwyrain	✓✓✓	✓✓✓	✓✓	✓✓	✓✓✓	✓✓	✓✓	✓✓
Strategaeth Adfywio Economaid Dinas- Ranbarth Bae Abertawe	✓	✓	✓	✓	✓	✓✓	✓	✓✓
Ein Cymoedd, Ein Dyfodol	✓✓	✓✓	✓	✓	✓	✓✓	✓✓	✓
Cynllun Rheoli Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin	✓	✓✓✓	✓	✓	✓	✓✓	✓✓	✓
<b>CENEDLAETHOL</b>								

Strategaeth / Polisi sy'n Dylanwadu	RhDG Abertawe – Amcanion y SDLI							
	1	2	3	4	5	6	7	8
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	✓✓✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓✓
Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol	✓✓✓	✓✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	✓✓	✓✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓	✓✓
Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel	✓✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓	✓✓	✓	✓✓
Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010:2020	✓	✓✓	✓	✓	✓✓✓	✓✓	✓✓	✓

## STRATEGAETHAU LLEOL

### Cynllun Lles Lleol Abertawe (2018)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru i sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), y mae'n rhaid iddo gynnwys:

- Yr Awdurdod Lleol
- Y Bwrdd Iechyd Lleol
- Un o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Pwrpas y BGC yw cydweithio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol lleol. Mae pob BGC, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, wedi asesu llesiant yn ei ardal ac wedi llunio Cynllun Llesiant Lleol. Gan ddefnyddio gwybodaeth o'i asesiad o lesiant a thrwy wrando ar bobl, mae BGC Abertawe wedi llunio ei [Gynllun Llesiant Lleol](#), a gyhoeddwyd yn 2018.



Ei weledigaeth yw: sicrhau bod Abertawe yn lle llewyrchus, lle mae ein hamgylchedd naturiol yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal a lle gall pawb fwynhau'r

dechrau gorau mewn bywyd, cael swydd dda, byw'n dda, heneiddio'n dda a chael pob cyfle i fod yn iach, yn hapus, yn ddiogel a'r gorau y gallant fod.

Mae ffocws Un Blaned y SDLI hon yn cyd-fynd yn dda â gweledigaeth, nodau ac amcanion y Cynllun Llesiant Lleol, yn enwedig thema 'Gweithio gyda Natur'. O dan y thema hon, y nod yw gweithio gyda natur i: wella iechyd, cynnal a gwella bioamrywiaeth; lleihau ein hól troed carbon; a gwella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'n hamgylchedd naturiol. Mae hyn yn golygu canfod atebion sy'n seiliedig ar natur ac sy'n cael effaith ystyrlon ar lesiant, a rhoi'r atebion hynny ar waith. Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd yn union â nodau strategol PDG Abertawe. Fel y cyfryw, yn achos y wardiau gwledig, gallai LEADER helpu i ddarparu gallu i gyd-fynd â'r dyheadau hyn. Mae aelodau PDG Abertawe, a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli, yn ymwneud â chyflawni agweddau ar y cynllun llesiant neu maent yn gyfrifol amdanynt, sy'n golygu bod cysylltiadau da eisoes rhwng y ddwy strategaeth a'r bartneriaethau hyn i gydweithio arnynt.

### **Cynllun Corfforaethol Cyngor Abertawe**

'[Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy](#)' yw Cynllun Corfforaethol Cyngor Abertawe ar gyfer 2018-22. Mae'n nodi y bydd Abertawe'n wynebu sawl her yn y blynyddoedd sydd i ddod, sy'n cynnwys:

- Newidiadau poblogaeth - Abertawe sy'n tyfu, sy'n heneiddio ac sy'n fwy amrywiol.
- Newidiadau economaidd - denu buddsoddiad, swyddi o safon a thechnoleg newydd i Abertawe wrth fynd i'r afael â'r bwch sgiliau.
- Newid yn yr hinsawdd - peryglon llifogydd, ansawdd aer a dŵr, peryglon i ecosystemau a bioamrywiaeth a diogelu cyflenwadau ynni.
- Newidiadau cymdeithasol a diwylliannol - mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, addysg, cyflogaeth a chyfleoedd bywyd.

Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu chwe amcan llesiant:

- Diogelu
- Addysg a Sgiliau
- Economi a Seilwaith
- Trechu Tlodi
- Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth Abertawe
- Trawsnewid a Dyfodol y Cyngor

Er bod y Cynllun Corfforaethol yn berthnasol i ardal gyfan yr awdurdod lleol, mae rhai themâu a chanfyddiadau'n ymwneud yn benodol ag anghenion ardaloedd gwledig, sef:

- Yr angen am economi wledig gynaliadwy
- Mae cludiant cynaliadwy a fforddiadwy, a strategaeth ar gyfer system gludiant integredig i wasanaethu'n hardaloedd gwledig a threfol, yn hanfodol er mwyn cael mynediad at gyflogaeth a hyfforddiant ac amddiffyn yr amgylchedd.



- Creu swyddi gwyrdd o safon sy'n gynaliadwy ac yn amgylcheddol gyfrifol sy'n elwa'n llawn o'n hadnoddau naturiol unigryw e.e. drwy gyfrwng twristiaeth amgylcheddol, rheoli tir gwledig yn gynaliadwy, diwydiannau a chrefftau morol.

Adlewyrchir y themâu hyn yn nodau strategol y SDLI hon ac, felly, maent yn darparu cyfle go iawn ac adnoddau posibl i weithio tuag at eu cyflawni. Mae trechu flodi yn un o themâu trawsbynciol y SDLI.

### **Cynllun Rheoli Cyrchfan Bae Abertawe, 2017 - 2020**

Mae twristiaeth wedi cael ei chydabod ers amser maith am ei chyfraniad hanfodol at economi Cymru ac mae wedi cael ei amlygu fel un o ysgogwyr allweddol statws Rhanbarth Dinas Bae Abertawe. Yn amlwg, mae gan ei phwysigrwydd werth sylweddol mewn cyd-destun lleol yn ogystal â chyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol, ac yn Abertawe wledig, mae tua 27% o gyflogaeth uniongyrchol yn y sector twristiaeth ym meysydd gwasanaethau llety a bwyd, ac mae hynny'n cyfrif am dros 2000 o swyddi.

Yn ychwanegol, pan ofynnwyd i bobl nodi beth a ddylanwadodd ar eu penderfyniad i ymweld â'r ardal fel rhan o [Arolwg Ymwelwyr Bae Abertawe](#) yn 2019, dyma sut wnaethant ymateb:



**Figur 5:** Detholiad o Arolwg Ymwelwyr Bae Abertawe 2019

Mae hyn yn tystio i bwysigrwydd yr asedau naturiol y mae Abertawe yn eu cynnig trwy ei thraethau godidog, ei harfordir amrywiol, ei golygfeydd a'i thirwedd hardd - mae gan lawer ohonynt ddynodiadau cadwraeth natur lleol, cenedlaethol a rhyngwladol hefyd. Yr asedau hyn ynghyd â gwasanaethau twristiaeth amrywiol sy'n sail i economi wledig Abertawe, ac felly, mae'n hanfodol bod dull cynaliadwy yn cael ei weithredu i'w diogelu yn ogystal â'u hyrwyddo.

Mae 'Sicrhau Cynaliadwyedd' yn un o bedair blaenoriaeth ['Cynllun Rheoli Cyrchfan Bae Abertawe 2017-2020'](#) ar gyfer Bae Abertawe, ac mae'n cysylltu'n dda â nifer o nodau ac amcanion strategol RhDG Abertawe. Fel y cyfryw, gallai'r SDLI hon gynorthwyo prosiectau i leihau rhai o'r effeithiau amgylcheddol negyddol posibl, megis twristiaeth ormodol yn y mannau poblogaidd ac allyriadau carbon yn deillio o deithio, a cheisio datblygu'r arlwy 'twristiaeth werdd' yn lleol trwy gydweithio â chymunedau a busnesau lleol.

Mae'r CRhC hefyd wedi ystyried ac yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd yng Nghynllun Twristiaeth Gynaliadwy a ariannwyd gan RhDG 2007-13 a bydd yr adolygiad o'r CRhC, a fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn sy'n dod, yn gyfle pwysig i PDG Abertawe gynnig sylwadau ynghylch cyfleoedd ac anghenion y sector twristiaeth wledig gan ystyried gweledigaeth RhDG Abertawe.

### **Gweithio tuag at ffyniant i bawb yn Abertawe: Strategaeth trechu tlodi ar gyfer Abertawe 2017-2020**

Mae Cyngor Abertawe wedi ymrwymo i leihau tlodi a'i effeithiau ar drigolion, a adlewyrchir hynny yn y ffaith bod Tlodi yn un o chwe blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol Cyngor Abertawe. Ysgrifennwyd y strategaeth gyntaf i fynd i'r afael â hyn yn 2014. Mae'r Strategaeth ddiwygiedig, 'Gweithio tuag at ffyniant i bawb yn Abertawe: Strategaeth trechu tlodi ar gyfer Abertawe 2017-2020' yn seiliedig ar themâu Strategaeth Trechu Tlodi 2014:

- Grymuso pobl leol trwy gynnwys a chyfranogi;
- Newid diwylliannau i adlewyrchu'r ffaith fod trechu tlodi yn fusnes i bawb;
- Targedu adnoddau i uchafu mynediad at gyfleoedd a ffyniant.

Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni diwygiedig yn cydnabod bod mynd i'r afael â thlodi yn 'fusnes i bawb', ac fel y cyfryw, mae cyflawni gweithredoedd yn y strategaeth yn waith trawsadrannol. Mae trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol yn thema trawsbynciol yn SDLI (gweler Adran 8).

### **Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Gŵyr - 2017**

Mae AHNE Gŵyr yn cael ei chydabod gan drigolion ac ymwelwyr yn dirwedd warchoddedig o bwys rhyngwladol lle mae rhyngweithio pobl a natur dros amser wedi cynhyrchu ardal o gymeriad gwahanol sydd â gwerth esthetig, ecolegol a diwylliannol sylweddol, ac amrywiaeth fiolegol sylweddol. Bydd ei harddwch naturiol yn cael ei gynnal trwy gyfrwng cadwraeth a gwella ei rinweddau arbennig naturiol, ac ar yr un pryd, yn cynorthwyo economi leol gynaliadwy a chynnal cymunedau diwylliannol gyfoethog ac yn cael ei adlewyrchu yn ansawdd a graddfa'r amgylchedd adeiledig. Mae'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cwmpasu pump o wardiau gwledig Abertawe (yn rhannol neu'n llawn).

Mae'r fersiwn ddiweddaraf (2017) o [Gynllun Rheoli AHNE Gŵyr](#) yn blaenoriaethu polisiâu a champau gweithredu i annog cadwraeth a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE y cafodd ei dynodi o'u herwydd. Mae'n ymdrin ag ystod eang o faterion gan gynnwys gweithgareddau economaidd, seilwaith, tai a chyfleusterau cymunedol, y

newid yn yr hinsawdd a datblygu, a'r effaith y maent yn ei chael ar rinweddau arbennig yr AHNE.

Mae'r SDLI hon yn integreiddio'n dda â llawer o themâu Datganiad Gweledigaeth AHNE Gŵyr ac mae ganddi gysylltiadau cryf a'r potensial i gyfrannu at y canlynol, yn benodol:

***TABL 5: Datganiad Gweledigaeth AHNE Gŵyr***

Thema AHNE Gŵyr	Gweledigaeth 20 Mlynedd
Bioamrywiaeth	Tirwedd â bywyd gwyllt cyfoethog sydd o bwys rhyngwladol, â'i chynefinoedd allweddol o laswelltir, calchfaen, rhostir iseldir, morfeydd heli, twyni tywod, corsydd dŵr croyw a choetiroedd gwern ac ynn mewn cyflwr da a sefydlog.
Tirwedd a Morwedd	Tirwedd o fri rhyngwladol am ei graddfa fach a'i hamrywiaeth o gymeriad sydd â chysylltiad agos â'r môr amgylchynol ac sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy. Tirwedd lle mae'r amgylchedd adeiledig yn cydweddu â'r cymeriad hwn a lle mae'r patrymau caeau bach, ardaloedd o dir comin a cheuffyrdd yn parhau fel enghreifftiau o effaith dyn wrth ddatblygu cymeriad y dirwedd.
Adnoddau Naturiol	Amgylchedd lle mae ansawdd yr aer a'r dŵr yn dda, ac yn cynnal gweithgareddau hamdden ac amrywiaeth o fywyd gwyllt tir a môr. Cynhelir ansawdd y pridd i gefnogi arferion amaethyddol sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd.
Diwydiannau Cynradd	Sector economaidd ffyniannus lle mae amaethyddiaeth yn fwy amrywiol, yn bodloni gofynion cyfoes a'r rhai a ragfynegir yn y dyfodol ac sy'n cael ei gefnogi gan gynlluniau amaethyddiaeth-amgylcheddol sy'n cyd-fynd â'r amcanion cadwraeth a gwella ar gyfer rhinweddau arbennig yr AHNE.
Twristiaeth	Economi dwristiaeth fywiog sy'n seiliedig ar egwyddorion twristiaeth gynaliadwy sy'n cynnig profiad o safon lle blaenoraethir cadwraeth a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE a'r gallu i'w mwynhau yn dawel. Diwydiant twristiaeth deinamig sy'n creu buddion economaidd ac yn helpu i gefnogi cyfleusterau ac isadeiledd cymunedol.
Cludiant	Rhwydwaith a system rheoli sy'n cefnogi amrywiaeth o ddulliau cludiant i ddiwallu anghenion cymunedol ac ymwelwyr mewn modd cynaliadwy, â'r effaith leiaf bosib ar rinweddau arbennig yr AHNE.
Gweithgareddau Datblygu ac Alltraeth	Tirwedd lle gellir diwallu anghenion datblygiadau newydd, gan gynnwys yr isadeiledd ategol, heb effeithio'n andwyol ar y dirwedd a'r forwedd, lle caiff egwyddorion datblygu cynaliadwy eu mabwysiadu.

### **Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd Abertawe (ar y gweill)**

Mae Isadeiledd Gwyrdd (IG) yn ffurfio rhwydweithiau o ardaloedd naturiol a lled-naturiol sydd wedi'u cynllunio ac yn cael eu rheoli i ddarparu ystod eang o

wasanaethau buddiol o fewn, ar draws, a rhwng lleoliadau gwledig a threfol. Cynllunnir IG i ddarparu buddion niferus - megis atal llifogydd, darparu cynefin bywyd gwyllt, a mynediad i fannau gwyrdd i wella iechyd meddwl a chorfforol - ac mae'n amrywio o ran graddfa, o goed stryd, toeau gwyrdd a gerddi preifat hyd at barciau, afonydd, gwrychoedd a choetiroedd.

Fel y cydnabyddir gan y SDLI hon, mae strategaeth IG Abertawe hefyd yn cydnabod nad yw methu ag addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru yn opsiwn mwyach os ydym am barhau i ddarparu canolbwynt sy'n llewyrchus yn economaidd ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae'n hysbys iawn fod IG yn ddull cost effeithiol o fynd i'r afael â heriau'r newid yn yr hinsawdd sydd hefyd yn cynnig nifer o fuddion i bobl a natur.

Yn 2020, fe wnaeth Cyngor Abertawe gyhoeddi fersiwn drafft o '[Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd ddrafft ar gyfer Ardal Abertawe Ganolog - Adfywio'n Dinas er Lles a Bywyd Gwyllt](#)' – ar gyfer ardal ganolog y ddinas, ac mae bellach yn datblygu strategaeth sy'n cwmpasu'r sir gyfan a fydd yn ceisio ennyn diddordeb rhanddeiliaid yng nghefn gwlad ac ymgynghori â hwy. Mae hyn yn darparu cyfleoedd da ar yr adeg briodol i PDG Abertawe gyfranogi ynddynt, helpu i hwyluso'r broses hon, a llunio'r strategaeth sy'n cael ei datblygu. Mae'n gwneud synnwyr hefyd bod y strategaeth hon a'r gwaith o'i chyflawni yn ceisio cyfrannu at yr agenda IG oherwydd mae'n ategu nifer o amcanion strategol yn dda.

### **Hybu Amgylchedd Naturiol Abertawe: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol**

[Mae bioamrywiaeth yn dirywio yn lleol ac yn fyd-eang](#) ac yn wynebu ystod eang o fygythiadau, sy'n effeithio ar iechyd a chydnerthedd ecosystemau ac adnoddau naturiol y mae ein lles a'n ffyniant yn dibynnu arnynt. Gan gydnabod bod yn rhaid inni wydroi'r duedd hon, mae gweledigaeth PDG Abertawe ar gyfer y dyfodol yn un sy'n cynnal bioamrywiaeth ac yn mynd i'r afael â'r argyfwng natur sydd wedi'i ddatgan. Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer amddiffyn, rheoli, adfer, gwella a hyrwyddo amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth rhagorol Abertawe. Mae'n amlinellu nifer o gamau strategol sy'n ofynnol er mwyn gwarchod yr adnodd bioamrywiaeth ehangach ynghyd â set o gamau manwl ar gyfer amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaethol. Mae'r cynllun yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd yn sail i'r [Cynllun Adfer Natur Lleol](#) sy'n cysylltu â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn eu hategu.

Dwy strategaeth bwysig arall sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ond sy'n werth eu crybwyll yma oherwydd bydd y SDLI hon yn debygol o integreiddio'n agos â hwy, yw'r **Strategaeth Carbon** a **Chynllun Ynni Dinas-Ranbarth Bae Abertawe**.

### **STRATEGAETHAU RHANBARTHOL**

#### **Datganiad Ardal Adnoddau Naturiol Cymru (ANC) - Rhanbarth y De-orllewin**

*“Mae amgylchedd sy’n cael ei reoli’n wael yn cynyddu’r risgiau tymor hir i’n lles .... Mae amgylchedd iach a gwydn yn helpu i gynnal pobl a’n heconomi. Rhaid i ni chwilio am ffyrdd y gall ein hadnoddau naturiol ddarparu buddion lluosog ar gyfer pobl a natur, nawr ac yn y dyfodol wrth sicrhau ein bod yn parhau i’w gwneud yn fwy gwydn. Pan fydd ein hamgylchedd yn gweithio ar ei orau, bydd cymdeithas gyfan yn ffynnu.” (o: **taflen Cyflwyno Rheolaeth Naturiol ar Amgylchedd Naturiol, CNC, 2018**)*

Fe wnaeth [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) bennu dyletswydd i CNC lunio ‘Datganiadau Ardal’, fframwaith newydd sy’n cynnig cyfle i ailfeddwl am y ffordd y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli a’u defnyddio ar sail ranbarthol ledled Cymru. Bydd Datganiadau Ardal yn helpu i gydlynu gwaith CNC a gwaith eraill, a bydd yn dibynnu ar gydweithrediad llwyddiannus i ddatblygu cydnerthedd ein hecosystemau a gwella'r buddion y maent yn eu darparu inni.

Ar 1 Ebrill 2020, cyhoeddwyd y [datganiad ardal y de-orllewin](#), sy'n cwmpasu Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, a Sir Benfro. Mae pedair thema'r datganiad yn gyson â nodau ac amcanion y SDLI hon, sef:

- Anghyfartaleddau iechyd
- Rheoli tir gwledig
- Bioamrywiaeth yn dirywio
- Hinsawdd sy’n newid

Mae CNC yn aelod o PDG Abertawe ac mae cyfleoedd da yn bodoli ar gyfer cydweithredu ac integreiddio'r LDS a'r datganiad ardal trwy weithgareddau ar y cyd a phrosiectau a ariennir gan grant. Ceir potensial hefyd am weithgarwch cydweithredol trawsffiniol / LEADER ar y cyd â Grwpiau Gweithredu Lleol eraill y de-orllewin gyflawni datganiadau ardal cydfuddiannol a niferus ac amcanion y SDLI.

### **Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe 2013-2020**

Ar lefel ranbarthol, [mae Dinas-Ranbarth Bae Abertawe wedi'i danategu gan strategaeth adfywio economaidd](#) a luniwyd yn ddiweddar sy'n cwmpasu pum nod strategol â phwyslais ar y rheidrwydd i gau'r bwlch cynhyrchiant â gweddill Cymru a'r DU. Dyma'r pum nod strategol:

- Twf Busnes, Cadw ac Arbenigo;
- Yn fedrus ac yn uchelgeisiol ar gyfer llwyddiant tymor hir;
- Gwneud y mwyaf o greu swyddi i bawb;
- Economi wybodaeth ac arloesedd;
- Lleuedd nodedig ac isadeileddau cystadleuol.


Defnyddir dull partneriaeth i weithredu'r strategaeth, â ffocws ar ddetholiad o brosiectau trawsnewidiol mawr, a ariennir trwy Fargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, i sicrhau newid sylweddol ym mherfformiad economi De Orllewin Cymru. Mae rhaglen Bargaen y Ddinas-Ranbarth yn cynnwys 11 prosiect sy'n cwmpasu'r 4 thema allweddol, sef:

- Cyflymu Economaidd;
- Gwyddor Bywyd a Llesiant;
- Ynni; a
- Gweithgynhyrchu Clyfar
- Bydd isadeiledd digidol gwell a datblygu sgiliau a doniau'r gweithlu yn sail i bob un.

Mae'r strategaeth ranbarthol ar lefel uchel o reidrwydd, ac cheir angen cyson am allu i ymgymryd â gweithgarwch a rhwydweithio arloesol ar draws yr ardaloedd gwledig dynodedig. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r gofynion lefel uchel i gynyddu nifer y swyddi â gwerth ychwanegol uwch a busnesau ar bob lefel, gan gynnwys rhai lleol. Mae rhaglen LEADER yn annog ac yn cynnal arloesedd i ganfod ffordd newydd o weithio a datblygu'r economi wledig. Yn benodol, ac yn unol ag amcanion y SDLI hon, gallai RhDG Abertawe gynorthwyo gweithgareddau megis canfod marchnadoedd newydd ar gyfer cynhyrchion lleol a byrhau cadwyni cyflenwi. Yn wir, mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu harchwilio gan Bartneriaeth Bwyd Abertawe o dan RhDG Abertawe.

### **Ein Cymoedd, Ein Dyfodol**

Mae cymunedau gwledig Craig Cefn Parc, Felindre, Pontarddulais a Chlydach yn Abertawe yn rhan o ardal Cymoedd De Cymru (gweler y ffigur ar y dde), un o ardaloedd mwyaf nodedig Cymru. Mae'r 'Cymoedd' yn adnabyddus am eu hanes, eu tirweddau syfrdanol, eu diwylliant, a'u cymunedau clos a chyfeillgar.



***Figur 7: Ardal Tasglu Cymoedd Abertawe wledig (coch), a ffin awdurdod lleol Abertawe (llinell werdd)***

Fodd bynnag, mae'r Cymoedd hefyd yn wynebu heriau unigryw sydd wedi'u hymwreiddio'n ddwfn, a achoswyd yn bennaf gan ddirywiad diwydiant trwm a diwedd cloddio am lo. Mae'r ardal ar ei hôl hi o'i chymharu â gweddill Cymru o ran yr economi, ansawdd a hyd bywyd, ac o ran cyrhaeddiad a sgiliau addysgol.

Sefydlwyd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru (sef Tasglu'r Cymoedd) yn 2016 fel catalydd i sicrhau adfywiad a thwf cynaliadwy yn yr ardal. Fe wnaeth gyhoeddi cynllun ar lefel uchel o'r enw '[Ein Cymoedd, Ein Dyfodol](#)' yn 2017, a chyhoeddwyd [cynllun cyflawni manwl](#) yn ddiweddarach. Dyma flaenoriaethau'r Tasglu: entrepreneuriaeth a chynorthwyo busnesau; yr economi sylfaenol; tai; hybiau strategol; cludiant; Parc Rhanbarthol y Cymoedd; a chronfa arloesi Tasglu'r Cymoedd.

Bydd Swyddogion PDG Abertawe yn mynychu cyfarfodydd Tasglu'r Cymoedd a bydd y GGLI yn sicrhau bod y sawl sy'n cyflwyno ceisiadau i brosiect LEADER yn wardiau gwledig gogledd y sir yn ymwybodol o'r strategaeth a sut y gallai effeithio ar brosiectau arfaethedig a sut gallant gael eu cynorthwyo ganddi. Bydd PDG Abertawe yn mynd ati i chwilio am ddulliau o weithio ar y cyd a chydweithredu i sicrhau buddion i gymunedau'r cymoedd yn Abertawe wledig, yn enwedig trwy ffrydiau cyllido rhaglen Tasglu'r Cymoedd wrth iddynt gael eu cyhoeddi. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae Grant Eiddo Gwag wedi cael ei lansio i gynorthwyo perchnogion i ailgychwyn defnyddio eiddo preswyl, a deallir bod cymorth yn ymwneud ag eiddo masnachol gwag yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

### **Cynllun Rheoli Safleoedd Morol Bae ac Aberoedd Caerfyrddin**

Mae [Safle Morol Ewropeaidd \(EMS\) Bae ac Aberoedd Caerfyrddin](#) yn rhan o rwydwaith o ardaloedd ledled Ewrop - cyfres Natura 2000 - a ddynodwyd o dan Gyfarwyddbau Cynefinoedd ac Adar yr Undeb Ewropeaidd i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig ac o dan fgythiad ar raddfa Ewropeaidd

Mae'r weledigaeth ar gyfer Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin (CBEEMS) yn un o amgylchedd morol o ansawdd, lle mae cynefinoedd a rhywogaethau'r safle mewn cyflwr cystal â phan ddewiswyd y safle neu'n well na hynny; lle mae gweithgareddau dynol yn cyd-fodoli mewn cytgordd â chynefinoedd a rhywogaethau'r safle a lle mae'r defnydd o amgylchedd morol yr EMS yn gynaliadwy. Diben y cynllun rheoli yw pennu'r fframwaith ar gyfer rheoli gweithgareddau yn EMS Bae ac Aberoedd Caerfyrddin mewn ffyrdd sy'n gydnaws â chyflawni'r amcanion cadwraeth.

Trwy gyfrwng y SDLI hon, ceir cyfle i gynorthwyo a gweithredu agweddau ar y cynllun rheoli hwn i gysoni rhyngweithiadau rhwng pobl a natur mewn wardiau gwledig cymwys yn Abertawe sy'n cael eu cwmpasu gan Gynllun Rheoli Safleoedd Morol Bae ac Aberoedd Caerfyrddin (gogledd Gŵyr yn bennaf), sydd hefyd yn cyflawni yn erbyn amcanion y SDLI.

### **POLISIŌU A STRATEGAETHAU LLYWODRAETH CYMRU**

#### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Diben [y Ddeddf hon](#) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y Ddeddf yn gwneud i'r gyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru ynddi feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a gweithredu ymagwedd fwy cydlynol. Mae'r gyfraith hon yn golygu, am y tro cyntaf, bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf wneud eu gwaith mewn ffordd gynaliadwy. Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau y byddant yn ystyried yr effaith y gallant ei gael ar bobl fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol wrth wneud eu penderfyniadau.

Trwy'r '5 Dull o Weithio', bydd yn disgwyl iddynt:

- Gydweithio'n well;

- Cynnwys pobl, gan adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau;
- Ystyried y tymor hir yn ogystal â chanolbwyntio ar y presennol;
- Gweithredu i geisio atal problemau rhag gwaethygu – neu hyd yn oed eu hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae'r saith nod llesiant ('y nodau') yn dangos y math o Gymru yr hoffem ei weld. Gyda'i gilydd, maent yn darparu gweledigaeth gyffredin i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio i'w chyflawni. Maent yn set o nodau; mae'r Ddeddf yn datgan yn glir fod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i gyflawni pob un o'r nodau, nid un neu ddau yn unig. Dyma'r nodau:-

- Cymru ffyniannus
- Cymru wydn;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru â chymunedau cydlynol;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Trwy gyfwrng dull [Datblygu Lleol Dan Arweiniad Cymunedau LEADER](#), mae PDG Abertawe yn croesawu'r egwyddorion hyn yn llwyr ac mae'n mynd ati i'w hintegreiddio yn ei ddulliau o weithio.

### **Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol**

Lluniwyd [y strategaeth hon](#) i symbylu integreiddio a chydweithio ar draws sector cyhoeddus Cymru a sicrhau fod pobl wrth wraidd gwasanaethau a ddarperir yn well. Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth a chamau gweithredu sy'n ymdrin â phob un o themâu allweddol y Rhaglen Lywodraethu: Ffyniannus a Diogel; Iach ac Egnïol; Uchelgeisiol a Dysgu; ac Unedig a Chysylltiedig.

O dan y thema 'Ffyniannus a Diogel', mae'r strategaeth yn nodi'n benodol y bydd yn "datblygu ffyniant mewn ffordd sy'n cynorthwyo ac yn cynnal amgylchedd naturiol prydfferth Cymru, sy'n sicrhau bod cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn parhau i elwa, ac yn gwneud cyfraniad pwysig at y frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd." Mae'r SDLI hon yn cynorthwyo ardaloedd gwledig i ddatblygu cymunedau llewyrchus a chydnerth fel hyn, a thrwy ei rhaglen a'i chyllid, mae RhDG Abertawe yn annog arloesedd fel sbardun i ddatblygu atebion newydd i'r heriau a'r cyfleoedd allweddol hyn.

Mae'r amcanion cenedlaethol a'r meysydd blaenoriaethol hyn yn gefndir cadarn i'r themâu a'r amcanion yn y SDLI er mwyn sicrhau atebion lleol sydd wedi'u teilwra i lenwi bylchau mewn ymyriadau cenedlaethol a rhanbarthol fel sy'n briodol. Mae osgoi dyblygu ymdrechion yn hanfodol oherwydd y symiau cymharol fach sydd ar gael ar gyfer LEADER yn ardaloedd gwledig Abertawe.

### **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**



Mae [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\)](#) yn rhoi deddfwriaeth ar waith i reoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig, ac mae'n ystyried fod Cymru yn economi werdd carbon isel, sy'n barod i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Mae '[Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol](#)', sy'n cael ei lunio gan CNC, yn darparu asesiad sy'n nodi i ba raddau y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy a bydd yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd. Mae'r ddogfen hon yn llywio'r [Polisi Adnoddau Naturiol](#) (PAN), sy'n rhoi sylw i sut y gellir rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i gynyddu eu cyfraniad at gyflawni nodau o fewn Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n integreiddio ystod eang o feysydd polisi

Ceir tair Blaenoriaeth Genedlaethol:

- Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur
- Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy
- gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar le

Mae'r ysgogwyr yn yr adroddiad eisoes wedi amlinellu beth sydd ei angen i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a sut i gyflawni hynny, sy'n golygu fod gwybodaeth eisoes ar gael i gynorthwyo â gwaith y Bartneriaeth a'i hysbysu. Bydd Datganiadau Ardal yn helpu i hwyluso'r gwaith o gyflawni Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru ar lefel leol. (*Gweler y cyfeiriad at Ddatganiad Ardal y De Orllewin ar dudalen 29*).

### **Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010:2020**

Mae'r strategaeth hon yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol [Bwyd i Gymru ac o Gymru](#), ac yn amlinellu'r ymrwymiad clir i egwyddorion sylfaenol allweddol: Cynaliadwyedd, Cydnerthedd, Cystadleurwydd a Phroffidioldeb Mae'n mynd i'r afael â'r pwysau niferus ar y diwydiant bwyd yng Nghymru gan gynnwys ar dir, dŵr, ynni, poblogaeth a bioamrywiaeth, sy'n cael eu gwaethygu ymhellach gan heriau newid yn yr hinsawdd. Mae'n ystyried materion trawsbynciol megis iechyd, diwylliant ac addysg bwyd, diogelu'r cyflenwad bwyd, cynaliadwyedd amgylcheddol a datblygu cymunedol i ddarparu sylfaen ar gyfer dull integredig o ymdrin â pholisi bwyd yng Nghymru. Ategir y strategaeth gan ['Tuag at Twf Cynaliadwy - Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020](#).

Bydd yn strategaeth a'r cynllun gweithredu yn dod i ben yn 2020, eleni. Yn dilyn [ymgyngoriad](#) yn 2019, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer 2020-2026, sydd ar fin cae; ei gyhoeddi.

Mae archwilio'r agenda bwyd lleol a'i gysylltiadau â chymunedau cydnerth a thwristiaeth gynaliadwy a chymorth uniongyrchol â hynny yn parhau i fod yn rhan sylfaenol o RhDG Abertawe. Mae hyn yn ychwanegu at waith blaenorol gyda chynhyrchwyr lleol a defnyddwyr terfynol mewn perthynas â gwneud cysylltiadau â marchnadoedd newydd a magu hyder yn y sector. Ers fersiwn blaenorol y SDLI (Tachwedd 2017), mae Partneriaeth Bwyd Abertawe wedi cael ei sefydlu, ac yn benodol, mae'n bwriadu datblygu rhagor o gysylltiadau rhwng ardaloedd gwledig a

threfol o safbwynt cadwyni cyflenwi a chyfleoedd caffael ar gyfer cynhyrchwyr gwledig. Ochr yn ochr â strategaeth fwyd Llywodraeth Cymru, mae cyfleoedd i PDG Abertawe archwilio cynyddu cyfanswm y bwyd sy'n cael ei gynhyrchu a'i fwyta'n lleol, cryfhau marchnata a hyrwyddo twristiaeth bwyd trwy'r brand lleol a busnesau lleol, a chyrraedd marchnadoedd ehangach. Cyfeiriwyd amser swyddogion y Cynllun Datblygu Gwledig hefyd i gynorthwyo busnesau bwyd lleol i ymateb i heriau pandemig Coronafeirws, gan sicrhau bod bwyd lleol ar gael i gymunedau lleol. Heb os, bydd y prawf hwn ar yr economi fwyd leol yn taflu goleuni ar gyfleoedd newydd i gynyddu cyllid cymunedau a busnesau lleol, ac efallai y bydd angen iddynt gael cyllid LEADER i'w cynnal.

### **Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel**

*'Mae datgarboneiddio'n cynnig cyfleoedd anferthol i greu economi fyrlymus a chymdeithasol-gyfiawn. Rhaid gwneud gwahaniaeth a helpu i greu cymdeithas yma yng Nghymru sy'n diogelu lles pobl ac yn trechu anghydraddoldebau wrth inni ddatgarboneiddio.'* **Rhagair y Cabinet, Adroddiad Ffyniant i Bawb, Llywodraeth Cymru 2018.**

[Yn ei adroddiad](#), mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio cysylltiadau rhwng materion cyfiawnder cymdeithasol ac anghydraddoldeb â'r trawsnewidiad carbon isel yng Nghymru, gan gadarnhau bod mesurau i dorri allyriadau carbon yn gysylltiedig â chamau gweithredu ar gyfiawnder cymdeithasol, lliniaru tlodi, iechyd a lles – mae pob un o'r rhain yn elfennau allweddol o strategaeth RhDG Abertawe. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed y dylai o leiaf 1 GW o gapasiti ynni adnewyddadwy fod yn eiddo lleol erbyn 2030. Disgwylir hefyd i bob prosiect ynni newydd yng Nghymru fod ag o leiaf elfen o berchnogaeth leol o 2020 ymlaen. Mae gan RhDG Abertawe amcan strategol i 'gynorthwyo gweithgareddau sy'n cynyddu effeithlonrwydd ynni ac yn cynhyrchu a chyflenwi mwy o wres a thrydan adnewyddadwy cymunedol', felly mae mewn sefyllfa dda i gyfrannu at gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Abertawe wledig a chyfrannu at y polisi Cymru gyfan hwn. Yn wir, mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o'r sector hwn ac mae ceisiadau am brosiectau o dan y pennawd hwn wedi cael eu hadolygu a'u hariannu gan y Bartneriaeth, gan gynnwys sefydlu [Gower Power](#).

### **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Nod [Deddf Teithio Llesol \(Cymru\) 2013](#) yw helpu i droi Cymru yn 'wlad sy'n teithio'n llesol'. Yn genedlaethol ac yn lleol, ceir heriau o ran gwella lles corfforol a meddyliol, ar hyn o bryd ac yn achos cenedlaethau'r dyfodol. Gall lefelau cynyddol o deithio llesol - cerdded a beicio - sicrhau nifer o fuddion: cynnwys gweithgarwch corfforol mewn bywyd beunyddiol a sicrhau gwelliannau iechyd cysylltiedig; lleihau traffig cerbydau modur, llygredd aer, allyriadau carbon a thagfeydd; helpu pobl a chymunedau i deimlo'n fwy cysylltiedig a rhoi hwb i fusnesau lleol; cynnig symudedd cost isel, gan alluogi mynediad at addysg, swyddi a gwasanaethau.

Hyd yn hyn mae'r Ddeddf wedi'i hanelu'n bennaf at ardaloedd adeiledig; fodd bynnag, mae angen a chyfle iddi gael ei ehangu i drefi a phentrefi gwledig i greu rhwydweithiau hygrych, swyddogaethol a chydgyssylltiedig ledled y sir. Yn 2018, ariannodd RhDG Abertawe astudiaeth i archwilio sut y gellir gwella darpariaeth

cludiant gwledig ym mhenrhyn Gŵyr ac yn ward Mawr er mwyn hwyluso teithio cynaliadwy gan drigolion a thwristiaid yn well. Gwneir nifer o argymhellion a ymchwilir ymhellach yng nghanam nesaf y Bartneriaeth oherwydd maent yn cyd-fynd yn dda â'r agenda strategol newydd. Yn wir, mae RhDG Abertawe eisoes wedi ariannu gwasanaethau bysys ar Wyliau Banc ac ar y Sul ar benrhyn Gŵyr, a llwybrau beicio oddi ar y ffordd.

## **RHAGLENNI A FFRYDIAU ARIANNU EWROPEAIDD ERAILL**

### **Cronfa Pysgodfeydd Ewrop**

Abertawe yw'r prif gorff ar gyfer Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Abertawe (GGLIPBA), sydd â Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer Cronfa Pysgodfeydd Ewrop sy'n cwmpasu 4 Awdurdod Lleol h.y. rhan o Ben-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a rhan o Sir Gaerfyrddin. Mae'n cwmpasu'r ardal o Harbwr Porthcawl i Borth Tywyn. Mae gan GGLIPBA weledigaeth gref, h.y. 'Erbyn 2020, rydym am weld pysgota a diwydiannau cysylltiedig sy'n llwyddiannus, yn gynaliadwy, yn ddichonadwy yn economaidd, yn ymwybodol o'u treftadaeth, ac mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r presennol a rhai'r dyfodol.'

Mae cryn gyfle i elwa o'r cysylltiadau hyn o ran annog cynhyrchu cynaliadwy, cadwyni cyflenwi a photensial marchnata/twristiaeth. Mae gwneud cysylltiadau rhwng cynhyrchwyr bwyd lleol a chynhyrchwyr eraill a marchnadoedd lleol yn neilltuol o berthnasol. Mae GGLIPBA wedi cefnogi nifer o brosiectau bychan ond pwysig i gynorthwyo'r diwydiant pysgota lleol, yn ogystal ag ystyried twristiaeth a dehongli yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys storfa oer i gadw dalfeydd ym marina Abertawe a ddylai helpu i wella'r gadwyn gyflenwi i Farchnad Abertawe a siopau lleol eraill gan gynnwys y fasnach bwytai leol. Yn bwysig, mae hyn yn ystyried integreiddio anghenion y fflyd bysgota leol yn yr agenda adfywio ehangach ar gyfer Abertawe.

### **Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop**

Gweithredir dull strategol yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru tuag at ddatblygu cynigion lleol a rhanbarthol am gymorth o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop yng nghyd-destun Dinas-ranbarth Bae Abertawe a'r Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru. Y prif bryder yw osgoi dyblygu cynlluniau cymorth cenedlaethol Llywodraeth Cymru a rhai ar lefel y DU. Un cam hanfodol yw galluogi llif gwybodaeth o amgylch gwasanaethau a chymorth sydd ar gael o gynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol i sicrhau y gall ymarferwyr rheng flaen (gan gynnwys y rhai a ariennir trwy raglen LEADER) gyfeirio yn effeithiol. Bydd tîm LEADER yn chydweithio'n agos â chynghorwyr Busnes Cymru i drafod y pryderon hyn a datblygu prosiectau.

### **Rhaglenni Trawswladol Ewrop**

Mae ystod o gyfleoedd ar gael i gynnal gweithio traws-wladol. Ceir llawer o opsiynau a fyddai'n briodol i gynorthwyo i weithredu'r strategaeth wledig hon, gan gysylltu â datblygiadau ehangach ledled y rhanbarth ac ar lefel Cymru gyfan. Mae cyfleoedd i gydweithio â micro-fentrau i gynorthwyo ag arloesedd a thwrf mewn cynhyrchiant ar gael trwy gyfrwng sawl un o'r rhaglenni gan gynnwys Iwerddon-Cymru, INTERACT, Gogledd Orllewin Ewrop ac Ardal yr Iwerydd. Mae addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn thema gyson arall. Y budd pennaf fyddai cyfnewid arferion da a gwersi a ddysgwyd mewn ardaloedd eraill sydd wedi bod yn llwyddiannus. Cydnabyddir y bydd y dirwedd ariannu yn newid yn dilyn Brexit, ond hyd yn hyn, ni wyddys beth yn union fydd y sefyllfa.

## ADRAN 2 – CYLLIDOL A CHYDYMFFURFIAETH

Disgrifiad	Egluro sut mae'r Grŵp Gweithredu'n bwriadu cwrdd â'i ymrwymiadau cyllidol a chydymffurfiaeth. Rhaid i Grwpiau Gweithredu ddangos bod ganddynt gynlluniau ariannol cymwys ac y byddant yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol angenrheidiol.
Yn gysylltiedig ag	Rhan o Adran 3.11 Canllawiau'r SDLL Mehefin 2014 (y gweddill i'w gynnwys dan Adran 4 – Rheoli Gwaith)

### 2.1 Rheoli a Gweinyddu

Mae'r GGLI yn cynllunio ac yn gweithredu'r SDLI trwy ddull partneriaeth dan arweiniad y gymuned o sicrhau newid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn unol â'i weledigaeth ar gyfer yr ardal. Cronfa Gweithredu LEADER yw'r bif gronfa gyllid i ddatblygu a chyflawni mentrau penodol â ffocws pendant a fydd yn cyflawni amcanion y SDLI.

#### Aelodaeth


Bydd aelodaeth y GGLI yn destun adolygiad blynyddol yn unol â'r broses adolygu ar gyfer y SDLI ei hun. Mae hyn yn sicrhau bod buddiannau strategol wrth y bwrdd yn adlewyrchu amcanion fersiwn cyfredol y SDLI. Defnyddir proses ymgeisio i ffurfio aelodaeth y GGLI, a lle bo hynny'n briodol, i gyfethol aelodau neu gynghorwyr ychwanegol, yn unol ag Erthygl 32 2(b) EC 1303/2013. Mae cyfansoddiad aelodaeth y grŵp yn sicrhau na fydd gan unrhyw fuddiant unigol fwy na 49% o'r hawliau pleidleisio, ac y bydd yn wirionedd gynrychiadol o fuddion economaidd-gymdeithasol preifat a chyhoeddus lleol.

Pan fydd cyfle i ymuno â'r Bartneriaeth, bydd Swyddogion ac aelodau presennol yn hyrwyddo hyn yn eang trwy eu holl sianeli a'u rhwydweithiau. Gofynnir i unigolion sydd â diddordeb lenwi ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb, a fydd yn asesu eu haddasrwydd i ymuno â'r Bartneriaeth - diddordebau, gwybodaeth a sgiliau. Pe bai'r Bartneriaeth yn ceisio rhywun i gynrychioli ardal neu arbenigedd penodol, gallai wahodd aelodau newydd ar y sail hon.

Bydd Grŵp Tasg a Gorffen yn cynnwys unigolion o blith aelodau presennol Partneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe (gan gynnwys y Cadeirydd) a Swyddogion yn asesu Mynegiadau o Ddiddordeb yn erbyn fersiwn cyfredol y SDLI ac yn llunio rhestr fer o aelodau newydd ar gyfer y Bartneriaeth. Os bydd holl aelodau'r Bartneriaeth gyfan yn rhoi'r gorau i'w dyletswyddau e.e. yn unol ag adolygiad o'r SDLI, y Cadeirydd a'r Swyddogion presennol fydd yn gyfrifol am y broses hon.

Pan ymddengys bod sector, ardal neu fudd penodol yn cael ei orgynrychioli, bydd y Grŵp Tasg a Gorffen yn pleidleisio ar ba gynrychiolydd y dylid ei recriwtio. Bydd aelodaeth y Bartneriaeth yn cael ei hadolygu ar yr un pryd â'r adolygiad o'r SDLI. Er mwyn sicrhau Partneriaeth gytbwys, ni fydd aelodaeth o'r sector cyhoeddus yn fwy na 50%, ac ni chaniateir i unrhyw fuddiant unigol gael mwy na 49% o hawliau pleidleisio.

Ar hyn o bryd, ym mis Medi 2020, mae gan CDG Abertawe 20 aelod sy'n cael eu cynorthwyo gan 3 chynghorydd – trowch at Atodiad E i weld rhestr o'r aelodau a'r sefydliadau a'r sectorau y maent yn eu cynrychioli. Gellir gweld dadansoddiad o'r aelodaeth yn ôl sector yn Ffigur 8, isod. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd gwahoddiad agored i aelodau newydd gael eu hychwanegu neu gymryd lle rhai o'r enwau uchod. Targedir cynrychiolwyr o'r trydydd sector a'r sector preifat, pobl ifanc a ffermwyr. Bydd y recriwtio hwn hefyd yn cynnwys cyfle i ymgysylltu â chynghorwyr arbennig, megis arbenigwyr ar ardaloedd daearyddol neu bynciau penodol, gan adlewyrchu'r gofyniad yn unol â ffocws y strategaeth newydd hon. Gallai'r cynghorwyr hyn ddod yn aelodau ffurfiol o'r GGLI neu weithredu mewn cymhwyster ymgynghorol pan ofynnir iddynt wneud hynny. Trowch at Atodiad F i weld y ffurflen gais i ddod yn aelod o CDG Abertawe.



*Ffigur 8: Aelodaeth y GGLI fesul sector, ym mis Medi 2020*

## **DULLIAU O WEITHIO**

Wrth adolygu fersiwn blaenorol y SDLI a'r cynnydd hyd yn hyn o ran cyflawni'r rhaglen, gwnaed rhai newidiadau i ffyrdd y Bartneriaeth o weithio. Mae'r GGLI wedi cytuno i ddod â'r 3 is-grŵp thematig (Economi a Chymuned, Twristiaeth, a Thrafnidiaeth a Seilwaith) i ben, ac yn lle hynny, cynhelir cyfarfodydd o'r GGLI llawn

yn amlach. Bydd y grŵp ffocws Cydweithredu hefyd yn dod i ben, a bydd adroddiadau ynghylch y prosiect Cydweithredu nesaf yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r GGLI. Cytunwyd i barhau â 'Phanel Grantiau'. Gwnaed y dewisiadau hyn yn bennaf i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mor ddemocrataidd ac effeithlon ag y bo modd, ac maent hefyd yn adlewyrchu'r newid diweddar yng ffocws y strategaeth newydd hon a'r angen, am y tro o leiaf, am ddeialog agored, dysgu a chydweithio ar draws y Bartneriaeth lawn. Fodd bynnag, fel y nodir yng Nghylch Gorchwyl y Bartneriaeth (gweler *Atodiad A*), gellir sefydlu gweithgorau yn ôl yr angen.

### **CYLCH GORCHWYL A DYLETSWYDDAU'R GRŴP GWEITHREDU LLEOL**

Lluniwyd cylch gorchwyl GGLI Abertawe i gydymffurfio ag Erthygl 32 2(b) Rheoliad EC 1303/2013 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygu lleol dan arweiniad y gymuned gael ei arwain gan grwpiau gweithredu lleol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o garfannau economaidd-gymdeithasol lleol cyhoeddus a phreifat, ac ni chaniateir i unrhyw grŵp cyhoeddus na phreifat â buddiant gynrychioli mwy na 49% o'r hawliau pleidleisio.

Mae'r canlynol yn adrannau allweddol o'r Cylch Gorchwyl; i weld y cylch gorchwyl llawn, trowch at *Atodiad A*.

#### **Amcanion y Grŵp Gweithredu Lleol**

- a) Datblygu gallu gweithredwyr lleol yn ardaloedd gwledig Abertawe i ddatblygu a rhoi prosiectau (gweithrediadau) ar waith, gan gynnwys meithrin eu galluoedd rheoli prosiect.
- b) Cytuno ar weithdrefn ddethol anwahaniaethol a thryloyw a meini prawf gwrthrychol ar gyfer dewis prosiectau (gweithrediadau) a'u rhoi ar waith, gan osgoi gwrthdrawiadau budd a sicrhau bod o leiaf 50% o'r pleidleisiau mewn penderfyniadau dethol yn cael eu bwrw gan bartneriaid nad ydynt yn awdurdodau cyhoeddus. Bydd modd dethol trwy weithdrefn ysgrifenedig.
- c) Parhau i ddatblygu ac adolygu'r Strategaeth Datblygu Lleol (SDLI) a neilltuo'r adnoddau LEADER sydd ar gael i ardaloedd angen a chyfle lleol yn ôl eu gallu i gyflawni amcanion a thargedau'r SDLI.
- d) Paratoi gweithdrefn cyflwyno prosiectau barhaus.
- e) Derbynn ac asesu ceisiadau am gefnogaeth yn unol ag amcanion y strategaeth y cytunwyd arnynt.
- f) Dewis gweithrediadau, gan bennu maint y gefnogaeth i'w rhoi a, lle bo'n berthnasol, cyflwyno'r cynigion i'r corff sy'n gyfrifol am wiriad terfynol cymhwysedd cyn cymeradwyo.
- g) Monitro'n fanwl y broses o roi'r SDLI ar waith i gynnwys y camau canlynol:
  - Monitro a chymeradwyo adroddiadau cynnydd wrth roi'r strategaeth ar waith a nodi bylchau yn y ddarpariaeth;

- Monitro'r gweithgareddau a gynhelir fel rhan o'r strategaeth hon;
- Sicrhau bod prosiectau cadarn a datblygedig sy'n werth da am arian yn cael eu cynnig a'u dewis i'w harfarnu a'u hariannu;
- Cyflawni gweithgareddau gwerthuso penodol;
- Hyrwyddo'r rhaglen yn lleol.

h) Sicrhau fod y SDLI a'i nodau yn dod yn fwy amlwg yn y wardiau gwledig ac yn ardal ehangach Abertawe.

### **Cyflawni a rheoli cyffredinol**

Mae'r GGLI:

- Yn cynrychioli'r prif bartneriaid sydd â buddiant yn y strategaeth mewn ffordd glir;
- Yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am drylwyredd proses arfarnu, dethol a monitro prosiectau;
- Yn derbyn adroddiadau chwarterol manwl am gynnydd yn erbyn nodau ac amcanion y Strategaeth;
- Yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni a rheoli'r rhaglen yn lleol;
- Yn goruchwyllo cyflawni prosiectau;
- Yn cymeradwyo adroddiadau cynnydd blynyddol gan Gorff Gweinyddol arweiniol y strategaeth
- Bydd aelodau'r GGLI yn gwneud cysylltiadau, yn estyn allan i'w rhwydweithiau, ac yn cynrychioli buddion eu grŵp/sefydliad yng nghyfarfodydd y GGLI.
- Pan fo angen hynny, gall y GGLI sefydlu Gweithgorau a/neu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i fynd i'r afael ag angen neu faes gwaith penodol.

### **Cylch Gorchwyl Panel Grantiau'r PDG– ATODIAD B**

PIF a Cheisiadau Llawn

Bydd holl aelodau'r GGLI yn derbyn pob PIF a chais llawn; caiff pob PIF eu hasesu ar gyfer gwahoddiad i'r cam nesaf yn unig, a chaiff ceisiadau llawn eu sgorio'n unigol.

Cynhelir cyfarfod GGLI eithriadol i drafod ceisiadau, a gall unrhyw aelod o'r GGLI yr hoffai gael ei gynnwys yn y cyfarfod fynd iddo ond rhaid bod cworwm yn y cyfarfod ar bob adeg. Gall aelodau'r GGLI na allant ddod i'r cyfarfod gyflwyno'u sylwadau a'u sgoriau cyn y cyfarfod a bydd angen i bob aelod gyhoeddi unrhyw wrthdaro o ran budd. Yn ystod y cyfarfod GGLI eithriadol hwn, caiff sgoriau eu trafod, ynghyd â'r sylwadau a gyflwynwyd gan aelodau'r GGLI sy'n bresennol ac nad ydynt yn bresennol. Byddai cyfarfod eithriadol y GGLI yn penderfynu a ddylid cadw'r sgoriau cyfartalog a dderbyniwyd neu eu diwygio'n seiliedig ar drafodaethau. Ystyrir y sgoriau/canlyniadau a roddir yn y cyfarfod hwn fel y canlyniadau terfynol ac ni fyddai angen eu cymeradwyo ymhellach. Caiff y broses ei hailadrodd ar gyfer y camau PIF a'r ceisiadau llawn

Cais Llwybr Carlam

Bydd ceisiadau llwybr carlam yn hepgor y cam PIF a chânt eu hasesu pan fyddant yn cael eu cyflwyno yn hytrach nag mewn cyfnodau grant penodol. Bydd y bartneriaeth yn gosod uchafswm pot grantiau llwybr carlam y gallant benderfynu ei estyn pan fydd yn wag. Yn gyffredinol, dim ond un grant llwybr carlam y sefydliad y gellir ei ariannu, ond gall y bartneriaeth ddefnyddio'i disgresiwn i ariannu mwy mewn amgylchiadau eithriadol.

Rhaid i bob aelod o'r GGLI dderbyn pob cais a sgorio pob un yn unigol

Gellir trafod ceisiadau llwybr carlam yn ystod cyfarfodydd cyffredinol y GGLI a gellir gwneud penderfyniadau, ond rhaid bod cworwm yn y cyfarfod ar bob adeg. Gall aelodau'r GGLI na allant ddod i'r cyfarfod gyflwyno eu sylwadau a'u sgoriau cyn y cyfarfod a bydd angen i bob aelod gyhoeddi unrhyw wrthdaro o ran budd. Os derbynnir nifer mawr o geisiadau, cynhelir cyfarfod llwybr carlam y GGLI a chaiff y broses uchod ei rhoi ar waith.

Bydd y GGLI hefyd yn derbyn ffurflen hunanasesu Un Blaned gan yr ymgeisydd. Bydd y ffurflen hon yn ffurflen ategol i'r cais carlam. Ni fydd unrhyw sgôr ynghlwm wrth y ffurflen ond bydd yn rhoi cyfle i'r GGLI asesu sut bydd y prosiect yn effeithio ar, ac yn gwella'r egwyddorion Un Blaned a nodwyd yn y SDLI. Mae'r ffurflen hunanasesu yn cynnwys saith cwestiwn ar yr egwyddorion Un Blaned. Mae pob cwestiwn wedi'i rannu'n ddau a bydd angen i'r ymgeisydd roi sgôr ynghylch sut mae ei sefydliad yn effeithio ar yr egwyddorion Un Blaned ar hyn o bryd, a sut bydd ei brosiect yn gwneud gwahaniaeth i'r egwyddorion hyn.

#### **CRONFEYDD HEB EU DYRANNU**

Bydd unrhyw gronfeydd heb eu dyrannu yn ystod y 6 mis olaf o gyflwyno'r rhaglen yn cael eu cynnig i brosiect gweithredol i wneud cais amdano fel ychwanegiad at y prosiect ar gyfer gweithgareddau newydd, neu i dalu am gostau'r prosiect. Byddai'r broses ymgeisio drwy gyflwyniad wedi'i recordio a fydd yn amlinellu eu prosiect presennol, y costau a nodwyd a sut y byddai'n ychwanegu budd at gymunedau gwledig Abertawe. Dilynnir y cyflwyniad gan sesiwn holi ac ateb mewn cyfarfod GGLI a fyddai'n cael ei recordio at ddibenion archwilio. Yna byddai'r GGLI yn trafod y cynigion cyn gwneud penderfyniad. Byddai'r broses hon yn broses ddi-bapur a chaiff ei recordio at ddibenion archwilio.

#### **ARFARNU, CYMERADWYO A MONITRO PROSIECTAU**

Caiff holl weithgarwch prosiectau sy'n sail i'r SDLI ei fonitro'n ffurfiol gan y GGLI yn rheolaidd. Y prif offeryn i alluogi monitro effeithiol yw adroddiadau monitro a gaiff eu dosbarthu'n chwarterol sy'n cynnwys manylion yr holl wariant a chyflawniad yn erbyn allbynnau (gweler y templed yn *Atodiad H*). Bydd y rhain yn cael eu darparu'r i'r GGLI yn dilyn pob chwarter yn ystod y flwyddyn ariannol, felly: Gorffennaf (ynghylch gweithgarwch yn Ebrill, Mai a Mehefin), Hydref (ynghylch gweithgarwch yng Ngorffennaf, Awst a Medi), ac Ebrill (ynghylch gweithgarwch yn Ionawr, Chwefror a Mawrth). Efallai y bydd prosiectau sy'n cael traferth â llif arian yn gallu hawlio'n fisol yn lle hynny; ystyrir sefyllfa pob prosiect yn unigol.



Mae'r adroddiadau'n cynnwys:

- Adroddiad byr ar gynnydd ar gyfer y chwarter blaenorol;
- Y gwariant hyd yn hyn;
- Diweddariadau am brosiectau a'u statws (Coch/Oren/Gwyrdd);
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Bydd canlyniadau dros dro gweithgarwch gwerthuso ynghylch bob prosiect sy'n gweithredu fel rhan o'r strategaeth yn cael eu bwydo yn ôl i'r GGLI i gael sylwadau. Mae hyn yn cynorthwyo'r GGLI i gael syniad o ba mor effeithiol y mae gweithgareddau'n llwyddo i roi amcanion y strategaeth ar waith. Mae hefyd yn galluogi nodi camau gweithredu adferol y mae eu hangen os nad yw gweithgarwch o'r fath yn cyflawni'r nodau a ddymunir a chyfrannu at welliant cyffredinol yn lefelau galluedd y GGLI a strwythurau ategol.

Lle nad yw prosiectau'n cyflawni perfformiad yn unol â'r proffil, bydd y GGLI yn gweithredu'n briodol trwy law y Corff Gweinyddol i adfer y sefyllfa.

Bydd y Corff Gweinyddol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel yr amlinellir uchod, gan gynnwys cynnal y systemau sydd eu hangen i sicrhau y rhoddir adroddiadau boddhaol am bob agwedd o gyflawni i Lywodraeth Cymru yn ôl y galw.

Mae'r Corff Gweinyddol yn darparu'r canlynol:


- Gweithredu fel ysgrifenyddiaeth i'r GGLI;
- Llunio adroddiadau a dogfennaeth gysylltiedig arall;
- Coladu hawliadau'r Corff Gweinyddol a gwirio gwybodaeth ategol;
- Prosesu a chyflwyno canlyniadau ariannol ac allbynnau;
- Monitro codau cyllideb y Corff Gweinyddol ar gyfer pob prosiect a ariennir;
- Paratoi a dosbarthu cyhoeddusrwydd.
- Y cynllun cyfathrebu a gweithredu hynny.

Ar gyfer elfennau ariannol, bydd yr Adran Cyllid ganolog yn cwblhau gwiriadau terfynol o ran agweddau ariannol ar lythyrau cyllido/ffurflenni diwygio/ffurflenni hawlio ac yn trefnu i Bennaeth yr Adram Cyllid eu cymeradwyo.

### **Y Broses Asesu Prosiectau**

Gweithredir y broses o asesu a chymeradwyo prosiectau ar sail cyfnod ymgeisio ar adegau penodol. Mae'n seiliedig ar anghenion a nodir yn rheolaidd gan y Bartneriaeth a swyddogion.

Disgrifir y broses ymgeisio isod, ac mae manylion llawn ar gael ar dudalennau gwe RhDG Abertawe: [www.swansea.gov.uk/rdp](http://www.swansea.gov.uk/rdp) ac yn *Atodiad C*.



Wrth asesu prosiectau, bydd y GGLI yn gwneud penderfyniadau ynghylch cydbwysu'r galw yn erbyn yr anghenion a amlinellir yn y SDLI a'i nodau a'i hamcanion.

Oherwydd yr arian cyfyngedig sydd ar gael, mae disgwyl i brosiectau fod o fewn uchafswm, fel y bydd yn cael ei hysbysebu, ond bydd ceisiadau sy'n fwy na hynny yn cael eu hystyried os byddant yn strategol eu natur. Gall y panel wneud penderfyniadau am geisiadau am lai na £5,000 yn gyflym. Mae ceisiadau llwybr carlam yn hepgor y cam Ffurflen Gwybodaeth am Brosiect ac fe'u hasesir pan gânt eu cyflwyno yn hytrach nag yn ystod cyfnodau grantiau penodol. Bydd y bartneriaeth yn pennu uchafswm ar gyfer cronfa grantiau llwybr carlam, y gall ddewis ei hehangu unwaith ei bod hi'n wag. Yn gyffredinol, un grant llwybr carlam y sefydliad y gellir ei ariannu. Fodd bynnag, mae gan y Bartneriaeth ddisgresiwn i ganiatâu rhagor mewn amgylchiadau eithriadol.

Bydd y GGLI yn adolygu goblygiadau'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael yn rheolaidd ac mae wedi cytuno bod blaenoriaethu adnoddau yn hanfodol i sicrhau'r effaith fwyaf. Fel y cyfryw, mae hyn yn golygu dull sy'n rhoi sylw mwy penodol i ar ddatblygu prosiectau yn hytrach na chyfnod ymgeisio treigl. Bydd staff y Corff Gweinyddol yn cydweithio â'r GGLI a rhanddeiliaid allanol i nodi gweithgareddau â blaenoriaeth i'w cynorthwyo i'w datblygu'n brosiectau.

Byddant hefyd yn gwirio pob cais i sicrhau eu bod yn gymwys yn unol â chanllawiau cyhoeddiedig rhaglen LEADER a chanllawiau'r UE.

Gellir gweld crynodeb o brosiectau a gymeradwywyd gan GGLI (hyd at fis Ebrill 2020), sydd wedi bod yn destun y broses asesu a meini prawf prosiectau fel y nodir yn yr adran hon, trwy droi at [dudalennau gwe Rhwydwaith Gwledig Cymru](#) ynghyd â phrosiectau eraill a ariennir gan GGLI a RhDG eraill yng Nghymru. Mae [astudiaethau achos lleol](#) ar gael ar dudalennau gwe RhDG Abertawe.

Er mwyn sicrhau proses ddethol effeithiol, a chymorth i brosiectau a fydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf at ein Nodau a'n Amcanion, mae ein gweithdrefnau dethol a'n meini prawf ar gyfer rhoi arian grant i brosiectau wedi'u nodi'n glir yn y deunyddiau cais a'r canllawiau ynghylch hynny.

### ADRAN 3 – CYFLAWNI

Disgrifiad	Egluro sut mae'r Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI) yn bwriadu trosglwyddo ei amcanion datganedig i gyflenwi ar lawr gwlad. Dylai bod gan y GGLI gynllun clir sy'n cysylltu'r canlyniad, yr allbynnau sy'n cyflenwi'r canlyniad, pa weithgareddau a gynhelir i gyflenwi'r allbynnau, sut a phryd y bydd y gweithgareddau hynny'n cael eu cynnal a phwy fydd yn gyfrifol am eu cyflenwi.
Yn gysylltiedig ag	Adrannau 3.4 (gan gynnwys tabl rhesymeg Ymyriad), 3.8, 3.9, 3.10 a 3.12 Canllawiau'r Strategaeth Mehefin 2014

### 3.1 Disgrifiad o'r strategaeth a'r hierarchaeth o amcanion

#### Cefndir y SDLI hon

Yn ystod cyfarfod y GGLI ar 14/05/19, holwyd a ddylai/sut ddylai'r Bartneriaeth ymateb i'r nifer fawr o ddatganiadau ynghylch argyfwng yr hinsawdd a natur oedd wedi cael eu cyhoeddi ar y pryd, yn cynnwys rhai Llywodraeth Cymru a Chyngor Abertawe; a phe dylid ymateb, a ddylid gwneud yr un peth ac ychwanegu at ddatganiadau cyhoeddus neu ffurfio rhyw fath o ymateb arall mwy rhagweithiol. Cytunodd y GGLI y dylid trafod y mater pwysig hwn yn fanylach, a gwnaed hynny ar 08/07/19, a hwyluswyd hynny gan Gyfarwyddwr Canolfan Un Blaned, David Thorpe. Arweiniodd cyflwyniad i ddull Un Blaned at ystyried ac archwilio sut y gallai hyn roi'r ffocws a'r modd i'r Bartneriaeth ddarparu agenda busnes a strategaeth yn rhagweithiol yn ei hymateb i argyfwng yr hinsawdd. O ganlyniad, cytunwyd y byddai'r is-grŵp Economi a Chymuned yn datblygu cynnig i'w ystyried gan y Bartneriaeth. Ar 09/07/19, fe wnaeth yr is-grŵp gyflwyno'r argymhelliad dilynol i'r GGLI:

#### **Mae'r is-grŵp Economi a Chymuned yn argymhell y dylai'r GGLI:**

- Gydabod y datganiadau diweddar ynghylch argyfwng y newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng ecolegol.
- Ymateb i'r argyfwng trwy adolygu'r SDLI, ein blaenoriaethau, ein prosesau a'n gweithgareddau.
- Cyflawni hyn trwy fabwysiadu Fframwaith Un Blaned.

I'r perwyl hwn, byddwn ni'n:

- Gweithredu camau 1 – 3 Fframwaith Un Blaned fel a ganlyn:
  1. Ceisio cefnogaeth ac adborth y gymuned ar bob lefel
  2. Dewis pa safonau ac amcanion y dylid eu defnyddio
  3. Pennu gwaelodlin
- Mynd ati i wneud asesiad sylfaenol o ôl troed ecolegol Abertawe, gan gydweithio ble bydd hynny'n bosibl â sefydliadau partner ac ystyried cyfleoedd i gydweithredu yn rhanbarthol.

#### **Mae gweithredu ymagwedd a fframwaith Un Blaned yn golygu y byddwn ni'n:**

- Hysbysu Llywodraeth Cymru am ein bwriad i weithio yn y modd hwn.
- Adolygu'r SDLI i gyd-fynd ag egwyddorion gweithio Un Blaned a datblygu rhaglen o waith i gyflawni hyn.
- Wrth wneud hynny, nodi blaenoriaethau i ganolbwyntio'n gwaith arnynt, e.e. bwyd, cludiant, cysyllted ecosystemau.
- Bod yn eglur ynghylch yr ymagwedd hon a pham rydym ni'n ei mabwysiadu – datblygu cynllun cyfathrebu ac anfon datganiad at y wasg.
- Adolygu prosesau a dogfennau allweddol eraill y rhaglen.

- Nodi dangosyddion y gellid eu defnyddio i asesu, monitro a llunio adroddiadau am allbynnau a deilliannau ein gweithgareddau yn erbyn fframwaith Un Blaned.
- Hysbysu, ac o bosibl, dylanwadu ar agenda argyfwng yr hinsawdd yn Abertawe gyfan, gan sicrhau bod heriau a chyfleoedd cefn gwlad yn cael eu hystyried yn llawn, ac y datblygir ac yr ychwanegir at ein gwaith a'n llwyddiannau.
- Ceisio/nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithredu ehangach a gwaith rhanbarthol.

Yn dilyn cyfarfod y GGLI ar 2307/19, pleidleisiodd yr aelodau trwy gyfrwng gweithdrefn ysgrifenedig, a chanlyniad hynny oedd 11 o blaid, 1 yn erbyn a 2 bleidlais wedi'u hatal. Cadarnhawyd felly y byddai'r GGLI yn ymateb yn weithredol i argyfyngau'r hinsawdd a natur trwy fabwysiadu'r uchod fel dull allweddol o ysgogi ei waith a'i weledigaeth yn y dyfodol.

Gwahoddwyd holl aelodau'r GGLI i sefydlu gweithgor i fwrw ymlaen â'r rhaglen hon, ac roedd hynny'n cynnwys adolygiad o'r SDLI bresennol gan David Thorpe ac argymhellion am newidiadau sy'n ofynnol i gyd-fynd â'r ffocws newydd hwn. Arweiniodd trafodaethau'r gweithgor, ag arweiniad a mewnbwn gan yr ymgynghorydd, at weledigaeth, nodau ac amcanion strategol newydd yn cael eu hargymell i'r GGLI, a chynhaliwyd pleidlais yn eu cylch a chadarnhawyd hwy mewn cyfarfod (08/04/2020) a thrwy weithdrefn ysgrifenedig (22/04/2020). Cwblhawyd dadansoddiad SWOT hefyd gan ystyried y strategaeth oedd newydd ei mabwysiadu, yn ogystal ag adolygiad o ddulliau'r GGLI o weithio a'i gylch gorchwyl - ac maent wedi'u hymgorffori yn y strategaeth hon.

Mae'r hyn sy'n dilyn hefyd yn adlewyrchu trafodaethau sydd wedi digwydd yn ystod y 12-18 mis diwethaf, yn deillio o gyfres o gyfweiliadau un ac un gydag aelodau'r Bartneriaeth, cynghorwyr a chynghorwyr cymunedol, a gweithdy 'Theori Newid. Yn ogystal, mae'n ystyried themâu a blaenoriaethau a nodwyd mewn astudiaethau dichonoldeb y mae'r Bartneriaeth eisoes wedi'u hariannu. Nododd y rhain fod angen mwy o sylw i'r hinsawdd a'r amgylchedd yng ngwaith P DG Abertawe.

### **Gweledigaeth y GGLI ar gyfer Abertawe Wledig**

Yn unol â'r dull 'Un Blaned', ein gweledigaeth, gan edrych ymlaen tua 10-15 mlynedd, yw sicrhau fod wardiau gwledig Abertawe yn gweithredu i liniaru argyfyngau'r hinsawdd a natur ac argyfyngau eraill sy'n wynebu'r byd, ac yn addasu yn unol â'r argyfyngau hynny ac yn amddiffyn eu hunain rhagddynt.

#### **Rydym ni'n dymuno sicrhau dyfodol 'Un Blaned' ar gyfer Abertawe wledig sy'n:**

- cynyddu cydnerthedd a hunandibyniaeth cymunedau trwy gynhyrchu rhagor o'r hyn maent yn ei ddefnyddio;
- gwneud hynny mewn modd sy'n llai niweidiol i iechyd pobl ac i'r amgylchedd;
- cynnal adnoddau naturiol a bioamrywiaeth mwy helaeth;
- annog rhoi terfyn ar wastraff diangen;
- sicrhau mwy o swyddi lleol a mwy ystyrion;

- cynnig amddiffyniad gwell rhag y posibilrwydd o darfu yng ngweddill y byd mewn perthynas â'r amgylchedd, masnach a'r economi;
- lleihau olion troed ecolegol a charbon yr ardal.

Fel sail i'r weledigaeth hon, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu 3 nod strategol ac 8 amcan, sef:

**TABL 6: Nodau ac Amcanion Strategol RhDG Abertawe**

NODAU AC AMCANION STRATEGOL GWLEDIG	THEMÂU LEADER	ThT
<b>Nod Strategol 1:</b> Gwella lles a chydnerthedd ecosystemau trwy gynnal adnoddau naturiol a diwylliannol ac ychwanegu gwerth atynt		Trechu tlodi ac allgau cymdeithasol
<b>Amcan 1:</b> datblygu mentrau sy'n darparu buddion lles mesuradwy	1	
<b>Amcan 2:</b> datblygu atebion arloesol i argyfyngau'r hinsawdd a natur	1,2	
<b>Nod Strategol 2:</b> Datblygu cludiant cynaliadwy a mentrau ynni sy'n lleihau allyriadau ac yn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd		
<b>Amcan 3:</b> datblygu/gwella dewisiadau cludiant di-garbon a charbon isel i bawb	3,4	
<b>Amcan 4:</b> cefnogi gweithgareddau sy'n cynyddu effeithlonrwydd ynni ac yn cynhyrchu ac yn cyflenwi mwy o wres a thrydan adnewyddadwy cymunedol	3,4	
<b>Nod Strategol 3:</b> Cryfhau hunangynhaliaeth yr economi leol a chefnogi cymunedau gweithredol, cydnerth a chysylltiedig		
<b>Amcan 5:</b> cynyddu cyfanswm y bwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n gynaliadwy a'i fwyta'n lleol	1,2,5	
<b>Amcan 6:</b> mwyafu'r economi leol a sicrhau ei bod yn fwy cynaliadwy trwy ddatblygu cadwyni cyflenwi byrrach a chylchol rhwng defnyddwyr, cynhyrchwyr a chyflenwyr	3,4	
<b>Amcan 7:</b> gwella cydnerthedd cymunedau trwy gyfrwng mentrau, datblygu sgiliau, a hyrwyddo	3,4	
<b>Amcan 8:</b> gwella effeithlonrwydd adnoddau – lleihau, aildefnyddio, ailddychmygu, ailgylchu adnoddau	2	

Mae'n bwysig pwysleisio bod y model LEADER/Datblygu Lleol Dan Arweiniad Cymunedau yn cadarnhau pwysigrwydd creu cymunedau gwledig cydnerth - rhan allweddol o'r dull Un Blaned, yn unol â Nod Strategol 3. Bydd gweithgaredd o'r fath, ochr yn ochr ag argaeledd cyllid y RhDG, yn hanfodol wrth adfer yn dilyn argyfwng Covid-19. Pwysleisiwyd hyn yn ystod trafodaethau diweddar (Ebrill / Mai 2020) a thrafodaethau rheolaidd GGLI Abertawe, a bydd yn flaenoriaeth yn ystod cyfnodau dyfarnu grantiau yn y dyfodol ac yng ngwaith y Bartneriaeth.

Mewn perthynas â Nodau ac Amcanion Strategol newydd 'Un Blaned', bydd PDG Abertawe yn annog sefydliadau i fynd ati i wneud y canlynol:

- Ystyried ystyr 'un blaned' iddynt hwy ac i randdeiliaid a buddiolwyr yn y gymuned, a
- Chynnig syniadau arloesol ac uchelgeisiol sy'n cyfrannu at amcanion niferus ac yn sicrhau buddion i wella cydnerthedd cymunedau (mewn ymateb i argyfwng y newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau eraill, e.e. coronafeirws), gan rymuso/gwella sgiliau dinasyddion, creu swyddi, gwella llesiant, a lleihau ôl troed ecolegol y rhanbarth.

Mae'r weledigaeth strategol yn un tymor hir; mae ein rhaglen bresennol wedi'i hariannu tan Fehefin 2023 yn unig. Felly, bydd gweithgareddau, astudiaethau dichonolrwydd a phrosiectau peilot a ariennir gan RhDG Abertawe yn sicrhau fod y wardiau gwledig yn cychwyn troedio'r llwybr tuag at gyflawni'r weledigaeth. Yn gyffredinol, mae'r mathau o weithgareddau a gynorthwyir yn cynnwys y rhai sy'n gwneud y canlynol:

- Helpu i wyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a gwella cydnerthedd ecosystemau, trwy ganolbwyntio naill ai ar wella cynefinoedd/rhywogaethau neu trwy ymgorffori hyn fel rhan o brosiect ehangach.
- Cynhyrchu a chyflenwi mwy o fwyd lleol a nwyddau a gwasanaethau eraill yn lleol.
- Datblygu cadwyni cynhyrchu, prosesu a chyflenwi lleol ar gyfer marchnadoedd lleol i gadw arian ac adnoddau yn yr ardal, gan gynyddu 'effaith lluosydd' arian parod sy'n cylchredeg yn yr ardal, yn hytrach na'i gadael.
- Lleihau ac aildddefnyddio gwastraff a symud tuag at economi gylchol â chyfleusterau casglu/prosesu ar gyfer gwahanol fathau o wastraff, gan eu trawsnewid yn gynhyrchion defnyddiol neu werthadwy; aildddefnyddio neu ailgyflenwi deunyddiau a nwyddau dros ben; a chanfod marchnadoedd lleol ar gyfer y cynhyrchion hyn.
- Hwyluso symud tuag at sefyllfa ble na cheir unrhyw allyriadau carbon net.
- Datblygu cyfleoedd i amsugno a storio carbon o'r atmosffer, e.e. â deunydd organig wedi'i gompostio yn y pridd, neu trwy ddefnyddio adeiladwaith neu ddodrefn naturiol (e.e. pren, gwlan a ffibrau eraill).
- Mabwysiadu, hyrwyddo a chefnogi arferion rheoli tir organig ac ecolegol.
- Annog a gwella seilwaith i sicrhau fod defnyddio cludiant cyhoeddus, opsiynau di-garbon a charbon isel, a theithio egniol - megis cerdded a beicio - yn fwy hygyrch a deniadol i bobl leol ac ymwelwyr.

- Datblygu cynnig twristiaeth unigryw sy'n hyrwyddo holl rinweddau ac atyniadau'r uchod.

Mae [gwefan Rhwydwaith Gwledig Cymru](#) yn rhestru prosiectau a ariennir gan LEADER a ddarperir gan/trwy law GGLI ledled Cymru a allai ysbrydoli gweithgareddau tebyg yn Abertawe wledig a helpu i wireddu'r weledigaeth sydd gennym. Ar yr un wefan, ceir nifer o [astudiaethau achos a ffilmiau byr](#) ynghylch prosiectau arloesol a all roi rhywbeth i gnoi cil drosto i chi.

Bwriedir hefyd i'r amcanion uchod fod yn ehangach na chyllid LEADER y RhDG yn unig, e.e. eu bod yn cael eu defnyddio mewn unrhyw Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig a chynlluniau cynorthwyo Twristiaeth megis cronfa [Pethau Pwysig](#) a [Chronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru](#), y bydd y GGLI yn eu cefnogi ac yn eu cymeradwyo, neu'n dymuno ymgeisio amdanynt.

### 3.2 Cydweithredu a Rhwydweithio

Er mwyn cyflawni rhaglen lwyddiannus, mae'r GGLI yn deall bod yn rhaid iddo fod ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithgareddau'r GGLI eraill a'r gwersi a ddysgir ganddynt, ac mae'n agored i archwilio ffyrdd o sicrhau atebion i heriau cyffredin trwy gydweithredu.

Un ffordd o hwyluso hyn yw trwy law grŵp Swyddogion LAG rhanbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru, sy'n cyfarfod bob chwarter i drafod cynnydd, cydweithio posibl, rhannu profiadau dysgu a lledaenu arfer gorau. Bydd swyddogion yn rhannu eu strategaethau penodol, ac ystyrir themâu cyffredin lle gellid datblygu gweithgaredd cydweithredu. Mae'r cyfarfodydd hyn, a'r rhwydwaith e-bost, hefyd yn gyfle amhrisiadwy i drafod ffyrdd o weithio i gyflawni a rheoli prosiectau mor effeithlon a phriodol â phosibl.

PDG Abertawe ar hyn o bryd yw'r PDG arweiniol ar brosiect Cydweithredu o'r enw 'Datblygu Gweledigaethau a Rennir ar gyfer Tir Comin', sy'n cynnwys 5 GGLI arall ledled Cymru (COT, Powys, Caerffili, Torfaen, a Merthyr) ac mae disgwyl iddo ddechrau ym mis Mehefin 2020.

Erys llawer o botensial hefyd i archwilio cydweithredu, yn enwedig o amgylch ffocws un blaned y SDLI, a allai gynnwys lleoleiddio cadwyni cyflenwi, effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon, 'gwyrddu' y sector twristiaeth, neu leihau gwastraff. Bydd ffurfio partneriaeth gref ag aelodau allweddol sydd mewn sefyllfa dda ac a all estyn allan trwy eu rhwydweithiau eu hunain yn helpu i nodi a galluogi rhagor o gyfleoedd i gydweithredu yn lleol ac yn rhanbarthol, os nad yn ehangach, hefyd. Er bod gan PDG Abertawe gyllideb gymharol fach ar gyfer gweithgareddau cydweithredu, cydnabyddir bod llawer o werth - ariannol ac fel arall - yn cael ei ychwanegu trwy gydweithio.

Mae'r Datganiadau Ardal rhanbarthol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan CNC, hefyd yn cynnig cyfle i gydweithio rhwng GGLI.



### 3.3 Disgrifiad o Arloesedd

Mae ymateb i argyfyngau natur a'r hinsawdd yn gofyn am ddulliau arloesol - nid all 'busnes fel arfer' barhau. Eisoed, mae PDG Abertawe wedi cefnogi prosiectau newydd arloesol, megis Cae Tan, sef cynllun Amaethyddiaeth â Chymorth y Gymuned (CSA) mwyaf Cymru, ail brosiect CSA yn Abertawe wledig, a fferm ynni'r haul gyntaf y wlad sy'n eiddo i'r gymuned. Mae'r cyfle i dreialu cynhyrchion, gwasanaethau, neu ffyrdd newydd o weithio gan ddefnyddio egwyddorion LEADER sydd wedi'u hymgorffori yn y SDLI hon, yn parhau i gynnig potensial mawr i weithredu fel catalydd ar gyfer newid ar draws Abertawe a rhanbarth ehangach y de-orllewin.

Mae awydd cynyddol yn y sector preifat, y trydydd sector a'r sector cymunedol i 'wneud gwahaniaeth', ynghyd â rheidrydd i ganfod ffyrdd newydd a mwy cost effeithiol o ddarparu gwasanaethau. Ceir galw gan gynghorau cymunedol a grwpiau'r trydydd sector i weithio i fabwysiadu gwasanaethau lleol a gofynion thematig hefyd ynghylch, er enghraifft, cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol. Mae'n amlwg iawn bod atebion lleol yn dibynnu ar bobl, lleoedd ac adnoddau priodol yn dod at ei gilydd ar yr adeg iawn i alluogi datblygu atebion. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd ar lawr gwlad, nid o'r brig i lawr. Gwrando yn hytrach nag edrych yw'r ffordd ymlaen. Dyna beth fydd PDG Abertawe a'i swyddogion yn ei hwyluso yn Abertawe wledig.

Rhoddir pwyslais ar brosiectau sy'n cyflawni nifer o amcanion, buddion a chanlyniadau'r SDLI, megis: gwella/gwyrddu'r arlwy twristiaeth wrth greu canlyniadau a rennir ar gyfer cadwraeth natur neu gynhyrchwyr bwyd; neu, gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau lleol sy'n eiddo i'r gymunedau i helpu i dyfu microfusnesau/ busnesau sydd wedi'u lleoli yn y cartref tra'n cynhyrchu incwm i helpu i redeg y cyfleusterau er budd y gymuned ehangach. Yn wir, mae ethos un blaned yn gofyn am ddull sy'n cynnig buddion triphlyg, o safbwynt rheoli a defnyddio adnoddau yn gynaliadwy, yr economi a chymunedau, a natur.

Yn ychwanegol, o ganlyniad i'r cyfyngiadau a osodir gan bandemig coronafeirws, rydym yn gweld cymunedau a busnes yn addasu - yn dod yn fwy cydlynol a chydnerth, a pha un ai a yw hynny'n fwriadol ai peidio, yn sicrhau llawer o fuddion i'n hamgylchedd naturiol. Bydd Cynllun Datblygu Gwledig Abertawe yn ceisio cynorthwyo mentrau sy'n arloesi i ganfod dulliau newydd o ddarparu nwyddau a gwasanaethau mewn cymunedau gwledig wrth iddynt gyd-fynd â nifer o'n nodau a'n hamcanion strategol.

### 3.4 Cynllun Gweithredu

Cyfeiriwch at y Tabl Rhesymeg Ymyriadau yn *Atodiad I*. Diweddarir y tabl hwn yn dilyn yr ailbroffilio arfaethedig yn 2020.

### 3.5 Gweithgarwch hyrwyddo

Mae'r adran hon yn amlinellu Cynllun Cyfathrebu'r Strategaeth Datblygu Gwledig yn unol ag arweiniad a gofynion Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Y prif amcan yw darparu deunyddiau marchnata a chyfathrebiadau effeithiol sy'n codi ymwybyddiaeth o LEADER, pwrpas y rhaglen a'i buddion i ardal Abertawe.

### **Hysbysebu cyfleoedd y rhaglen**

Caiff nifer o ddulliau cysylltiedig eu defnyddio i hysbysebu'r cymorth sydd ar gael trwy'r rhaglen. Mae'r dulliau ymgysylltu yn cynnwys:-

- Diweddarau tudalennau gwe'r RhDG, [www.swansea.gov.uk/rdp](http://www.swansea.gov.uk/rdp), yn rheolaidd;
- Diweddarau sianeli cyfryngau cymdeithasol y PDG yn rheolaidd.
- Hyrwyddo cyfleoedd rhwydweithio trwy'r sianeli cyfathrebu a nodir uchod a rhai eraill;
- Presenoldeb mewn digwyddiadau a sioeau lleol megis Sioe Gŵyr ym mis Awst a digwyddiadau rheolaidd eraill yng nghalendr Abertawe wledig;
- Hyrwyddo gweithgaredd trwy restrau dosbarthu gan gynnwys y Gronfa Ddata Wledig, Partneriaeth Bwyd Abertawe a rhwydweithiau GGLI PDG Abertawe;
- Cyflwyniadau i bartïon a sefydliadau sydd â diddordeb;
- Taflenni a deunydd astudiaethau achos a gaiff eu datblygu a'u cyhoeddi wrth i'r rhaglen ddatblygu.
- Cymorthfeydd allgymorth a gaiff eu sefydlu yn y gymuned i gynorthwyo i sbarduno a chael adborth gan ein cymunedau gwledig.
- Datblygu ffyrdd digidol newydd o weithio i gyrraedd demograffig ehangach ac i leihau ôl troed carbon y rhaglenni, gan gynnwys cyflwyniad fideo i'r dull Un Blaned newydd a fabwysiadwyd gan y bartneriaeth, gan esbonio'r weledigaeth ar gyfer y rhaglen gan gynnwys y rhaglen flaenorol a'r un bresennol;
- Aelodau GGLI PDG Abertawe yn dod yn amlycach ac yn gwneud mwy o weithgarwch i hyrwyddo'r cymorth a'r wybodaeth arbennig sydd ar gael.

Caiff adborth ailadroddol rheolaidd ei ddefnyddio rhwng y GGLI a Swyddogion y GGLI i gynorthwyo i dargedu grwpiau a buddiannau penodol.

### **Cyhoeddi canlyniadau ac effaith y strategaeth**

Parheir â'r dulliau presennol o grynhoi gweithgareddau trwy gyfrwng tudalennau gwe y rhaglen. Gweithredir dull wedi'i dargedu ar gyfer datganiadau i'r wasg, erthyglau hysbysu yn y wasg leol, ac os bydd cynrychiolwyr ar gael, bod â phresenoldeb mewn digwyddiadau lleol i ddarparu rhagor o gyfleoedd i hyrwyddo canlyniadau ac effaith y Strategaeth wrth iddi ddatblygu.

### **Lledaenu arfer gorau**

Bydd yr amrywiaeth o ddulliau a amlinellwyd uchod yn cael eu defnyddio i sicrhau bod enghreifftiau o arfer gorau'n cael eu rhannu'n lleol yn rhanbarthol a lle bo'n briodol, yn genedlaethol. Bydd adrodd rheolaidd rhwng Swyddogion y GGLI, prosiectau a'r GGLI yn hwyluso nodi astudiaethau achos addas i'w cyhoeddi. Caiff digwyddiadau lledaenu

rheolaidd eu hystyried yn ystod y rhaglen i ddod â phobl ynghyd er mwyn dangos enghreifftiau da o arfer gorau yn ôl thema neu sector, fel y bo angen.

### **Cydnabod cymorth yr Undeb Ewropeaidd**

Bydd yr holl ddogfennaeth ym mhob cyfrwng yn cydnabod cymorth yr Undeb Ewropeaidd drwy ddefnyddio'r logos swyddogol cytunedig, a'r fformiwla geirio gytunedig ar gyfer datganiadau i'r wasg a gohebiaeth ysgrifenedig arall. Caiff cymorth yr UE ei gydnabod ar lafar hefyd mewn digwyddiadau a chyfarfodydd fel sy'n briodol. Rhoddir pecyn cyfryngau i'r sefydliadau sy'n cyfranogi yn amlinellu'r gofynion o ran cydymffurfio a sicrhau ansawdd yn achos rhaglenni a ariennir gan LEADER

### **Cyhoeddusrwydd Blynyddol i Ddiwrnod y Ddaear**

Rhoddir cyhoeddusrwydd i [Diwrnod y Ddaear](#), sef yr 22ain Ebrill, i ddathlu a chodi ymwybyddiaeth yng nghymunedau gwledig Abertawe am fudiad amgylcheddol mwyaf y byd i symbylu newid trawsnewidiol i bobl a'r blaned. Mae'n gyfle i Abertawe werthuso ei rôl yn yr argyfwng amgylcheddol presennol a gweithredu'n gadarnhaol a chynaliadwy. Bydd y rhaglen yn rhyddhau cyfres o gyfathrebiadau yn unol â'r thema flynyddol yn y cyfnod cyn Diwrnod y Ddaear trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol; sianeli a rhwydweithiau sefydliadau; a chysylltiadau cyhoeddus yn dangos y berthynas rhwng ein planed, Abertawe a'r gwaith a gyflawnir trwy law y RhDG.

### **Cynyddu ymwybyddiaeth i gyfranogwyr/mentrau**

Bydd yr holl ohebiaeth a dulliau cyfathrebu â chyfranogwyr a mentrau sy'n derbyn cymorth gan y rhaglen yn rhoi gwybodaeth am gyfraniad ariannol yr UE drwy'r mesurau amrywiol a amlinellir uchod. Bydd unrhyw ddyfarniadau ariannol yn cydnabod yn glir y rhaglen benodol, rheoliadau perthnasol yr UE a'r defnydd o logos yn eglur.

Yn ychwanegol, bydd yr holl gyfranogwyr a'r mentrau yn derbyn gwybodaeth am ffocws newydd Un Blaned, gan gynnwys negeseuon allweddol ac awgrymiadau defnyddiol ynghylch sut i weithredu'r dull hwn ym mhob agwedd o'u prosiectau.

### **Cydllynu â Thîm Cyfathrebu RhDG Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith Gwledig Cymru**

Mae cysylltu â thimau canolog yn Llywodraeth Cymru yn ffordd fuddiol o sicrhau ymwybyddiaeth genedlaethol o weithgarwch lleol a rhanbarthol a sicrhau y gellir rhannu arferion da a rhoi cyhoeddusrwydd i hynny mewn modd effeithiol. Anfonir manylion yr holl brosiectau LEADER a gaiff eu cymeradwyo at Rwydwaith Gwledig Cymru i'w cyhoeddi ar eu gwefan. Caiff cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru eu hysbysu'n gynnar am ddigwyddiadau a datganiadau i'r wasg er mwyn sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf posib i'r RhDG yn genedlaethol ac yn lleol.

I weld trosolwg o Gynllun Cyfathrebiadau RhDG Abertawe – Camau Gweithredu ynghylch Datblygu a Gweithredu RhDG Abertawe, trowch at Atodiad D.

## ADRAN 4 – RHEOLI'R GWAITH

Disgrifiad	Egluro sut mae gan y Grŵp Gweithredu a'i Gorff Gweinyddol etholedig y capasiti a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i lwyddo i gyflenwi'r canlyniadau cynlluniedig, dangosyddion allbwn a gweithgareddau.
Yn gysylltiedig ag	Rhan o Adran 3.11 Canllawiau'r SDLL Mehefin 2014 (y gweddill i'w gynnwys dan Adran 2 – Cyllidol a Chydymffurfiaeth)

### 4.1 Rheoli a Gweinyddu

Cyngor Abertawe yw corff gweinyddol lleol y rhaglen. Y prif angen yn ardaloedd gwledig Abertawe yw i hwyluswyr profiadol allu gweithio mewn cymunedau gyda microfentrau, grwpiau cymunedol a'r amrywiaeth eang o randdeiliaid lleol eraill i ychwanegu at lwyddiant y RhDG flaenorol a dechrau mynd i'r afael â'r materion â gwreiddiau dyfnach sydd heb eu datrys ac sy'n parhau i lethu datblygiad economaidd a chymdeithasol cynaliadwy a chytbwys yn y wardiau gwledig.


Bydd yr adnodd staff ynghyd â chronfa ddatblygu fechan dros gyfnod y rhaglen yn golygu y gellir cynnal gwaith datblygu gallu a dichonoldeb, â chyllid ar gyfer prosiectau peilot yn cael ei gefnogi i ategu'r gwaith hwnnw. Amlinellir strwythur y tîm isod.

#### **Gweinyddu a Sbarduno (25%)**

Cyfrifir costau gweinyddol ar uchafswm o 10% o gyllideb gyffredinol y RhDG, a dyrennir 15% ar gyfer gweithgareddau 'sbarduno', h.y. hyrwyddo a gwerthuso'r strategaeth. O ran costau staffio, rhagwelir y bydd 1.4 x CALI yn gwneud gwaith gweinyddol (0.55 CALI) a sbarduno (0.85 CALI) ar draws costau gweithredol gweinyddol a gweithgarwch sbarduno mewn perthynas â'r strategaeth hon. Mae'r dyraniad staffio'n gymesur â maint dangosol y rhaglen, ar y sail y bydd nifer llai o brosiectau a gynorthwyr yn lleol a strwythur cyflawni symlach, fel yr amlinellir isod. Sefydlir systemau i sicrhau bod llwybrau archwilio'n cydymffurfio'n llwyr ond mor fyr â phosibl.

#### **Cyflawni rhaglen LEADER (75%)**

Ar hyn o bryd, cyflogir Swyddogion Rhaglenni Cyllid Allanol (0.85 X CALI) a Swyddog Cyllid Allanol (0.5 x CALI) i weithio ar draws y themâu a'r amcanion a ddisgrifir yn y strategaeth, gan ymateb i anghenion lleol wrth i'r rhaglen ddatblygu. Mae cronfa ddatblygu gwerth £525,000 ar gael i'r swyddogion hyn sydd wedi'i neilltuo o fewn y dyraniad 7 mlynedd ddangosol i alluogi ariannu mentrau a gweithgareddau arbrofol yn ystod cyfnod y rhaglen. Mae hyn yn gyfwerth â £75,000 y flwyddyn a bydd yn canolbwyntio ar brosiectau peilot bychan sy'n deillio o adeiladu galluedd a rhwydweithio yn y wardiau gwledig a'r canolfannau gwasanaethu.



**Ffigur 10:** Strwythur RhDG Abertawe

Mae rhaglen â ffocws mwy pendant yn deillio o'r strwythur hwn, gan ddarparu'r adnodd i'w ddefnyddio gan y GGLI i hwyluso rhaglen lawn o rwydweithio ac ymgynghori, adborth uniongyrchol i'r GGLI i alluogi trafod blaenoriaethau'n briodol, ac adnoddau gweinyddol digonol i reoli'r prosiectau deilliannol. Mae tîm y RhDG yn gweithio i aelodau'r GGLI er mwyn sicrhau proses o'r gwaelod i fyny o nodi rhaglenni gwaith ac ymyriadau manwl gan ddefnyddio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Mae'r model hwn yn darparu'r cydbwysedd gorau rhwng adnoddau staffio, arbenigedd gan y GGLI, cymorth gweinyddol a chymorth ynghylch polisi gan y Corff Gweinyddol i alluogi cyflawni'r SDLI yn effeithiol.

**Sgiliau a hyfforddiant staff**

Mae cymhlethdod y systemau a'r gweithdrefnau i gynnal y rhaglen yn golygu bod ar dîm craidd y prosiect angen lefel penodol o sgiliau. Cynorthwyr y tîm gan y Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol a'r Rheolwr Datblygu Economaidd, sy'n rheolwyr llinell i'r tîm. Mae gan y ddau ohonynt brofiad o gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni ystod o raglenni Ewropeaidd a rhaglenni eraill a ariennir yn allanol gan gynnwys Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-2013 yn Abertawe. Defnyddir arfer da o'r rhaglen flaenorol, a ddatblygwyd gan ddefnyddio canllawiau newydd a sefydlwyd ar gyfer rownd 2014-2020, i uwchsgilio staff newydd i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu

cyflawni'n effeithlon. Mae hyfforddiant ar gael hefyd i aelodau newydd a phresennol y GGLI i'w diweddarau ynghylch paramedrau'r rhaglen.

Yn ychwanegol, mae cyfarfod Swyddogion RhDG rhanbarth de a gorllewin Cymru yn ffynhonnell allweddol o arferion gorau ac yn gyfle allweddol i swyddogion rannu'r arferion hynny, datrys problemau a chynorthwyo ei gilydd.

## ADRAN 5 – GWERTH AM ARIAN

Disgrifiad	Egluro sut mae'r gweithredoedd a'r gwariant arfaethedig a amlinellir yn y Strategaeth yn gwneud y defnydd gorau o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd. Egluro sut mae'r costau a gynhwysir yn rhesymol, megis cost a nifer y staff sy'n ofynnol i gyflenwi'r gweithgareddau arfaethedig.
Yn gysylltiedig ag	Adrannau 3.4 a 4.0 o Ganllawiau'r SDLI Mehefin 2014 Mae manylion Adran 3.4 eisoes wedi'u darparu yn Adran 3.4 y templed hwn (Rhesymeg Ymyrryd)

### 5.1 Proffiliau Cyflawni Ariannol

Rhoddir terfyn ar gostau rhedeg ar y canrannau diffiniedig ac fe'u hariennir 100%. Mae costau'r pedair swydd a nodwyd – Cynorthwydd Cyllid Allanol (0.5 x CALI), Swyddog Cyllid Allanol (0.5 x CALI) a Swyddogion Rhaglenni Cyllid Allanol (1.5 X CALI) – ar lefel Graddau 6, 8 a 9 Cyngor Abertawe, ynghyd ag ychwanegiadau blynyddol a chan gynnwys argostau sy'n 35.4%, gan gynnwys cyfraniadau YG a phensiwn.

Nodir arian cyfatebol yn 20% o amser gwirfoddoli ac amser staff o swydd y Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol y defnyddir arian craidd i'w hariannu. Rydym yn awyddus i ystyried costau anuniongyrchol a fyddai'n rhan o'r cyfraniad arian cyfatebol. Dros dro, mae'r dyraniad amser yn erbyn swydd y Swyddog Ewropeaidd wedi cael ei gynyddu i ganiatáu am hyn, ond caiff ei ddisodli gan ddull y costau anuniongyrchol, pan fyddir wedi cytuno ar hynny.

## ADRAN 6 – DANGOSYDDION A CHANLYNIADAU

Disgrifiad	Egluro sut mae'r Grŵp Gweithredu'n bwriadu cyflenwi'r dangosyddion canlyniadau ac allbynnau a nodwyd a'r holl dargedau cysylltiedig.
Yn gysylltiedig ag	Adran 4.1 Canllawiau'r SDLI Mehefin 2014

### 6.1 Monitro a Chanlyniadau

Gwnaed dosraniad safonol sylfaenol ar draws 5 Thema Genedlaethol LEADER ar ddechrau'r prosiect. Fodd bynnag, gwnaed ailasesiad manwl yn gynnar yn 2020 i ailystyried allbynnau gan ystyried y prosiectau a gymeradwywyd hyd yn hyn ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru fel rhan o ymarfer ail-broffilio'r rhaglen.

Pennir wyth dangosydd cenedlaethol ar gyfer gweithgarwch LEADER, ac mae pedwar dangosydd yn cyfrannu at y Thema Trawsbynciol.

#### 1. Nifer yr astudiaethau achos:

Yn seiliedig ar drafodaethau a gweithdai a gynhaliwyd gyda'r GGLI a rhanddeiliaid, daeth yn amlwg bod angen cyfres o astudiaethau dichonoldeb/cwmpasu i ystyried nifer o weithgareddau. Mae hyn yn darparu dull strategol a chydlynol ynghylch ymyriadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod dyblygu'n cael ei osgoi. Mae'r astudiaethau dichonoldeb/cwmpasu presennol yn cynnwys:-

- Rhwydwaith Cludiant Cynaliadwy Abertawe Wledig yn cynnwys ffyrdd, cerdded, beicio a chludiant cymunedol cynaliadwy;
- Canolfan Adnoddau/Ymwelwyr yn Abertawe Wledig i nodi a meintioli anghenion busnes/mentrau/preswylwyr ac ymwelwyr Abertawe wledig;
- Dichonoldeb Prosiect Gwrthbwysio Carbon Cymunedol i ddatblygu menter gymdeithasol trwy blannu coed sy'n tarddu'n lleol ac sy'n cael eu tyfu gan y gymuned.

#### 2. Nifer y rhwydweithiau a sefydlir:

Mae cyfle ar gael i gynnal prosiect rhwydweithio o dan bob un o bum thema LEADER: Bydd gwaith dilynol yn dibynnu ar sut bydd rhaglen LEADER yn datblygu. Os bydd rhwydweithio a datblygu galluedd yn llwyddiannus, gall gwaith i gynnal astudiaeth dichonoldeb/cwmpasu gychwyn. Yna, gallai hyn gael ei brofi gan un neu ragor o brosiectau peilot. Yn ychwanegol, mae prosiect Llais Cymunedol Gwledig Abertawe wedi sefydlu nifer o rwydweithiau wrth i'r prosiect gael ei weithredu.

#### 3. Nifer y swyddi a ddiogelir trwy gyfrwng prosiectau a gynorthwyr:

Swyddi a ddiogelir yw'r allbwn anoddaf i'w gyflawni gan ystyried graddfa fechan y mentrau y mae'r rhaglen yn bwriadu cydweithio â hwy, fel arfer ffracsionau o swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn. Bydd ymagwedd fwy penodol a gynigir trwy raglen 2014-2020 yn cael ei defnyddio.

#### 4. Nifer y prosiectau peilot a gynhelir/gynorthwyr:

Yn unol â nifer yr astudiaethau dichonoldeb/cwmpasu mae'r GGLI yn eu harchwilio ar hyn o bryd, mae'n debyg y bydd gwaith dilynol yn digwydd mewn perthynas â'r rhaglenni peilot.

Mae gweithgareddau peilot uniongyrchol hefyd wedi cael eu cynnal trwy brosiectau sydd ar y gweill megis Cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Cymunedol Gŵyr a Marchnad y Mill.

#### 5. Nifer yr hybiau cymunedol:

Bydd y GGLI yn archwilio gwaith cwmpasu a wnaiff ystyried y cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd a bydd yn nodi cyfleoedd i sefydlu hybiau newydd neu rai gwell a wnaiff helpu i ddatblygu cymunedau cydnerth sy'n cyfranogi.

#### 6. Nifer y camau lledaenu gwybodaeth/gweithgareddau hyrwyddo a/neu farchnata i godi ymwybyddiaeth o'r SDLI a/neu ei phrosiectau.

Fel yr amlinellir yn y cynllun cyfathrebu, bydd y GGLI a'i swyddogion yn cynnal digwyddiadau hyrwyddo i ledaenu gwybodaeth a manylion cyfleoedd i gael arian. Ategir hyn gan y gweithgarwch hyrwyddo penodol sy'n cael ei gynnal gan y prosiectau sydd wedi cael eu cymeradwyo.

#### 7. Nifer y rhanddeiliaid sy'n cyfranogi:

Mae'n anodd meintioli'r cyfanswm hwn ar yr adeg hon yn ystod gweithrediad y prosiect. Fodd bynnag, rhagwelir cyfanswm o 50 ar draws y nodau strategol.

#### 8. Nifer y cyfranogwyr a gynorthwyr:

Bydd y GGLI yn archwilio'r holl ddulliau o sicrhau y caiff cyfranogwyr eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu'r rhaglen.

Yn sgil y strategaeth ddiwygiedig hon, bydd y Corff Gweinyddol hefyd yn datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n adlewyrchu'r dull Un Blaned ac yn cyd-fynd â hynny. Ar ôl eu llunio, byddant yn cael eu cynnwys fel atodiad i'r strategaeth.

## **6.2 Cynllun Gwerthuso**

### **Gwerthuso Perfformiad yn erbyn y CDLI**

Bydd y GGLI yn erbyn adroddiadau chwarterol manwl am gynnydd yn erbyn nodau ac amcanion yr SDLI gan swyddogion y RhDG. Bydd hynny'n galluogi gwerthuso perfformiad yn rheolaidd ac yn sicrhau fod gweithgarwch y rhaglen yn parhau i adlewyrchu gweledigaeth, nodau ac amcanion y SDLI. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys:-

- Cadarnhau nifer y prosiectau a gwblheir ac a gymeradwyir, a Themâu LEADER.
- Rhoi adroddiad am gynnydd yn ystod y chwarter blaenorol
- Cynnydd yn erbyn allbynnau LEADER
- Astudiaeth(au) Achos
- Digwyddiadau
- Cydweithredu
- Risgiau a heriau presennol
- Monitro perfformiad presennol prosiectau gan gynnwys statws Coch/Oren/Gwyrdd



- Crynodeb o'r Gyllideb a Dyranïadau
- Ystyriaethau'r rhaglen
- Gwariant hyd yn hyn yn erbyn y proffil
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

### **Methodoleg i werthuso buddion gweithgarwch LEADER**

Bydd y GGLI yn cydweithredu â thîm Monitro a Gwerthuso Ymchwil Llywodraeth Cymru i ddilyn arfer gorau wrth werthuso'r SDLI a rhaglen LEADER.

Bydd gwerthusiad dros dro yn cael ei gomisiynu yn ystod haf 2020, a bydd gwerthusiad terfynol yn digwydd yn 2023.

Bydd y gwerthusiad dros dro yn gwneud y canlynol:-

- Adolygu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu rhwng y Corff Gweinyddol a'r GGLI;
- Adolygu effeithiolrwydd y GGLI, ei aelodaeth a'i rôl o ran gweithredu'r SDLI;
- Asesu gwaith y SDLI mewn perthynas â'r rhaglen waith ddatblygol a sefydlir yn flynyddol gan y GGLI;
- Asesu effaith cyflawni'r SDLI ar y meysydd gwaith y bydd y GGLI yn dewis canolbwyntio arnynt, gan gynnwys gweithdai penodol ar gyfer aelodau'r GGLI a noddwyr prosiectau fel sy'n briodol;
- Ymgymryd â gwaith maes gyda buddiolwyr y SDLI i asesu effeithiolrwydd y rhaglen;
- Defnyddio data a gesglir gan y Corff Gweinyddol a phrosiectau i gynorthwyo i sicrhau fod adnoddau cyfyngedig yn mynd ymhellach.

### **Manylion Data Gwaelodlin**

Yn ddelfrydol, bydd adroddiad sylfaenol yn cael ei lunio gan ddefnyddio'r fersiwn gyfredol o SDLI gyfredol y rhaglen. Daw gwybodaeth waelodlin o adran nodweddion y strategaeth. Bydd hefyd yn bosib, lle bo'n briodol, i gyfeirio at ddangosyddion i'w cytuno ar gyfer Strategaeth Adfywio Dinas-ranbarth Bae Abertawe a Chynllun Cyflwyno Rhanbarthol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaeth De-orllewin a Chanolbarth Cymru.

### **Esboniad a chyfiawnhad o'r dull gwerthuso a ddewiswyd yn ystod oes y gwaith neu'r gweithgarwch (ffurfiannol) ac ar ddiwedd y gwaith neu'r gweithgarwch (crynodol)**

Bydd y broses werthuso'n cynnwys lefel priodol o waith maes (cysylltiad uniongyrchol â buddiolwyr prosiectau) wedi'i chysylltu'n ôl ar bob cam o'r broses â dylunio'r SDLI a'r dylanwadau ar hyn.

Bydd y gwerthuso yn darparu ymagwedd 'ffrind beirniadol' at herio prosiectau wrth eu rhoi ar waith i alluogi cyfleoedd i wneud gwelliannau yn ystod oes y SDLI. Mae'r cynnig ar gyfer adolygiad blynyddol trylwyr o'r SDLI yn tanlinellu'r angen am herio allanol rheolaidd. Bydd cyfleoedd i werthuswr allanol ystyried 'manteisio' ar gyfleoedd

ymgyngori, cyfarfodydd rheolaidd â'r GGLI neu adolygiadau o brosiectau i leihau costau yn cael eu hystyried.

Llunnir adroddiad crynodol terfynol sy'n ychwanegu at werthusiad 2020 a bydd yn darparu trosolwg o weithredu'r SDLI i nodi llwyddiannau, arferion da a meysydd i'w gwella mewn unrhyw raglenni posibl yn y dyfodol.

## ADRAN 7 – ADDASRWYDD BUDDSODDI

Disgrifiad	Egluro'r angen a'r galw am y Grŵp Gweithredu a'r gweithredoedd a nodir yn y Strategaeth ac a yw'r galw hwn eisoes yn cael ei fodloni trwy ddarpariaeth gyfredol. Egluro sut y bydd y Grŵp Gweithredu'n gallu cyflenwi'r gweithgaredd arfaethedig yn llwyddiannus.
Yn gysylltiedig ag	Adrannau 3.2 a 3.3 o Ganllawiau SDLI Mehefin 2014

### 7.1 Disgrifiad o'r broses o gynnwys y gymuned wrth ddatblygu'r strategaeth

Mae'r GGLI yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid, unigolion, cymunedau, asiantaethau a darparwyr gwasanaethau wrth lunio a chyflawni'r SDLI.

Mae dros 250 o sefydliadau'n rhan o restr bostio GGLI Abertawe, sy'n cael ei defnyddio er mwyn rhoi diweddariadau a chyfnewid gwybodaeth. Gyda'r rhwydweithiau hyn ar waith, a dealltwriaeth dda sy'n deillio o gyfranogi yn y RhDG bresennol ar draws ein partneriaid a'n rhwydweithiau, mae ein cymunedau gwledig yn cael eu cynnwys yn dda. Mae sgysiau rheolaidd mewn is-grwpiau a chyfarfodydd llawn y SDLI, a thrwy weithgareddau Sbarduno, ynghylch fersiwn flaenorol y SDLI, cyflawniadau hyd yn hyn a pha flaenoriaethau y dylid eu pennu at y dyfodol y dyfodol wedi llunio'r themâu a'r amcanion strategol cyfredol ar gyfer y Strategaeth.

Fel rhan o'r adolygiad o'r SDLI hon, cynhaliwyd dadansoddiad o randdeiliaid/ymarfer mapio a chafwyd y canlyniadau dilynol:

#### **Tabl 7: Map Rhanddeiliaid: Trowch at dudalennau 58-59**

**Tabl 7: Map Rhanddeiliaid**

Grym Sylweddol/Diddordeb Isel	Grym Sylweddol/Diddordeb Sylweddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adrannau'r Cyngor, e.e. Cynllunio</li> <li>• Tirfeddianwyr gwledig</li> <li>• Parciau diwydiannol/parthau menter</li> <li>• Marchnad Abertawe</li> <li>• Marchnadoedd Cynnyrch Lleol</li> <li>• Y Sector Iechyd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyngorau Cymuned Gwledig</li> <li>• Grwpiau sydd wedi ennill eu plwyf - Cymdeithas Gŵyr, Cerddwyr Abertawe, Partneriaeth Pontarddulais, Fforwm AHNE Gŵyr, grwpiau ffermio</li> <li>• Trefnwyr gwyliau</li> <li>• Adrannau'r Cyngor, e.e. Twristiaeth, AHNE</li> <li>• Y sawl sy'n gyfrifol am yr ymateb i argyfyngau'r hinsawdd a natur</li> <li>• Fforwm Amgylcheddol Abertawe</li> <li>• Abertawe Carbon Isel</li> <li>• Adfywio Cymru</li> <li>• Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd</li> <li>• Adfywio Abertawe</li> <li>• Fforymau Twristiaeth</li> <li>• Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe</li> <li>• Arbenigwyr ar bynciau penodol – cludiant cyhoeddus/carbon isel/effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy/gwastraff</li> <li>• Aelodau'r cabinet/eiriolwyr</li> <li>• Partneriaeth Bwyd Abertawe</li> <li>• CNC</li> <li>• Prifysgol Abertawe/Prifysgol y Drindod Dewis Sant</li> <li>• Bwrdd Iechyd Cyhoeddus</li> <li>• Rhwydwaith Gwledig Cymru – Llywodraeth Cymru</li> <li>• Menter a Busnes</li> <li>• Grŵp Awdurdodau Perthnasol Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin</li> <li>• Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe</li> <li>• Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Abertawe</li> <li>• Partneriaeth natur leol</li> </ul>

Grym Isel/Diddordeb Isel	Grym Isel/Diddordeb Sylweddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgolion</li> <li>• Clybiau chwaraeon</li> <li>• Grwpiau sgowtiaid a geidiaid</li> <li>• Pobl leol (sydd ddim yn cyfranogi)</li> <li>• Busnes Cymru</li> <li>• Cynlluniau hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Microfusnesau (bwyd, twristiaeth ac ati)</li> <li>• Busnesau Bychan a Chanolig/Cwmnïau Budd Cymunedol/Mentrau Cymdeithasol</li> <li>• Grwpiau cymunedol bychan – Grwpiau Cyfeillion</li> <li>• Pobl leol (sy'n cyfranogi)</li> <li>• Partneriaethau/grwpiau busnes</li> <li>• VocalEyes</li> <li>• Grwpiau rhandiroedd/bwyd</li> <li>• Urban Foundry</li> <li>• Sefydliadau bywyd gwyllt/cadwraeth</li> <li>• Marchnad Cynhyrchwyr Gwledig Lleol</li> <li>• 4TheRegion</li> </ul>

Mae Partneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe'n parhau i ddenu nifer dda o bobl ac mae wedi aeddfedu'n dda yn ei rôl fel ceidwad y SDLI bresennol. Ar ôl cwblhau'r adolygiad hwn o'r SDLI a chan ystyried canfyddiadau'r ymarfer mapio rhanddeiliaid, bydd aelodaeth yn destun adolygiad a bydd gwahoddiad agored yn dilyn hynny; er bod yn rhaid sicrhau fod maint cyffredinol y grŵp yn ymarferol, mae'r Partneriaeth yn agored i aelodau newydd. Mae'r adolygiad o aelodaeth yn sicrhau cysondeb â themâu newydd y SDLI hon a bydd yn elwa'n llawn o ddiddordeb gan aelodau newydd sy'n barod i gyfranogi yn y broses.

Mae'r cynllun cyfathrebu (gweler atodiad D) yn dwyn sylw at rai camau penodol y bydd y GGLI a'i swyddogion yn eu gweithredu trwy gydol y broses o ddatblygu a gweithredu'r rhaglen i godi ymwybyddiaeth o'r RhDG/LEADER a'r SDLI hon ymhlith cymunedau ehangach Abertawe wledig.

## 7.2 Dadansoddiad SWOT i ddangos anghenion datblygu a photensial yr ardal arfaethedig

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno dadansoddiad cryno o'r sefyllfa bresennol yn Abertawe wledig, gan nodi'r prif gyfleoedd a phroblemau. Mae'r canfyddiadau hyn wedi arwain at fireinio'r nodau a'r amcanion strategol diweddaraf i ddarparu blaenoriaethau allweddol ymyriadau yn Abertawe wledig. Cyfeiriwch at adran 3.

### Tabl 8: Dadansoddiad – Trosych at dudalennau 60 – 61

**Tabl 8: Dadansoddiad SWOT**

Cryfderau	Cyfleoedd
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr</li> <li>• Amgylchedd naturiol o'r radd flaenaf sydd hefyd yn darparu ystod eang o wasanaethau ecosystem ac adnoddau naturiol</li> <li>• Ardaloedd helaeth o amgylcheddau arfordirol a mewndirol heb eu difetha ger craidd trefol sy'n cynnwys nifer o ddynodiadau cadwraeth natur</li> <li>• Nifer fawr o ficrofentrau cynhenid yn y sectorau twristiaeth, amaethyddol a chrefftau</li> <li>• Gwyliau blynyddol poblogaidd, e.e. Sioe Gŵyr, Gŵyl Gŵyr, Sioe Amaethyddol Flynyddol Pontarddulais</li> <li>• Ystod o ddeunyddiau marchnata twristiaeth integredig a seilwaith ar raddfa fach o raglenni 2007-2013</li> <li>• Rhwydweithiau a grwpiau buddiant lleol: twristiaeth, cynhyrchwyr bwyd a chreffft, Partneriaeth yr AHNE, grwpiau cymunedol, ac ati</li> <li>• Ffocws sy'n datblygu'n barhaus ar gynnyrch a bwyd lleol trwy ystod o sefydliadau a busnesau (Amaethyddiaeth â Chymorth y Gymuned, FarmCo, Cig Oen Morfa Heli Gŵyr, ac ati)</li> <li>• Strategaeth seilwaith gwyrdd sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd (Ebrill 2020)</li> <li>• Sylfaen gref a diddordeb mewn datblygu gweithgareddau a phrosiectau yn y dyfodol sy'n cydfynd â gweledigaeth Un Blaned</li> <li>• Gwaddol prosiectau a ariannwyd eisoes sy'n cyflawni yn erbyn gweledigaeth Un Blaned.</li> <li>• Mae'r strategaeth newydd yn integreiddio'n dda â nifer o strategaethau / polisiau allweddol ac yn eu hategu - gan arwain at gyllid posibl yn y dyfodol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynediad at welliannau i isadeiledd ac adeiladau o raglenni cyllido blaenorol yr UE, e.e. Parc Busnes Felindre, cyfleusterau niferus ar draws y wardiau gwledig</li> <li>• Cyfleoedd yng Nghanol Dinas Abertawe ar gyfer cysylltiadau gwlad a thref megis bwyd a chysylltiadau cludiant cynaliadwy</li> <li>• Cyfleoedd i werthuso dewisiadau ynni yn y gymuned</li> <li>• Gwneud defnydd gwell o gyfleusterau ac isadeiledd presennol, e.e. datblygu canolfan ymwelwyr, a chysylltu â llwybrau cerdded/beicio</li> <li>• Ymdrechion a wneir i gynorthwyo â chydlyniant cymunedau, yn enwedig yn sgil argyfwng y ffoaduriaid.</li> <li>• Archwilio ffrydiau cyllid y dyfodol a rhai amgen</li> <li>• Dulliau o weithio yn y dyfodol yn dilyn newidiadau mawr megis Brexit/diwedd y rhaglen – ffyrdd newydd o wneud pethau, cyfle i gynorthwyo'r gymuned</li> <li>• Ymchwilio i ymatebion y gymuned a busnesau yn Abertawe wledig i gynyddu cydnerthedd yn ystod ac wedi argyfwng COVID-19</li> <li>• Mae gan fusnesau twristiaeth gyfle i ailddyfeisio/ystyried dewisiadau eraill megis y farchnad eco-dwristiaeth o ganlyniad i'r tarfu yn sgil COVID-19</li> <li>• Cynyddu'r galw am gynnyrch lleol/gwasanaethau eraill yn ystod argyfwng COVID-19, y gellid ei ddefnyddio i fyrhau cadwyni cyflenwi a datblygu'r economi gylchol</li> <li>• Sector y celfyddydau a Stiwdios Agored</li> </ul>

Gwendidau	Bygythiadau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canfyddiadau negyddol o'r gallu i ymgymryd â datblygu yn sgil gofynion cynllunio</li> <li>• Bylchau o ran cerdded a beicio ac argaeledd gwael cludiant cyhoeddus</li> <li>• Argaeledd cyfleusterau twristiaeth o ansawdd dda mewn lleoliadau allweddol, e.e. parcio neu gyfleusterau i ymwelwyr</li> <li>• Cyfathrebu/mynediad i'r rhyngryd/rhwydwaith ffonau symudol</li> <li>• Diffyg strategaeth ymadael – dyfodol y bartneriaeth wedi'r RhDG bresennol</li> <li>• Cyllideb gyfyngedig ar gyfer prosiectau, anodd cyflawni effeithiau tymor hir</li> <li>• Diffyg ymwybyddiaeth o'n strategaeth a'n gweledigaeth, ac eithrio ymhlith 'y wynebaw arferol'</li> <li>• Diffyg ymgysylltu â rhai sectorau allweddol yn cynnwys ffermio ac ieuenctid</li> <li>• Nid oes gan Abertawe wledig fesur gwaelodlin o ôl troed ecolegol i olrhain cynnydd yn ei erbyn</li> <li>• Ar waethaf datblygiadau calonogol o ran cynhyrchu bwyd yn lleol, mae Abertawe wledig yn dal yn hynod o ddibynnol ar adnoddau allanol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dirywiad gwasanaethau gwledig</li> <li>• Gostyngiad ym mhoblogaeth y gymuned</li> <li>• Atgofion yn parhau am fentrau cydweithredol aflwyddiannus, e.e. Gower Growers</li> <li>• Tai fforddiadwy – prisiau'r farchnad dai yn rhy ddrud i breswylwyr lleol</li> <li>• Datblygiadau amhriodol</li> <li>• Cynaliadwyedd tymor hir gwasanaethau a chyfleusterau</li> <li>• Tlodi gwledig yn rhai o'r wardiau</li> <li>• Argyfyngau'r Hinsawdd a Natur a dirywiad bioamrywiaeth</li> <li>• Cyllid tymor hir ar gyfer Datblygu Lleol Dan Arweiniad y Gymuned wedi Brexit</li> <li>• COVID-19; ei effaith ar gymunedau a busnesau gwledig</li> <li>• Polisiâu a datblygiadau a all wrthdaro â gweledigaeth y strategaeth neu fygwth y weledigaeth honno</li> <li>• Adwerthwyr mawr/siopau cadwyn y stryd fawr/gwerthiant ar-lein yn cystadlu â busnesau lleol</li> <li>• Diffyg isadeiledd ar gyfer Cerbydau Trydan</li> </ul>

## ADRAN 8 – THEMÂU TRAWSBYNCIOL

Disgrifiad	Egluro sut y bydd y Grŵp Gweithredu'n gwneud y mwyaf o'i gyfraniad i themâu cyffredin Cyfle Cyfartal, Datblygiad Cynaliadwy a Mynd i'r Afael â Thlodi.
Yn gysylltiedig ag	Adrannau 3.6 a 3.7 o Ganllawiau'r SDLI Mehefin 2014

### 8.1 Themâu Trawsbynciol

Mae'r adran hon yn nodi'n gyffredinol yr ymagwedd at ddefnyddio'r themâu trawsbynciol i roi'r strategaeth ar waith. Bydd rhagor o gamau gweithredu manwl a gweithgareddau prosiectau posibl yn cael eu harchwilio'n rheolaidd drwy waith PDG Abertawe. Nodwyd rhai camau gweithredu posibl yn y Tabl Rhesymeg Ymyriadau, ac amlygwyd y themâu trawsbynciol arfaethedig.

### **Cyfle cyfartal a phrif-ffrydio rhyw**

Mae egwyddorion cyfle cyfartal yn hanfodol i'r dull o roi'r strategaeth ar waith. Y man cychwyn yw'r angen i leihau anghyfiawnder a hyrwyddo cydlynad cymdeithasol, gan roi'r cyfle i bob buddiolwr cymwys gyfranogi a defnyddio ei sgiliau a'i alluoedd o wneud ei gyfraniad ei hun at Gymru ac Abertawe wledig sy'n fwy ffyniannus a chynaliadwy a bod yn rhan ohonynt, codi lefel CDG yng Nghymru a mynd i'r afael â'r anghydbwysedd o ran enillion yn achos menywod a dynion a phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Dyma enghreifftiau:-

- Marchnata a hyrwyddo digwyddiadau ymgynghori a rhwydweithio'n briodol a chynhwysol, gan dargedu grwpiau penodol pan fo hynny'n briodol
- Teilwra cynnwys sesiynau yn unol ag anghenion grwpiau targed penodol, gan ddefnyddio profiad ac ymchwil flaenorol fel sy'n briodol.
- Dewis lleoliadau ar gyfer digwyddiadau, cyfarfodydd a chynulliadau eraill yn ofalus er mwyn sicrhau'r nifer mwyaf posibl o gyfranogwyr;
- Sicrhau bod cyfarpar priodol ar gael i alluogi'r nifer mwyaf posibl o gyfranogwyr (e.e. clyweled, mynediad, fformatio ac argaeledd dogfennaeth);
- Gwreiddio gofynion cydraddoldeb ym manylebau prosiectau, gweithgareddau ac astudiaethau;
- Sicrhau mynediad da at gludiant, e.e. cludiant cyhoeddus, dyrannu lleoedd parcio i'r anabl mewn gwasanaethau parcio a theithio;
- Osgoi unrhyw fath o duedd mewn llenyddiaeth.

### **Datblygu Cynaliadwy**

Mae datblygu cynaliadwy'n elfen integredig o'r holl weithgareddau arfaethedig sy'n cael eu cwmpasu y strategaeth. Dyma enghreifftiau:-

- Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu cydnerthed ecosystemau;
- Ystyried astudiaethau ynghylch effeithlonrwydd ynni a ffynonellau ynni adnewyddadwy amgen;
- Archwilio'r posibiliadau i fyrhau cadwyni cyflenwi, pontio cysylltiadau rhwng ardaloedd gwledig a rhai trefol a mynediad at farchnadoedd lleol ac is-ranbarthol i leihau milltiroedd bwyd a gwella hunaniaeth leol a gwerth brandiau lleol;
- Dylanwadu ar arferion busnesau a chymunedau er mwyn annog dulliau cynaliadwy;
- Arbrofi â dulliau newydd o roi gwasanaethau ar waith yn y gymuned;
- Atgyfnerthu rhwydweithiau a'u datblygu ymhellach i helpu i ddod â chymunedau a buddiannau eraill ynghyd i ddatrys problemau cyffredin;

- Datblygu marchnata a gwella isadeiledd cerdded a beicio o rowndiau blaenorol.

### **Trechu tloidi ac allgáu cymdeithasol**

Mae cymunedau gwledig yn wynebu nifer o faterion allweddol, er enghraifft:

- Tloidi tanwydd sydd wedi'i effeithio gan gostau cynyddol ynni;
- Ynysu gwledig a phellter oddi wrth wasanaethau;
- Mynediad at gludiant;
- Anweithgarwch economaidd;
- Tai fforddiadwy;
- Salwch tymor hir sy'n cyfyngu ar allu.

Gallai dulliau o fynd i'r afael â'r materion uchod a blaenoriaethau i'r themâu trawsbynciol eraill gynnwys y canlynol:

- Archwilio opsiynau ar gyfer gwella ac ehangu mynediad at wasanaethau a ddarperir yn lleol a chludiant cymunedol carbon isel/di-garbon, gan leihau'r ôl troed carbon gwledig ar yr un pryd.
- Trwy ddarparu gwasanaethau bysys yng nghefn gwlad h.y. gwasanaeth bysys Gower Explorer ar y Sul, 2016 – 2019;
- Ychwanegu at a datblygu ymyriadau blaenorol y Gwasanaeth Ieuenctid i annog grwpiau lleol i fabwysiadu gweithgareddau tebyg sy'n defnyddio adnoddau lleol;
- Archwilio'r posibiliadau ar gyfer darparu gwasanaethau cymunedol ar y cyd trwy ddefnyddio modelau arfer gorau presennol e.e Siop Gymunedol Llanmadog;
- Mynd i'r afael â materion tloidi tanwydd trwy archwilio effeithlonrwydd ynni a mathau gwahanol o ynni adnewyddadwy;
- Archwilio opsiynau er mwyn galluogi cysylltedd digidol ar gyfer cymunedau a busnesau gwledig lle na ddarperir gwasanaethau ar hyn o bryd. Drwy gefnogi cynhwysiad digidol, mae'r GGLI yn cydnabod y bydd hyn yn helpu i arwain at greu swyddi drwy law busnesau bach a chanolig yn ogystal â datblygu sgiliau yn y gymuned;
- Darparu gwasanaethau cyngor ynghylch arian ac ynni i breswylwyr gwledig er mwyn helpu i atal tloidi o fewn poblogaeth wledig sy'n heneiddio.

Mae'r uchod yn cyd-fynd â blaenoriaeth gorfforaethol Cyngor Abertawe i leihau tloidi a'i effeithiau ar drigolion (cyfeirir at hynny yn adran 1.2 y SDLI). Mae aelodaeth y GGLI yn cynnwys cynrychiolaeth o Dîm Tloidi ac Atal Cyngor Abertawe. Mae hyn yn sicrhau ymwybyddiaeth barhaus o'r heriau a wynebwr mewn ardaloedd gwledig ac yn helpu i lywio ymyriadau sy'n cyd-fynd ag agenda Trechu Tloidi.

### **Y Gymraeg**

Fel y nodir yn Adran 1 uchod, mae lefelau'r sgiliau yn y Gymraeg yn amrywio'n helaeth yn y wardiau gwledig, felly mae'n hanfodol sicrhau bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei wreiddio ym mhob rhan o'r rhaglen. Mae'r defnydd o'r Gymraeg



yn gryfach yn rhannau gogleddol Abertawe sy'n ffinio ag awdurdodau cyfagos Castell-nedd Port Talbot a Sir Gâr. Mae lle i archwilio'r posibiladau ar gyfer prosiectau cydweithredol yn ymwneud â thema'r Gymraeg.

Mae gan y GGLI weithdrefnau clir ynghylch y Gymraeg wrth ddyfarbu cyllid. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Sicrhau bod y sawl sy'n cyflwyno ceisiadau am gyllid yn derbyn gwybodaeth glir am ofynion y Gymraeg mewn unrhyw nodiadau esboniadol neu arweiniad a ddarperir iddynt gyda ffurflenni cais a fydd hefyd yn esbonio sut caiff y gofynion hynny eu hystyried wrth asesu'r ceisiadau am grantiau;
- Sicrhau bod y ffurflenni ceisiadau am grantiau yn gofyn i ymgeiswyr esbonio sut caiff y Gymraeg ei defnyddio yn y gweithgarwch a ariennir;
- Sicrhau bod gweithdrefnau asesu ceisiadau am grantiau yn ystyried i ba raddau y mae ymgeiswyr yn bwriadu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithgarwch a ariennir;
- Sicrhau bod llythyrau sy'n cynnig cyllid yn nodi amodau clir o ran y Gymraeg fel rhan o'r cynnig;
- Helpu ymgeiswyr i ddeall y gofynion o ran defnyddio'r Gymraeg, a phan fo hynny'n briodol, cynorthwyo'r sawl sy'n derbyn grantiau i sicrhau y gwneir defnydd priodol o'r Gymraeg yn y gweithgarwch a ariennir;
- Sefydlu systemau monitro i sicrhau y cydymffurfir â'r amodau hyn, gan geisio adroddiadau rheolaidd fel y bo'n briodol, a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau'n gynnar mewn modd adeiladol lle bo'n bosib, gan gadw'r posibilrwydd o dynnu'r grant yn ôl mewn achosion difrifol.

## 8.2 Cynorthwyo'r Uwchdiroedd

Yn ddaearyddol, ychydig o le sydd ar gael i Strategaeth Wledig Abertawe gyfrannu at gynorthwyo ardal yr uwchdiroedd. Fodd bynnag, caiff cyfleoedd i weithio ar themâu o ddiddordeb cyffredin eu harchwilio trwy weithgareddau cydweithredol ar draws y rhanbarth.

## ADRAN 9 – CYNALIADWYEDD TYMOR HIR

Disgrifiad	Egluro potensial y Grŵp Gweithredu i barhau â'r gweithgaredd arfaethedig y tu hwnt i oes y Rhaglen.
Yn gysylltiedig ag	Adran 5.0 Canllawiau'r SDLI Mehefin 2014

## 9.1 Cynllun Prif-ffrydio

**Ar lefel y rhaglen**

Mae'r cynllun cyfathrebu yn Atodiad D yn disgrifio'r dulliau amrywiol o rannu gwybodaeth am gamau gweithredu llwyddiannus. Mae nifer o brosiectau bellach wedi'u cwblhau ac yn parhau, felly ceir cyfle i hyrwyddo gweithgarwch a chanlyniadau go iawn yn hytrach na hyrwyddo strategaeth yn or-syml. Cysylltu'r ddau â'i gilydd fydd y pwyslais allweddol ar gyfer 2020, yn enwedig yn sgil ffocws newydd 'un blaned' y SDLI hon, a gweithredir hynny drwy'r cynllun cyfathrebu.

Mae'r GGLI yn sicrhau bod gwybodaeth a chanlyniadau'r rhaglen yn cael eu rhannu'n gyson ac yn effeithiol. Cyflawnir hyn trwy ddogfennaeth fwy cryno wedi'i mireinio wedi'i thargedu o amgylch themâu'r rhaglen a'i rhannu trwy'r sianeli a nodir yn Atodiad D. Mae'n bwysig parhau i hyrwyddo a rhannu gwybodaeth ynghylch cyflawni gweithredoedd llwyddiannus wedi oes y rhaglen, pa un ai a fydd hynny'n digwydd trwy drosglwyddo gwybodaeth ac arferion gorau, trwy ddulliau newydd neu trwy ddatblygu cynhyrchion neu wasanaethau newydd. Bydd y GGLI, â chymorth y Corff Gweinyddol, yn ymdrechu i wneud hyn i helpu i sicrhau gwaddol ar gyfer y cyflawniadau yn Abertawe wledig.

### **Prif-ffrydio gan gymunedau a busnesau**

Y prif offeryn ar gyfer prif ffrydio yw mabwysiadu dulliau sydd newydd eu treialu gan fusnesau a chymunedau lleol. Gwaddol gorau unrhyw raglen cymorth yw ei llwyddiant gan olygu na fydd rôl iddi yn y pen draw. Mae 'sbarduno' ardal, hyd yn oed yn achos wardiau a phoblogaethau gwledig cymharol fach, yn dasg anferthol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Rhwydweithio ac adeiladu perthnasoedd yn effeithiol ac ymagweddau cydweithredol at ganfod atebion a threialu dulliau o ddatblygu'r economi wledig yw nod craidd y rhaglen.

Mabwysiadu'r ymagweddau yw'r dull gorau o brif-ffrydio. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen ceisio cyllid ychwanegol ar raddfa fwy i gyflwyno cynnig ar sail ehangach, ac efallai y gwneir hynny gan ddefnyddio cyllid cydweithredu, neu trwy gyrchu cronfeydd eraill fel Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd eraill. Yn benodol, mae Cronfeydd Datblygu Cymunedau Gwledig (CDCG) a cymorth i'r sector Twristiaeth yn feysydd cyllido allweddol sy'n cael eu harchwilio'n weithredol. Mae rhoi camau gweithredu ar waith trwy grwpiau a ffurfiwyd trwy brosesau LEADER a sefydliadau ymbarél presennol e.e. Twristiaeth Bae Abertawe, yn ddull pwysig o gyflawni hyn.

### **Dulliau newydd o gyflawni gwasanaethau**

Gallai prif-ffrydio'r sector cyhoeddus fod yn fwy anodd ei gyflawni o ystyried y bydd llai o adnoddau. Fodd bynnag, gallai dulliau newydd o gyflawni gwasanaethau a allai gynnwys y gymuned yn mabwysiadu gwasanaethau sylfaenol, yn ogystal â phrofi dulliau newydd ar gyfer 'hybiau' lleol, greu dulliau hollol newydd o weithio a allai arbed arian i'r sector cyhoeddus a sicrhau ymrwymiad mwy gweithredol gan gymunedau lleol i gyflawni'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt yn lleol. Caiff cyfleoedd i brif-ffrydio a lledaenu eu harchwilio a'u trafod o ddifrif trwy gydol y rhaglen.

## ADRAN 10 – DATGANIAD A LLOFNOD

Rwyf yn gweithredu ag awdurdod y Grŵp Gweithredu Lleol ac yn tystio hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred bod y wybodaeth sydd wedi'i gynnwys yn y cais hwn i'r Strategaeth Datblygu Lleol a'r dogfennau ategol yn wir ac yn gywir a bod y cais am gymorth ariannol yn gais am y lleiafswm sy'n ofynnol i alluogi'r prosiect i fynd rhagddo.

Ymgymeraf i roi gwybod i Lywodraeth Cymru ymlaen llaw ynghylch gwneud unrhyw newidiadau i natur y prosiect hwn.

Cadarnhaf hefyd nad wyf yn ymwybodol o unrhyw reswm pam na all y prosiect fynd rhagddo a bod modd cyflawni'r ymrwymadau a'r gweithgareddau o fewn yr amseroedd a nodir.

### **Cynrychiolydd y Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI)**

<b>Llofnod:</b>	Hamish Osborn
<b>Enw:</b>	<b>HAMISH OSBORN</b>
<b>Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd y GGLI:</b>	<b>Cadeirydd</b>
<b>Dyddiad:</b>	20.06.2020

### **Cynrychiolydd y Corff Gweinyddol**

<b>Llofnod:</b>	Vicki Thomson
<b>Enw:</b>	<b>Vicki Thomson</b>
<b>Swydd yn y Corff Gweinyddol:</b>	<b>Prif Gyswllt Corff Gweinyddol y GGLI</b>
<b>Dyddiad:</b>	20.06.2020

## **ATODIADAU**

<i>ATODIAD A</i> .....	<i>T68</i>
CYLCH GORCHWYL GRŴP GWEITHREDU LLEOL PDG ABERTAWAWE	
<i>ATODIAD B</i> .....	<i>T73</i>
CYLCH GORCHWYL PANEL GRANTIAU'R RHDG	
<i>ATODIAD C</i> .....	<i>T74</i>
PROSES A MEINI PRAWF GRANTIAU	
<i>ATODIAD D</i> .....	<i>T76</i>
CYNLLUN CYFATHREBIADAU	
<i>ATODIAD E</i> .....	<i>T77</i>
AELODAETH O BARTNERIAETH DATBLYGU GWLEDIG ABERTAWAWE, YN EBRILL 2020	
<i>ATODIAD F</i> .....	<i>T78</i>
PROSES RECRIWTIO AELODAU'R PDG	
<i>ATODIAD G</i> .....	<i>T80</i>
CRYNODEB O BROSIECTAU SYDD WEDI'U CYMERADWYO GAN RhDG LEADER – EBRILL 2020	
<i>ATODIAD H</i> .....	<i>T82</i>
TEMPLED O FFURFLEN HAWLIADAU'R RhDG AR GYFER DERBYNWYR GRANTIAU	
<i>ATODIAD I</i> .....	<i>T83</i>
TABLE RHESYMEG YMYRIADAU	

**CYLCH GORCHWYL GRŴP GWEITHREDU LLEOL PDG ABERTAW**

Lluniwyd y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer Grŵp Gweithredu Lleol PDG Abertawe i gydymffurfio ag Erthygl 32 2(b) Rheoliad EC 1303/2013 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygiad lleol a arweinir gan y gymuned gael ei arwain gan grwpiau gweithredu lleol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o garfannau economaidd-gymdeithasol lleol cyhoeddus a phreifat, ac ni chaniateir i unrhyw grŵp cyhoeddus na phreifat sydd â buddiant gynrychioli mwy na 49% o'r hawliau pleidleisio. Cafodd aelodaeth y GGLI ei ffurfio trwy broses ymgeisio dryloyw yng ngwanwyn 2015 ac adolygiad dilynol a gwahoddiad agored yn ystod gwanwyn 2015.

**Amcanion**

a) Datblygu gallu gweithredwyr lleol yn ardaloedd gwledig Abertawe i ddatblygu a rhoi prosiectau (gweithrediadau) ar waith, gan gynnwys meithrin eu galluoedd rheoli prosiect.

b) Cytuno ar weithdrefn ddethol anwahaniaethol a thryloyw a meini prawf gwrthrychol ar gyfer dewis prosiectau (gweithrediadau) a'u rhoi ar waith, gan osgoi gwrthdrawiadau budd a sicrhau bod o leiaf 50% o'r pleidleisiau mewn penderfyniadau dethol yn cael eu bwrw gan bartneriaid nad ydynt yn awdurdodau cyhoeddus. Bydd modd dethol trwy weithdrefn ysgrifenedig.

c) Parhau i ddatblygu ac adolygu'r Strategaeth Datblygu Lleol (SDLI) a neilltuo'r adnoddau LEADER sydd ar gael i ardaloedd angen a chyfle lleol yn ôl eu gallu i gyflawni amcanion a thargedau'r SDLI.

d) Paratoi gweithdrefn cyflwyno prosiectau barhaus.

e) Derbynn ac asesu ceisiadau am gefnogaeth yn unol ag amcanion y strategaeth y cytunwyd arnynt.

f) Dewis gweithrediadau, gan bennu maint y gefnogaeth i'w rhoi a, lle bo'n berthnasol, gyflwyno'r cynigion i'r corff sy'n gyfrifol am wiriad terfynol cymhwysedd cyn cymeradwyo.

g) Monitro'n fanwl y broses o roi'r SDLI ar waith i gynnwys y camau canlynol:

- Monitro a chymeradwyo adroddiadau cynnydd wrth roi'r strategaeth ar waith a nodi bylchau yn y ddarpariaeth;
- Monitro'r gweithgareddau a gynhelir fel rhan o'r strategaeth hon;
- Sicrhau bod prosiectau cadarn a datblygedig sy'n werth da am arian yn cael eu cynnig a'u dewis i'w harfarnu a'u hariannu;
- Cyflawni gweithgareddau gwerthuso penodol;
- Hyrwyddo'r rhaglen yn lleol.

h) Sicrhau fod y SDLI a'i nodau yn dod yn fwy amlwg yn y wardiau gwledig ac yn ardal ehangach Abertawe.

### **Cyffredinol**

- Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ac adolygu hynny'n flynyddol;
- Cymeradwyo prosiectau trwy system sefydledig ac effeithiol ar gyfer asesu prosiectau a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi;
- Hyrwyddo'r rhaglen a'r gweithgarwch yn lleol ac ymgysylltu â chymunedau lleol;
- Cynnal adolygiad blynyddol o'r SDLI, ymgynghori yn ei gylch, a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Gall y GGLI hefyd adolygu'r SDLI ar unrhyw adeg os byddant yn credu bod angen gwneud hynny hynny.

### **Aelodaeth**

Bydd aelodaeth y Grŵp Gweithredu Lleol yn destun adolygiad blynyddol yn unol â'r broses adolygu ar gyfer y SDLI. Bydd hyn yn sicrhau bod y buddion strategol a gynigir yn adlewyrchu amcanion fersiwn gyffredol y SDLI. Caiff proses ymgeisio ei defnyddio i ffurfio aelodaeth yr GGLI a, lle bo'n briodol, i gyfethol aelodau neu ymgynghorwyr ychwanegol, yn unol ag Erthygl 32 2(b), Rheoliad CE 1303/2013.

Gall y GGLI geisio aelodau newydd ar unrhyw adeg, yn unol ag anghenion. Dyma'r broses ymgeisio:

- Bydd swyddogion neu aelodau presennol y GGLI yn cysylltu â rhanddeiliaid perthnasol, neu bydd unigolion sydd â diddordeb yn darganfod am y cyfle i ymuno â'r GGLI trwy weithgaredd sbarduno ac ati.
- Bydd darpar aelodau'r GGLI yn llenwi ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb ac yn ei chyflwyno i swyddogion. Bydd y ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb yn esbonio pam mae gan yr unigolyn diddordeb mewn ymuno â'r GGLI, pa sefydliad/buddiant y mae'n ei gynrychioli, a pha sgiliau ac arbenigedd y gall eu cynnig.
- Bydd ffurflenni a ddychwelir yn cael eu hasesu gan swyddogion ac aelodau'r GGLI er mwyn cyd-fynd â'r maes arbenigedd/buddiant y mae'r GGLI yn ei geisio, os bydd ffocws penodol. Mae'r cwestiynau'n cynnwys barn ar flaenoriaethau'r SDLI, gwybodaeth a sgiliau, a chysylltiadau â phartneriaethau neu sefydliadau eraill.
- Bydd aelodau'r GGLI yn pleidleisio i benderfynu a ddylid gwahodd darpar aelodau i ymuno ai peidio.

Caiff y broses ymgeisio ei hysbysebu gan swyddogion trwy restrau postio a rhwydweithiau presennol y PDG sy'n cynnwys nifer helaeth o weithredwyr yn ardaloedd gwledig Abertawe, a thrwy law gwefan a thudalen Facebook y RhDG, a gan aelodau'r GGLI trwy gyfrwng eu rhwydweithiau a'u sefydliadau eu hunain.

Mae cyfansoddiad aelodaeth y grŵp yn sicrhau na fydd gan unrhyw fuddiant unigol fwy na 49% o'r hawliau pleidleisio, ac y bydd yn wirionedd gynrychiadol o fuddion economaidd-gymdeithasol Cyhoeddus a Phreifat Lleol perthnasol. Caiff aelodau GGLI y Bartneriaeth eu hysbysu ar y cychwyn am yr angen iddynt gynrychioli eu sector a buddion y sector hwnnw yn hytrach na'u buddiannau personol neu

fuddiannau eu sefydliad. Defnyddir y broses ymgeisio am aelodaeth i feintioli lefel yr aelodaeth o blith buddiannau cyhoeddus/preifat a sicrhau cyfyngiad ar niferoedd gan awdurdodau cyhoeddus yn seiliedig ar gyfanswm yr aelodaeth ofynnol.

Gall aelodau'r GGLI enwebu dirprwy penodol sy'n cynrychioli eu sefydliad neu fudd i gamu yn y bwlch ar ei rhan os na fyddant yn gallu i gyfarfod. Dylid hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth pan ddewisir y dirprwy.

Defnyddir rhestr cylchrediad ehangach y CDG fel un o'r dulliau i sicrhau bod y grŵp ehangach o randdeiliaid a phartïon sydd â buddiant yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am ddatblygiadau. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau ynghylch gweithredu'r strategaeth a chyfleoedd i gyfranogi mewn ymgynghoriadau a gwaith.

### **Datganiadau o fuddiant**

- Caiff ffurflen datganiad o fuddiant ei dosbarthu ym mhob cyfarfod a'i defnyddio i hysbysu cyfansoddiad cyfarfodydd i drafod materion neu waith penodol;
- Yn achos datganiad penodol o fuddiant sy'n ymwneud â thrafod eitem ar yr agenda neu waith penodol, bydd angen i aelod sydd â buddiant ariannol adael yr ystafell tra bydd yr eitem honno o'r agenda yn cael ei thrafod. Fodd bynnag, gall aelod o'r GGLI gyfranogi mewn trafodaethau ynghylch pethau y gallent elwa'n anuniongyrchol ohonynt, er enghraifft, pan fydd y buddion yn gyffredinol i'r holl ddefnyddwyr/buddiolwyr/aelodau o'r gymuned, neu os bydd y buddiant yn fychan iawn.
- Caiff mater y cworwm ei fonitro'n ofalus yn y sefyllfaoedd hyn i sicrhau na all unrhyw fuddiant unigol gynrychioli mwy na 49% o'r hawliau pleidleisio.

### **Llofnodi a chydymffurfio â thelerau'r Cytundeb Ariannu**

Bydd y GGLI yn:

- Mynnu gweld y Cytundeb Ariannu wedi'i lofnodi'n briodol a derbyn a chymeradwyo adroddiadau chwarterol am berfformiad yn erbyn y gofynion a nodwyd ynddo;
- Cytuno'n ffurfiol ar bob newid i'r strategaeth ac unrhyw newidiadau sylweddol i brosiectau;
- Monitro cydymffurfiaeth â'r broses hon i sicrhau y caiff pob newid sylweddol ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn ei roi ar waith;
- Sicrhau bod cofnodion llawn o'r fath newidiadau'n cael eu cadw a'u bod ar gael i'w gweld yn rhwydd.

### **Cyflawni a rheoli cyffredinol**

Mae'r GGLI yn:

- Cynrychioli'r prif bartneriaid sydd â budd yn y strategaeth mewn ffordd eglur;
- Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am drylwyredd proses arfarnu, dethol a monitro prosiectau;

- Derbyn adroddiadau chwarterol manwl am gynnydd yn erbyn nodau ac amcanion y SDLI;
- Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni a rheoli'r rhaglen yn lleol;
- Goruchwyllo cyflawni prosiectau;
- Cymeradwyo adroddiadau cynnydd blynyddol gan gorff gweinyddol arweiniol y strategaeth.
- Bydd aelodau'r GGLI yn gwneud cysylltiadau, yn estyn allan i'w rhwydweithiau, ac yn cynrychioli buddion eu grŵp/sefydliad yng nghyfarfodydd y GGLI.
- Pan fo angen hynny, gall y GGLI sefydlu Gweithgorau a/neu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i fynd i'r afael ag angen neu faes gwaith penodol

### **Rheoleidd-dra a Phriodoldeb**

Bydd y GGLI yn:

- Llunio a dilyn rheolau am reoleidd-dra a phriodoldeb, gan gynnwys rheolau ynghylch atal gwrthdaro buddiannau o safbwynt dewis prosiectau i gael cymorth ariannol a holl weithgarwch arall y bartneriaeth;
- Sicrhau bod ei bolisiâu cyffredinol yn adlewyrchu'r rheolau a'r egwyddorion priodoldeb sylfaenol hyn;
- Derbyn adroddiad blynyddol ynghylch y Rhestr o Asedau a'r asedau a ddelir;
- Ystyried cynigion i waredu unrhyw asedau a cheisio cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw warediad o'r fath cyn gwaredu'r ased dan sylw.

### **Cyfarfodydd**

#### **Mynychder y Cyfarfodydd**

Bydd cyfarfodydd y GGLI yn cael eu cynnal o leiaf bob chwe wythnos. Trefnir cyfarfodydd ychwanegol ar gais y GGLI os bydd angen ystyried unrhyw eitemau eithriadol. Caiff aelodau'r GGL eu hysbysu gan y Corff Gweinyddol am ddyddiad ac amser y cyfarfodydd (a'r lleoliad os bydd hynny'n bosibl) o leiaf 4 mis ymlaen llaw.

#### **Cofnodi Cyfarfodydd**

Caiff cofnodion y cyfarfodydd eu hadrodd yng nghyfarfod nesaf Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe er gwybodaeth.

Dyma fydd y drefn ym mhob cyfarfod:-

- Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb;
- Derbyn datganiadau o fuddiant;
- Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf a'u llofnodi;
- Ymdrin ag unrhyw faterion (os bydd unrhyw rai) sy'n weddill o'r cyfarfod blaenorol;
- Derbyn adroddiadau am gynnydd prosiectau a gymeradwywyd;
- Ystyried ceisiadau newydd am gyllid.



## **Cworwm Cyfarfodydd**

Bydd y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y GGLI yn draean o'r aelodaeth hyd y rhif cyfan agosaf. Os, ar unrhyw adeg, bydd nifer yr aelodau'n llai na hyn, caiff y cyfarfod ei ohirio. Bydd y cworwm yn ystyried cyfran y cynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol i gydymffurfio ag Erthygl 32 2(b) Rheoliad EC 1303/2013.

Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cadw cofnod o bresenoldeb ym mhob cyfarfod. Caiff cofnodion pob cyfarfod eu cadw a'u dosbarthu i aelodau'r bartneriaeth cyn gynted â phosibl ar ôl pob cyfarfod.

Bydd penderfyniadau'r GGLI yn cael eu gwneud trwy godi dwylo a bydd gan y cadeirydd y bleidlais troi'r fantol.

Os oes gan aelodau'r GGLI unrhyw gysylltiad uniongyrchol a sylweddol â phrosiect arfaethedig sy'n cael ei ystyried, dylent ddatgan hynny ar yr adeg briodol yn yr agenda a diddymu eu hawliau pleidleisio ar gyfer unrhyw bleidlais ynghylch y prosiect hwnnw.

**Cylich Gorchwyl Panel Grantiau'r CDG****PIF a Cheisiadau Llawn**

Bydd holl aelodau'r GGLI yn derbyn pob PIF a chais llawn; caiff pob PIF eu hasesu ar gyfer gwahoddiad i'r cam nesaf yn unig, a chaiff ceisiadau llawn eu sgorio'n unigol.

Cynhelir cyfarfod GGLI eithriadol i drafod ceisiadau, a gall unrhyw aelod o'r GGLI yr hoffai gael ei gynnwys yn y cyfarfod fynd iddo ond rhaid bod cworwm yn y cyfarfod ar bob adeg. Gall aelodau'r GGLI na allant ddod i'r cyfarfod gyflwyno'u sylwadau a'u sgoriau cyn y cyfarfod a bydd angen i bob aelod gyhoeddi unrhyw wrthdaro o ran budd. Yn ystod y cyfarfod GGLI eithriadol hwn, caiff sgoriau eu trafod, ynghyd â'r sylwadau a gyflwynwyd gan aelodau'r GGLI sy'n bresennol ac nad ydynt yn bresennol. Byddai cyfarfod eithriadol y GGLI yn penderfynu a ddylid cadw'r sgoriau cyfartalog a dderbyniwyd neu eu diwygio'n seiliedig ar drafodaethau. Ystyrir y sgoriau/canlyniadau a roddir yn y cyfarfod hwn fel y canlyniadau terfynol ac ni fyddai angen eu cymeradwyo ymhellach. Caiff y broses ei hailadrodd ar gyfer y camau PIF a'r ceisiadau llawn

**Cais Llwybr Carlam**

Bydd ceisiadau llwybr carlam yn hepgor y cam PIF a chânt eu hasesu pan fyddant yn cael eu cyflwyno yn hytrach nag mewn cyfnodau grant penodol. Bydd y bartneriaeth yn gosod uchafswm pot grantiau llwybr carlam y gallant benderfynu ei estyn pan fydd yn wag. Yn gyffredinol, dim ond un grant llwybr carlam y sefydliad y gellir ei ariannu, ond gall y bartneriaeth ddefnyddio'i disgresiwn i ariannu mwy mewn amgylchiadau eithriadol.

Rhaid i bob aelod o'r GGLI dderbyn pob cais a sgorio pob un yn unigol

Gellir trafod ceisiadau llwybr carlam yn ystod cyfarfodydd cyffredinol y GGLI a gellir gwneud penderfyniadau, ond rhaid bod cworwm yn y cyfarfod ar bob adeg. Gall aelodau'r GGLI na allant ddod i'r cyfarfod gyflwyno eu sylwadau a'u sgoriau cyn y cyfarfod a bydd angen i bob aelod gyhoeddi unrhyw wrthdaro o ran budd. Os derbynnir nifer mawr o geisiadau, cynhelir cyfarfod llwybr carlam y GGLI a chaiff y broses uchod ei rhoi ar waith.

Bydd y GGLI hefyd yn derbyn ffurflen hunanasesu Un Blaned gan yr ymgeisydd. Bydd y ffurflen hon yn ffurflen ategol i'r cais carlam. Ni fydd unrhyw sgôr ynghlwm wrth y ffurflen ond bydd yn rhoi cyfle i'r GGLI asesu sut bydd y prosiect yn effeithio ar, ac yn gwella'r egwyddorion Un Blaned a nodwyd yn y SDLI. Mae'r ffurflen hunanasesu yn cynnwys saith cwestiwn ar yr egwyddorion Un Blaned. Mae pob cwestiwn wedi'i rannu'n ddau a bydd angen i'r ymgeisydd roi sgôr ynghylch sut mae ei sefydliad yn effeithio ar yr egwyddorion Un Blaned ar hyn o bryd, a sut bydd ei brosiect yn gwneud gwahaniaeth i'r egwyddorion hyn.

**CRONFEYDD HEB EU DYRANNU**

Bydd unrhyw gronfeydd heb eu dyrannu yn ystod y 6 mis olaf o gyflwyno'r rhaglen yn cael eu cynnig i brosiect gweithredol i wneud cais amdano fel ychwanegiad at y prosiect ar gyfer gweithgareddau newydd, neu i dalu am gostau'r prosiect. Byddai'r broses ymgeisio drwy gyflwyniad wedi'i recordio a fydd yn amlinellu eu prosiect presennol, y costau a nodwyd a sut y byddai'n ychwanegu budd at gymunedau gwledig Abertawe. Dilynir y cyflwyniad gan sesiwn holi ac ateb mewn cyfarfod GGLI a fyddai'n cael ei recordio at ddibenion archwilio. Yna byddai'r GGLI yn trafod y cynigion cyn gwneud penderfyniad. Byddai'r broses hon yn broses ddi-bapur a chaiff ei recordio at ddibenion archwilio.

## **ATODIAD C**

### **Proses a Meini Prawf Grantiau**

Disgrifir y system prosesu ceisiadau isod:

Mae proses ymgeisio am grantiau Partneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe yn cynnwys dau gam. Yng nghanam un, Ffurflen Syniadau Prosiect, bydd aelodau'r Bartneriaeth yn ceisio cael ymdeimlad da o nodau prosiect, canfod i ba raddau mae'n cyd-fynd â'r Strategaeth Datblygu Lleol ac unrhyw flaenoriaethau cyfredol, gwerth am arian, gwaddol ac arloesedd. Yn ystod yr ail gam, Cais Llawn, ceisir rhagor o fanylion am yr uchod a gwybodaeth ychwanegol. Mae'r ffurflen Syniadau Prosiect a ffurflen y Cais Llawn ar gael i'w gweld ar wefan RhDG Abertawe trwy'r adeg, hyd yn oed ar ôl i gyfnodau dyrannu cyllid ddod i ben, i alluogi darpar ymgeiswyr i gael cyfle i baratoi at y broses.

Os bydd gan gyfnod dyrannu cyllid thema flaenoriaethol benodol, cyhoeddir hyn cyn i'r cyfnod dyrannu cyllid gychwyn; bydd gan brosiectau sy'n cyd-fynd â thema flaenoriaethol gyfle llawer gwell o ddenu arian na'r rhai sydd ddim yn cyd-fynd â hynny. Mae'n rhaid i'r holl brosiectau gyd-fynd â'r SDLI er mwyn gallu cael eu hystyried.

Pan dderbynnir Ffurflenni Syniadau Prosiectau, cânt eu hasesu gan Swyddogion y RhDG yn y lle cyntaf i weld a ydynt yn gymwys. Caiff Ffurflenni Syniadau Prosiectau cymwys eu hanfon at Banel Grantiau'r Bartneriaeth i'w sgorio; nid yw'r Panel yn ymrwymo i gymeradwyo unrhyw nifer benodol o Ffurflenni Syniadau Prosiectau i fynd ymlaen i gam y Cais Llawn.

Bydd ymgeiswyr y cymeradwyir eu Ffurflenni Syniadau Prosiectau i symud ymlaen i gam y Cais Llawn yn gorfod cael cyfarfod â swyddogion y RhDG cyn gynted ag y bo modd ar ôl cael eu hysbysu. Bydd y cyfarfod hwn yn trafod unrhyw adborth ynghylch eu Ffurflen SyniadU Prosiect, (bydd yn rhaid i'r ymgeisydd fod yn ystyriol o'r adborth hwnnw) ac unrhyw ymholiadau y bydd ganddynt am ffurflen neu broses y Cais Llawn.

Ychydig cyn i gyfnod y Ceisiadau Llawn ddod i ben, bydd ymgeiswyr yn cael cyfle i anfon fersiwn drafft o'u cais at Swyddogion y RhDG. Ni fydd y Swyddogion yn gallu darparu unrhyw adborth am ansawdd y cais, ond efallai y byddant yn dwyn sylw ymgeiswyr at unrhyw adrannau a fyddai'n methu â chyflawni'r gofynion cymhwysra.

Pan ddaw cyfnod y Ceisiadau Llawn i ben, bydd Swyddogion yn asesu ceisiadau i weld a ydynt yn gymwys. Bydd Ceisiadau Cymwys yn cael eu hanfon at y Panel Grantiau i'w sgorio. Os bydd y Panel yn barnu bod unrhyw geisiadau yn methu â chyflawni'r trothwy ansawdd gofynnol, ni fydd y ceisiadau hynny yn cael eu hystyried i gael eu hariannu. Bydd y rhai sy'n cyflawni'r trothwy yn cael eu graddio yn ôl eu sgôr cyfartalog, a dyma fydd trefn dyfarnu'r cyllid os bydd angen lefel uwch o grant na'r hyn fydd ar gael.

Bydd yn ofynnol i brosiectau llwyddiannus lofnodi eu cytundeb ariannu ymhen 14 diwrnod gwaith ar ôl cael gwybod am y canlyniad. Mewn rhai achosion, gall cymeradwyo prosiect fod yn seiliedig ar Amodau Arbennig a bennir gan y Panel Grantiau, a bydd yn rhaid i'r ymgeisydd eu derbyn er mwyn cael yr arian. Pan fydd cytundebau wedi'u llofnodi, bydd ymgeiswyr yn cael cyfarfod sefydlu gyda'r Swyddogion i drafod hawliadau a phrosesau monitro ac unrhyw ymholiadau sydd ganddynt. Yn dilyn hyn, gellir cychwyn cyflawni prosiectau!

Nodir isod brif benawdau meini prawf asesu prosiectau fel y'u cynhwysir yn y ffurflen gais lawn:

Adran 1: *Teitl y Prosiect*

Adran 2: *Disgrifiad o'r Prosiect*

Adran 3: *Manylion yr Ymgeisydd*

Adran 4: *Amserlenni'r Prosiect*

Adran 5: *Costau'r Prosiect*

Adran 6: *Eich Prosiect a'r Strategaeth*

*Datblygu Lleol*

Adran 7: *Arloesedd*

Adran 8: *Buddiolwyr y Prosiect*

Adran 9: *Yr Angen, y Galw a*

*Datblygu'r Prosiect*

Adran 10: *Cyflawni'r Prosiect –*

*Cyfranogiad y Buddiolwyr*

Adran 11: *Rhanddeiliaid*

Adran 12: *Wardiau a Wasanaethir gan y Prosiect*

Adran 13: *Themâu Trawsbynciol*

Adran 14: *Un Blaned*

Adran 15: *Allbynnau'r Prosiect*

Adran 16: *Deilliannau a Gwaddol y Prosiect*

Adran 17: *Cerrig Milltir y Prosiect*

Adran 18: *Rheoli'r Prosiect*

Adran 19: *Risgiau*

Adran 21: *Gwerth am Arian*

Adran 22: *Ffynonellau Arian Eraill*

Adran 23: *Ffynonellau Arian Cyfatebol*

Adran 24: *Arian Cyfatebol Llywodraeth Cymru*

Adran 25: *Costau'r Prosiect Fesul Blwyddyn*

Adran 26: *Cyfraniad Arian Cyfatebol Tuag At Gostau – Fesul Blwyddyn*

Adran 27: *Dadansoddiad o Gostau'r Prosiect*

Adran 28: *Cyfranogiad y Sefydliad sy'n Cyflawni*

Adran 29: *Perchnogaeth y Prosiect*

Adran 30: *Prydlesu Offer*

Adran 31: *Offer Ail Law*

Adran 32: *Diwydrwydd Dyladwy*

*Ariannol*

Adran 33: *Cadarnhad gan yr*

*Ymgeisydd*

Adran 34: *Tystysgrif*

*Atodiad 1: Map o'r Rhanddeiliaid*

*Atodiad 2: Cynllun Cyfathrebu*

**CYNLLUN CYFATHREBU**

<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Mynychder</b>	<b>2020</b>	<b>2021</b>	<b>2022</b>	<b>2023</b>
Lansio'r SDLI Un Blaned Newydd		JUNE			
Hyrwyddo'r SDLI a chyfnodau dyrannu cyllid trwy weithgareddau sbarduno a chymorthfeydd	Pan yn ofynnol	x	x	x	
Diweddaru tudalennau gwe RhDG Abertawe (ar wefan Cyngor Abertawe) yn rheolaidd	Rheolaidd	x	x	x	x
Diweddaru sianeli cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd (rhai'r Rhaglen a rhai Cyngor Abertawe)	Rheolaidd	x	x	x	x
Datganiadau i'r wasg wedi'u targedu a defnydd o bapur newydd LEADER Awdurdod Lleol Abertawe i hyrwyddo straeon newyddon da	Pan yn ofynnol	x	x	x	x
Llenyddiaeth hyrwyddo a hysbysebion	Pan yn ofynnol	x	x	x	x
Nifer o e-gylchlythyrau Llywodraeth Cymru, megis Rhwydwaith Gwledig Cymru, yn cael eu hanfon at aelodau'r GGLI i'w rhannu â'u grwpiau	Rheolaidd	x	x	x	x
Cyhoeddi'r prosiectau LEADER sydd wedi'u cymeradwyo ar wefan Rhwydwaith Gwledig Cymru	Pan yn ofynnol	x	x	x	x
Ystyried clipiau fideo hyrwyddo ar YouTube ynghylch prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo a deilliannau	Pan yn ofynnol	x	x	x	x
Cyflwyniadau i amrywiaeth o grwpiau a phartïon sydd â diddordeb	Rheolaidd	x	x	x	x
Presenoldeb mewn digwyddiadau gwledig priodol gan gynnwys Sioe Gŵyr, cymorthfeydd ariannu ac ati	Rheolaidd	x	x	x	x
Presenoldeb yn nigwyddiadau Llywodraeth Cymru/Rhwydwaith Gwledig Cymru sy'n hyrwyddo arferion gorau/gweithgarwch, ac wedi hynny, rhannu'r wybodaeth â'r GGLI a gweithredu hynny o bosibl	Pan yn ofynnol	x	x	x	x
Cyfarfodydd briffio unigol ar gyfer aelodau sy'n cynrychioli wardiau gwledig, cynghorau cymuned, sefydliadau cymunedol ac ati	Pan yn ofynnol	x	x	x	x

**AELODAETH O BARTNERIAETH DATBLYGU GWLEDIG ABERTAWE YN  
EBRILL 2020**

#	Enw (AELODA U)	Sector	Cynrychiolaeth	SEFYDLIAD
1	Alyx Baharie	3ydd	Y Gwasanaethau Gwirfoddol	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
2	Carl Gough	3ydd	Cydweithfeydd a Chynladwyedd	Canolfan Cydweithredol Cymru
3	Chris Lindley	Cyhoeddus	AoHNE ac Amgylcheddol	CA - AoHNE Gŵyr
4	Y Cyng. Andrew Stevens (Hyrwyddwr Gwledig)	Cyhoeddus	Pob Mater Gwledig a'r Gymuned Ehangach	Cyngor Abertawe - Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell a Hyrwyddwr yr Economi Leol
5	Y Cyng. Paxton Hood-Williams	Cyhoeddus	Cymuned Ehangach	Cynghorydd Ward Fairwood a'r Crwys
6	Deb Hill	3ydd	Amgylcheddol	Fforwm yr Amgylchedd Abertawe
7	Geraldine Williams	Cyhoeddus	Twristiaeth	CA - Twristiaeth (cc i Steve Hopkins)
8	Hamish Osborn (Cadeirydd)	Cyhoeddus	Amgylcheddol	Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd GGLI hefyd)
9	Linda Frame	Cyhoeddus	Cymuned Ehangach	Cyngor Cymuned Mawr
10	Paul Baker	Cyhoeddus	Amgylcheddol a Chymuned	Cyngor Cymuned Llangyfelach
11	Anthony Richards	Cyhoeddus	Trechu Tlodi	CA - Tlodi a'i Atal
12	Stephen Crocker	Preifat	Twristiaeth	Twristiaeth Bae Abertawe
13	Bethan Roberts	Preifat	Amaethyddiaeth, y Gymuned Ffermio a Busnes	Hunangyflogedig
14	Rachel Aka	3ydd	Cymuned	Cyflogedig

15	Tanya Nash	Preifat	Preifat	Hunangyflogedig
16	Nigel Doyle	3ydd	Cymuned	Hunangyflogedig
17	Malcolm Ridge	3ydd	Cymdeithas Gŵyr	Cymuned
18	Richard Williams	3ydd	Cymuned	YMCA
19	Rob Morgan	Preifat	Amaethyddiaeth, y Gymuned Ffermio a Busnes	Hunangyflogedig
20	Bob Morgan	Preifat	Twristiaeth - Llety	Hunangyflogedig

**2022**



**PROSES RECRIWTIO AELODAU'R BARTNERIAETH DATBLYGU GWLEDIG**

O bryd i'w gilydd, bydd y GGLI yn gwahodd aelodau newydd. Gofynnir i unigolion sydd â diddordeb lenwi'r ffurflen ddilynol.

**MYNEGIANT O DDIDORDEB I DDOD YN AELOD O  
BARTNERIAETH DATBLYGU GWLEDIG ABERTAWE**

**1. Manylion Cysylltu**

<b>Enw:</b>	
<b>Cyfeiriad post cyswllt:</b>	
<b>Rhif Ffôn:</b>	
<b>Cyfeiriad e-bost:</b>	
<b>Statws Cyflogaeth:</b>	
<b>Enw'r cyflogwr (os yn berthnasol):</b>	
<b>Rhif ffôn:</b>	
<b>Wardiau yn Abertawe sy'n gymwys i elwa o'r RhDG rydych chi'n bwriadu eu cynrychioli:</b>	
<b>Grwpiau neu fuddiannau rydych chi'n bwriadu eu cynrychioli:</b>	

**2. Diddordeb mewn ymuno â'r GGLI:** Pam ydych chi'n frwdfrydig ynghylch dod yn rhan o'r Bartneriaeth ac ymuno â'r gwaith datblygu dan arweiniad y gymuned yn y wardiau gwledig sy'n gymwys i gael cymorth y RhDG? Pa anghenion ac anawsterau yn yr ardaloedd hyn y gall y Bartneriaeth fynd i'r afael â hwy yn eich tyb chi?

**3. Cynrychiolaeth:** Pa ardal, grŵp neu fuddiant ydych chi'n cynrychioli? Pam ydych chi'n credu ei fod yn bwysig iddynt gael eu cynrychioli yn y Bartneriaeth?

**4. Sgiliau a gwybodaeth y gallech chi eu cynnig i'r GGLI:** Dywedwch wrthym ni pa sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd y gallech chi eu cyfrannu i'r grŵp a sut fyddai hyn o fudd i'r GGLI, yn enwedig mewn perthynas â'r dull Un Blaned newydd sydd wedi'i fabwysiadu yn y SDLI.

**5. Dywedwch wrthym ni am unrhyw brofiad blaenorol o Gyllid Ewropeaidd, Datblygu Cymunedol, Datblygiad Economaidd, Un Blaned neu grwpiau/partneriaethau eraill**

**6. Gwrthdaro Buddiannau Posibl:** Rhowch wybod i ni am unrhyw wrthdaro buddiannau y gallech chi fod yn ymwybodol ohono a allai effeithio ar eich cyfranogiad yn y GGLI, e.e. A yw eich sefydliad/prosiect wedi cael cyllid o'r RhDG? A oes gennych chi berthynas busnes neu a ydych chi'n perthyn i unrhyw aelod presennol neu flaenorol o'r GGLI?

**7. Argaeledd i fynd i gyfarfodydd:** Rhowch wybod i ni am unrhyw gyfyngiadau posibl ar eich hamser o ran gallu cyfranogi mewn cyfarfodydd rheolaidd, yn ystod y dydd neu gyda'r hwyr, wyneb yn wyneb neu'n ddigidol.

**Dychwelwch y ffurflen wedi'i llenwi erbyn 12yp (canol dydd) erbyn [DYDDIAD] at: [rdpleader@swansea.gov.uk](mailto:rdpleader@swansea.gov.uk) gan nodi'r canlynol yn llinell y testun: 'Mynegiant o ddiddordeb mewn bod yn aelod o'r GGLI'. Ni dderbynnir unrhyw geisiadau wedi'r dyddiad cau hwn.**

**Os bydd eich cais i ymuno â Phartneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe yn llwyddiannus, bydd yn rhaid i chi dderbyn y datganiad dilynol:**

Mae holl aelodau Partneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe yn arfer eu swyddogaethau er budd y cyhoedd. Gwneir penderfyniadau yn agored, yn ddiuedd, ar sail barn gadarn ac am resymau y gellir eu cyfiawnhau. Ni chaniateir i unrhyw aelod geisio elwa o fynediad at wybodaeth sensitif neu gyfyngedig y bydd yn ei gweld yn sgil bod yn aelod o'r panel.

**Llofnod.....**

(Daliwch sylw: mae ar y Bartneriaeth angen llofnod go iawn ar y ddogfen hon)

**Dyddiad: .....**

**Crynodeb o Brosiectau sydd wedi'u Cymeradwyo gan CDG  
LEADER – Ebrill 2020**

***Gower Explorer y Sul 2016***

Darparu gwasanaethau bws diwygiedig a gwell rhwng Abertawe a Gŵyr ar ddydd Sul yn ystod y tymhorau canolig a phrysur, gan adeiladu ar lwyddiant gwasanaethau tebyg dros y pum mlynedd diwethaf. Datblygu'r farchnad deithio i ymwelwyr a'r economi ymwelwyr a gwella hygyrchedd i breswylwyr lleol

***Solar Cymunedol Killan***

Nodi a sicrhau pecyn ariannu addas ar gyfer safle solar dan berchnogaeth gymunedol. Mae'n rhan o raglen fwy o waith i ddatblygu ac adeiladu cynllun solar 1MW dan berchnogaeth gymunedol.

***Llais Cymunedol Gwledig Abertawe***

Gwella prosesau ymgynghori â'r cyhoedd a'u cynnwys ar gyfer yr wyth cymuned ddaearyddol wledig. Caiff hyn ei gyflawni drwy sefydlu prosiect Llais Cymunedol Gwledig Abertawe, a gynhelir gan Dimau Trefnu Cymunedol gan ddefnyddio dulliau Democratiaeth Ddigidol VocalEyes a ffyrdd eraill o gynnwys pobl lleol.

***Gower Explorer y Sul 2017-2019***

Parhau i ddarparu gwasanaethau bws diwygiedig a gwell rhwng Abertawe a Gŵyr ar ddydd Sul yn ystod y tymhorau canolig a phrysur, gan adeiladu ar lwyddiant gwasanaethau tebyg dros y pum mlynedd diwethaf. Datblygu'r farchnad deithio i ymwelwyr a'r economi ymwelwyr a gwella hygyrchedd i breswylwyr lleol.

***Marchnata Digidol ar gyfer Cludiant Cynaliadwy yn Abertawe Wledig***

Drwy greu gwasanaeth gwybodaeth rhyngweithiol o'r radd flaenaf ar gyfer ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio i Abertawe wledig ac o'i chwmpas, bwriad y prosiect hwn yw denu mwy o ymwelwyr ac annog mwy o deithio gan breswylwyr lleol heblaw mewn ceir preifat.

***Cynllun Peilot ac Astudiaeth Dichonoldeb Llysgennad Twristiaeth Cymunedol Gŵyr***

Cydlynu, cyflwyno a rheoli cynllun peilot llysgennad twristiaeth cymunedol ym mhenrhyn Gŵyr, a chwblhau astudiaeth dichonoldeb ar gyflwyno cynllun ehangach ar draws Gŵyr ac ardaloedd eraill yn Abertawe wledig.

***Adnoddau Abertawe Wledig/Astudiaeth Dichonoldeb o Ganolfan Ymwelwyr***

Ymgymryd ag asesiad annibynnol a chynhwysfawr er mwyn nodi a mesur anghenion busnesau/mentrau a phreswylwyr Abertawe wledig, ynghyd ag ymwelwyr hi, mewn perthynas â datblygu a defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau pwrpasol â'r nod o gefnogi'r economi wledig a chan ganolbwyntio'n arbennig ar y sector twristiaeth.

***Cyfleuster Addysg Tŷ Crwn yr Oes Haearn***

Darparu cyfleusterau addysg parhaol fel pwynt mynediad i gyflwyno treftadaeth ddiwylliannol a thirweddol. Mae hyn yn cynnwys profiad rhyngweithiol i ysgolion a'r gymuned. Bydd hefyd yn atyniad i ymwelwyr. Y ffocws fydd yr Oes Haearn, sy'n drobwynt hanfodol yn nhreftadaeth Cymru.

### ***Cae Tan – Amaethyddiaeth â Chymorth y Gymuned***

Creu economi wledig hunangynhaliol drwy gyfleoedd swyddi a hyfforddi, cynnwys y gymuned, addysg, masnach a gwelliannau amgylcheddol.

### ***Astudiaeth Dichonoldeb Rhwydwaith Cludiant Cynaliadwy ar gyfer Abertawe Wledig***

Nod yr astudiaeth hon fydd llunio strategaeth trafndiaeth integredig gynaliadwy wedi'i dylunio i wella mynediad a chysylltedd ar gyfer Abertawe wledig. Bydd yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol ac yn awgrymu lle gellir ei datblygu a'i gwella.

### ***Astudiaeth Dichonoldeb i archwilio'r potensial am Brosiect Lliniaru Allyriadau Carbon***

Datblygu menter nid er elw a arweinir gan y gymuned sy'n cynnig lleddfu allyriadau carbon drwy blannu coed o darddiad lleol wedi'u tyfu yn y gymuned. Yr astudiaeth dichonoldeb fydd y cam cyntaf wrth ddatblygu'r prosiect arloesol hwn yn fodel busnes cadarn a hunangynhaliol sy'n mwyafu ar werthoedd cymdeithasol a bioamrywiaeth.

### ***Marchnad y Mill***

Treialu marchnadoedd cynnyrch awyr agored gyda'r hwyr yn ardal Parkmill ynghyd â gweithgareddau addysgol cysylltiedig

### ***Astudiaeth Dichonoldeb ar gyfer Hwb Cymunedol ar Gae Chwarae Pennard***

Darparu tystiolaeth o angen a chynllun busnes er mwyn symud ymlaen i'r cam ceisiadau am arian ar gyfer caniatâd cynllunio ac arolygon a chwblhau Hwb Cymunedol, a fydd yn gwella amrywiaeth y cyfleusterau yn Pennard a'i wardiau cyfagos yn sylweddol.

### ***Amaethyddiaeth â Chymorth y Gymuned Big Meadow***

Sefydlu cynllun Amaethyddiaeth â Chymorth y Gymuned (CSA) arloesol ynghyd â rhaglen breswyl (Surf N Turf) sy'n cynnwys cymunedau gwledig ar draws Gŵyr ac sy'n darparu blychau llysiâu lleol di-blastig yn uniongyrchol i 50 o gartrefi.

Lleolir y cynllun mewn ardal wledig yn Llangynydd, Gŵyr, lle mae mynediad cyfyngedig i siopau a diffyg opsiynau o ran dewis bwyd lleol nad yw wedi'i becynnu. Ein nod yw creu cynllun cynhyrchu bwyd cyffrous a chynaliadwy gyda chyfleoedd gwirfoddoli cyson a chymaint o gyfranogaeth gymunedol â phosib. Bydd addysg a defnyddio'r lles cadarnhaol a'r hunanddatblygiad a all ddatblygu o ganlyniad i weithio ar y tir yn ffocws ar gyfer ein gwaith gyda gwirfoddolwyr a grwpiau.

### ***Llwybrau beicio oddi ar y ffordd Gŵyr***

Bwriad y prosiect hwn yw annog mwy o feicio anffurfiol yn ardal Gŵyr gan ddefnyddio'r rhwydwaith llwybrau ceffyl presennol fel ffordd o fwynhau cefn gwlad a sicrhau cyn lleied o gyswllt â phosib rhwng beicwyr a cheir a cherbydau modur. Bydd beicwyr yn gallu dewis llwybrau a chylchffyrdd byrrach neu deithiau hir (bydd y rhwydwaith cyfan yn 65km o hyd). Bydd y prosiect hefyd yn gwella'r rhwydwaith yn gyffredinol er lles marchogwyr a cherddwyr.

Daliwch sylw: pan fydd prosiectau newydd yn cael eu cymeradwyo, caiff y rhestr uchod ei diweddarau a gellir ei gweld ar wefan RhDG Abertawe

<http://www.swansea.gov.uk/rdp>

**ATODIAD H**  
**TEMPLLED FFURFLEN HAWLIAD DERBYNNYDD GRANT RhDG ABERTAW**

Fel yr atodwyd.

TABL RHESYMEG YMYRIADAU

Enw'r GGLI: Partneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe
Dyddiad Cwblhau/Adolygu: 31 Mawrth 2016 / 30 Ebrill 2020

Anghenion / Cyfleoedd Datblygu	Amcan Penodol (Cyfeirnodau Amcanion)	Cysondeb Strategol (Cyfeirnodau Nodau Strategol)	Mathau o gamau gweithredu a gynorthwyir Camau gweithredu CAMPUS; nodwch os rhagwelir camau gweithredu cydweithredol	Allbynnau (o adran Fframwaith Monitro Canllawiau'r SDLI ynghyd â dangosyddion/ targedau ychwanegol a bennir gan y GGLI)	Targedau Pob Allbwn	Cyfraniad at Themâu Trawsbynciol	Pwy fydd yn cyfrannu at y cyflawni	Amserlen – Dechrau/ Diwedd)
<b>Thema LEADER 1: Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol</b>								
<p>Angen am waith dichonoldeb a chwmpasu o amgylch y seilwaith hamdden a thwristiaeth presennol, gwybodaeth i dwristiaid i nodi cyfleoedd pellach i gydgyssylltu a gwella cyfleusterau a marchnata.</p> <p>Hyrwyddo hunaniaeth leol trwy ddulliau arloesol megis apiau twristiaeth, yn cysylltu'r holl lwybrau cerdded a beicio a safleoedd o ddiddordeb naturiol/treftadaeth.</p> <p>Annog mwy o ymgysylltiad gan gymunedau i gefnogi mwy o gyfranogiad wrth hyrwyddo adnoddau naturiol a diwylliannol a gwneud cyfraniad allweddol at y gwaith o'u cynnal a'u cadw am genedlaethau i ddod.</p>	Pob un	Nod Strategol 1, 2 & 3	<p>Diffinio a chomisiynu astudiaeth ddichonoldeb sy'n ystyried y rhwydwaith cludiant cyhoeddus, llwybrau beicio a cherdded ac yn uno'r llwybrau hyn gyda'i gilydd ac â hwb neu hybiau ymwelwyr posibl.</p> <p>Annog, hyrwyddo a datblygu gwirfoddolwyr lleol i wasanaethu fel hyrwyddwyr ar gyfer safleoedd treftadaeth lleol ac adnoddau naturiol.</p> <p>Hwyluso twristiaeth bywyd gwyllt, buddion iechyd yr amgylchedd naturiol a hyrwyddo recriwtio wardeiniaid gwirfoddol.</p> <p>Archwilio a datblygu gweithgareddau addysg a chodi ymwybyddiaeth i hyrwyddo a dehongli amgylchedd naturiol lleol. Gallai hyn gynnwys digwyddiadau hyrwyddo, datblygu apiau, cyfryngau cymdeithasol ac ati. Byddai'r holl weithgareddau hyrwyddo a llwyfannau a ddatblygwyd yn ystyried goblygiadau cymorth y wladwriaeth ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn cyd-fynd â hynny, gan osgoi unrhyw ddyblygu.</p> <p>Hwyluso a hyrwyddo gwyliau gyda themâu penodol, megis gwyliau cerdded, twristiaeth bwyd, gweithgareddau awyr agored ac ati.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Nifer yr astudiaethau achos</li> <li>Nifer y rhwydweithiau a sefydlir</li> <li>Nifer y swyddi a ddiogelir trwy gyfrwng prosiectau a gynorthwyir</li> <li>Nifer y prosiectau peilot a gynhelir/gynorthwyir</li> <li>Nifer yr hybiau cymunedol</li> <li>Nifer y camau lledaenu gwybodaeth/gweithgareddau hyrwyddo a/neu farchnata i godi ymwybyddiaeth o'r SDLI a/neu ei phrosiectau</li> <li>Nifer y rhanddeiliaid sy'n cyfranogi</li> <li>Nifer y cyfranogwyr a gynorthwyir</li> </ol>	<p>2</p> <p>4</p> <p>0</p> <p>5</p> <p>4</p> <p>4</p> <p>10</p> <p>0</p>	<p>Cyfleoedd Cyfartal a Phrif-ffrydio Rhyw</p> <p>Datblygu Cynaliadwy</p> <p>Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol</p>	Swyddogion RhDG LEADER gan gydweithredu â'r LAG ac asiantaethau allanol.	1 Ion 2015 – 31 Rhag 2021

Thema LEADER 2: Hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr								
Yr angen i ddatblygu hwb neu hybiau ymwelwyr a busnes, yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â threftadaeth, lle ar gyfer deori cyn-fasnachol.  Datblygu cadwyn gyflenwi gwirioneddol leol, gan gadw arian ac adnoddau yn yr ardal a chefnogi datblygiad diwydiannau cartref mewn ardaloedd gwledig.	3, 4, 5	Nod Strategol 2 & 3	Diffinio a chomisiynu astudiaeth dichonoldeb sy'n ystyried cyfleusterau a chymorth presennol ar gyfer datblygiad cyn-fasnachol â'r nod o ddatblygu cynllun gweithredu cymorth.  Hwyluso cydweithredu rhwng busnesau lleol er lles pawb i alluogi cyfleoedd i ddatblygu cadwyni cyflenwi byr. E.e. cysylltu cynhyrchwyr lleol â gwestai, busnesau gwely a brechwast a bwytai.  Gweithgarwch hyrwyddo yn ymwneud â chynnyrch a gwasanaethau lleol. Gallai hyn gynnwys cynnal gwyliau cynnyrch lleol a gweithgareddau marchnata.	1. Nifer yr astudiaethau achos 2. Nifer y rhwydweithiau a sefydlir 3. Nifer y swyddi a ddiogelir trwy gyfrwng prosiectau a gynorthwyr 4. Nifer y prosiectau peilot a gynhelir/gynorthwyr 5. Nifer yr hybiau cymunedol 6. Nifer y camau lledaenu gwybodaeth/gweithgareddau hyrwyddo a/neu farchnata i godi ymwybyddiaeth o'r SDLI a/neu ei phrosiectau 7. Nifer y rhanddeiliaid sy'n cyfranogi 8. Nifer y cyfranogwyr a gynorthwyr	2 4 0 5 4 4 10 0	Cyfleoedd Cyfartal a Phrif-frydio Rhyw  Datblygu Cynaliadwy  Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol	Swyddogion RhDG LEADER gan gydweithredu â'r LAG ac asiantaethau allanol.	1 Ion 2015 – 31 Rhag 2021

Thema LEADER 3: Ystyried ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol								
Datblygu gwasanaethau a chyfleusterau lleol ffyniannus o ansawdd uchel sy'n gydgyssylltiedig ac yn hygyrch, ac sydd o fudd i dwristiaid yn ogystal â'r gymuned ehangach.  Gwella mynediad i gefn gwlad Abertawe i bobl leol ac ymwelwyr trwy amrywiaeth o opsiynau cludiant sy'n addas at y diben.  Nodi ac adolygu cyfleoedd ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, ar gyfer hybiau/cyfleusterau y gellid eu cynnal yn gynaliadwy gan gymunedau sy'n cyfranogi.	1, 2, 3, 4, 5	Nod Strategol 1 & 2	Diffinio a chomisiynu astudiaeth ddichonoldeb sy'n ystyried y rhwydwaith cludiant cyhoeddus, llwybrau beicio a cherdded ac yn uno'r llwybrau hyn gyda'i gilydd ac â hwb neu hybiau ymwelwyr posibl.  Treialu cynllun cludiant cyhoeddus newydd ac arloesol sy'n diwallu anghenion trigolion lleol a'r diwydiant twristiaeth hollbwysig.  Archwilio'r awydd i drosglwyddo asedau a sicrhau fod grwpiau cymunedol yn cyfranogi yn y cynigion.	1. Nifer yr astudiaethau achos 2. Nifer y rhwydweithiau a sefydlir 3. Nifer y swyddi a ddiogelir trwy gyfrwng prosiectau a gynorthwyr 4. Nifer y prosiectau peilot a gynhelir/gynorthwyr 5. Nifer yr hybiau cymunedol 6. Nifer y camau lledaenu gwybodaeth/gweithgareddau hyrwyddo a/neu farchnata i godi ymwybyddiaeth o'r SDLI a/neu ei phrosiectau 7. Nifer y rhanddeiliaid sy'n cyfranogi 8. Nifer y cyfranogwyr a gynorthwyr	2 4 0 5 4 4 10 0	Cyfleoedd Cyfartal a Phrif-frydio Rhyw  Datblygu Cynaliadwy  Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol	Swyddogion RhDG LEADER gan gydweithredu â'r LAG ac asiantaethau allanol.	1 Ion 2015 – 31 Rhag 2021

Thema LEADER 4: Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol								
Gwella cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol.  Archwilio opsiynau ar i ddatblygu isadeiledd gwell ar gyfer ynni adnewyddadwy.	6	Nod Strategol 3	<p>Diffinio a chomisiynu astudiaeth ddichonoldeb a fyddai'n adolygu opsiynau addas i'r diben cynlluniau y gellid eu cyflwyno yng nghefn gwlad Abertawe, gan gynnwys asesu addasrwydd safleoedd ar gyfer cyfleusterau ynni adnewyddadwy posibl.</p> <p>Archwiliwch rwydwaith o bwyntiau gwefru yn defnyddio ynni'r haul sy'n gysylltiedig â hybiau cymunedol.</p> <p>Cynorthwyo grwpiau cymunedol i gael gafael ar gyllid a fydd yn galluogi datblygu cyfleusterau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach a fyddai'n arwain at fuddion i'r boblogaeth ehangach.</p> <p>Treialu gwasanaethau a all ddarparu cyngor a chanllawiau i drigolion lleol ynghylch opsiynau ynni adnewyddadwy.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Nifer yr astudiaethau achos</li> <li>2. Nifer y rhwydweithiau a sefydlir</li> <li>3. Nifer y swyddi a ddiogelir trwy gyfrwng prosiectau a gynorthwyr</li> <li>4. Nifer y prosiectau peilot a gynhelir/gynorthwyr</li> <li>5. Nifer yr hybiau cymunedol</li> <li>6. Nifer y camau lledaenu gwybodaeth/gweithgareddau hyrwyddo a/neu farchnata i godi ymwybyddiaeth o'r SDLI a/neu ei phrosiectau</li> <li>7. Nifer y rhanddeiliaid sy'n cyfranogi</li> <li>8. Nifer y cyfranogwyr a gynorthwyr</li> </ol>	2 4 0 5 4 4 10 0	Cyfleoedd Cyfartal a Phrif-ffrydio Rhyw  Datblygu Cynaliadwy  Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol	Swyddogion RhDG LEADER gan gydweithredu â'r LAG ac asiantaethau allanol.	1 Ion 2015 – 31 Rhag 2021

Thema LEADER 5: Manteisio ar dechnoleg ddigidol								
Dylid archwilio cyfleoedd i ddatblygu hybiau TGCh cymunedol newydd.  Mae angen datblygiadau o ran sicrhau bod y boblogaeth wledig wedi'i chysylltu'n ddigidol a'i haddysgu i ddefnyddio TGCh ac ynghylch buddion y dechnoleg honno.	7	Nod Strategol 3	<p>Mae angen ymchwil ac ymarfer cwmpasu i ystyried cyfleusterau cyfredol, sut y gellid defnyddio'r rhain a'u troi'n hybiau TGCh ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr.</p> <p>Marchnata dilynol cyfleusterau a gwasanaethau ledled yr ardal.</p> <p>Mynd ati i dreialu sesiynau hyfforddi TGCh ar gyfer trigolion lleol sy'n dymuno 'mynd ar-lein' a'u cyfeirio at Busnes Cymru a gwasanaethau eraill i alluogi cymorth i ficro-fusnesau i gael mynediad at dechnoleg, offer a gwasanaethau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Bydd angen sicrhau fod opsiynau pwrpasol sydd wedi'u teilwra i alluogi ardaloedd gwledig i ddefnyddio technoleg ddigidol yn ategu darpariaeth arall sy'n bodoli a bydd angen gofal i osgoi unrhyw ddyblygu.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Nifer yr astudiaethau achos</li> <li>2. Nifer y rhwydweithiau a sefydlir</li> <li>3. Nifer y swyddi a ddiogelir trwy gyfrwng prosiectau a gynorthwyr</li> <li>4. Nifer y prosiectau peilot a gynhelir/gynorthwyr</li> <li>5. Nifer yr hybiau cymunedol</li> <li>6. Nifer y camau lledaenu gwybodaeth/gweithgareddau hyrwyddo a/neu farchnata i godi ymwybyddiaeth o'r SDLI a/neu ei phrosiectau</li> <li>7. Nifer y rhanddeiliaid sy'n cyfranogi</li> <li>8. Nifer y cyfranogwyr a gynorthwyr</li> </ol>	2 4 0 5 4 4 10 0	Cyfleoedd Cyfartal a Phrif-ffrydio Rhyw  Datblygu Cynaliadwy  Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol	Swyddogion RhDG LEADER gan gydweithredu â'r LAG ac asiantaethau allanol.	1 Ion 2015 – 31 Rhag 2021



***Manylion Cysylltu***  
Partneriaeth Datblygu Gwledig  
Abertawe  
[RDPLLeader@swansea.gov.uk](mailto:RDPLLeader@swansea.gov.uk)  
[www.swansea.gov.uk/rdp](http://www.swansea.gov.uk/rdp)  
Rhif ffôn: 01792 636992